



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Adroddiad Atebolrwydd 2019-2020



CWMPAS YR ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru a Thrysorlys Ei Mawrhydi, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) wedi llunio Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer cyfnod adrodd ariannol 2019-2020.

Nod yr Adroddiad Atebolrwydd, sy'n rhan o gyfres o Adroddiadau Blynyddol, yw adrodd wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â'r gofynion allweddol ar gyfer atebolrwydd.

Bydd yr Adroddiad Atebolrwydd yn cael ei lofnodi a'i ddyddio gan Swyddog Atebol BIP CTM (y Prif Weithredwr (Dros Dro)), ac mae'n cynnwys yr adrannau canlynol:

- **Yr Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol**
- **Yr Adroddiad Atebolrwydd Ariannol**
- **Yr Adroddiad Taliadau a Staff**
- **Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd yn rhan o gyfres o Adroddiadau Blynyddol a fydd yn cael eu cyflwyno gerbron y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi 2020.

Bydd y Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gael mewn dogfen ar wahân i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Fodd bynnag, bydd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol ar wefan y Bwrdd Iechyd.

YR ADRODDIAD LLYWODRAETHIANT CORFFORAETHOL

Nod yr Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol yw egluro cyfansoddiad y sefydliad a'i strwythurau llywodraethiant, a sut mae'r rhain yn cefnogi BIP CTM i gyflawni ei amcanion. Mae i'r Adroddiad Llywodraethiant Corfforaethol yr adrannau canlynol:

- **Adroddiad y Cyfarwyddwyr**
- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddogion Cyfrifol**
- **Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran y Cyfrifon**
- **Y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**

ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR


O ganlyniad i'r newidiadau i'r cyfrifoldebau am ddarparu gofal iechyd yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr (y mae'r manylion am hyn i'w gweld ar dudalen 34), o 1 Ebrill 2020 daeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM), i adlewyrchu'r ffaith iddo gymryd y cyfrifoldeb dros y gwasanaethau ychwanegol hyn. Mae Adroddiad y Cyfarwyddwyr isod yn dod â gwybodaeth am y sefydliad newydd hwn ynghyd, o ran ei Aelodau Annibynnol a'i Gyfarwyddwyr Gweithredol, cyfansoddiad y Bwrdd ac elfennau eraill o'i lywodraethiant a'i strwythur ar gyfer rheoli risg. Mae hefyd yn cynnwys y datgeliadau a'r adroddiadau sy'n ofynnol gan BIP CTM mewn perthynas â sut mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu o ddydd i ddydd.

Mae'r Bwrdd yn cynnwys Aelodau Annibynnol sy'n cael eu penodi gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a Chyfarwyddwyr Gweithredol sydd wedi eu cyflogi gan y Bwrdd Iechyd. Mae manylion am hyn i'w gweld isod.

AELODAU ANNIBYNNOL

(AELODAU O' R BWRDD)

FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2020



Cadeirydd y Bwrdd Iechyd


Penodwyd Marcus Longley yn Gadeirydd ym mis Hydref 2017. Cynorthwyir yr Athro Longley gan 10 Aelod Annibynnol arall. Nodir yr Aelodau hynny isod.



Is-gadeirydd y Bwrdd Iechyd

Penodwyd Maria Thomas yn Is-gadeirydd ym mis Ionawr 2018 ar ôl bod yn Aelod Annibynnol ers 2012.

Cadeirydd - Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Cadeirydd - Y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol,
Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau
Cadeirydd - Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd
Meddwl
Aelod - Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth



Penodwyd Paul Griffiths yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2017.

Cadeirydd - Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Aelod - Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu
Aelod - Y Pwyllgor Digidol a Data



Aelod - Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth

Penodwyd Mel Jehu yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd yn Ebrill 2016.

Cadeirydd - Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu
Aelod - Y Pwyllgor Digidol a Data
Aelod - Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
Aelod - Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth



Penodwyd Jayne Sadgrove yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd yn Ebrill 2016.

Aelod - Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Aelod - Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Aelod - Y Pwyllgor Digidol a Data
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth.




Penodwyd James Hehir yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2017.

Aelod - Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Aelod - Y Pwyllgor Digidol a Data
Aelod - Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl
Aelod - Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth



Penodwyd Dilys Jouvenat yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd ym mis Awst 2018.

Aelod - Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Aelod - Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu
Aelod - Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth
Aelod - Y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau



Penodwyd Phillip White yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd ym mis Tachwedd 2019 ar ôl cyfnod yn Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Iechyd hwn.

Aelod - Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu
Aelod - Y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau



Aelod - Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl,
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth

Penodwyd Nicola Milligan yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd ym mis Awst 2018.

Aelod - Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch
Aelod - Y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y
Boblogaeth a Phartneriaethau
Aelod - Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth



Penodwyd Kieron Montague yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd ym mis Hydref 2017 ar ôl cyfnod yn Aelod Cyswllt o'r Bwrdd yn 2017 ac yn Aelod Annibynnol rhwng Ebrill 2016 ac Ebrill 2017.

Cadeirydd - Y Pwyllgor Cronfeydd
Elusennol

Aelod - Y Pwyllgor Ansawdd a
Diogelwch
Aelod - Y Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y
Boblogaeth a Phartneriaethau
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth



Penodwyd Ian Wells yn Aelod Annibynnol o'r Bwrdd Iechyd ym Mai 2019.

Cadeirydd - Y Pwyllgor Digidol a Data
Aelod - Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu
Aelod - Y Pwyllgor Archwilio a Risg
Aelod - Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth

CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL (AELODAU O'R BWRDD) FEL YR OEDD AR 31 MAWRTH 2020



Sharon Hopkins,
Prif Weithredwr
(Dros Dro)
(O Fehefin 2019)



Ruth Treharne,
Cyfarwyddwr
Cynllunio a
Pherfformiad
(hyd at Fawrth 2020)



Nick Lyons,
Cyfarwyddwyr
Meddygol
(O Hydref 2019)



Steve Webster,
Cyfarwyddwr
Cyllid



Greg Dix,
Cyfarwyddwr
Nyrso,
Bydwreigiaeth a
Gofal Cleifion



Alan Lawrie,
Cyfarwyddwr Gofal
Sylfaenol, Gofal
Cymunedol ac
Iechyd Meddwl
(Cyfarwyddwr,
Gweithrediadau
Gwasanaethau Clinigol o
Ebrill 2020)



Hywel Daniel,
Cyfarwyddwr, Y
Gweithlu a
Datblygu
Sefydliadol (Dros
dro)
(O Fawrth 2020)



Kelechi Nnoaham,
Cyfarwyddwr
Iechyd y Cyhoedd



Liz Wilkinson,
Cyfarwyddwr
Therapiau a
Gwyddorau Iechyd
(o Dachwedd 2019)

AELODAU CYSWLLT O' R BWRDD



Giovanni Isingrini, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd Cyfarwyddwr Grŵp, Gwasanaethau Plant a Chymunedol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf




Sharon Richards, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o Chwefror 2020) Rheolwr Iechyd a Lles, Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful, Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid BIP CTM



Suzanne Scott-Thomas, Aelod Cyswllt o'r Bwrdd (o Orffennaf 2019) Cyfarwyddwr Clinigol / Pennaeth Rheoli Meddyginiaethau BIP CTM, Cadeirydd Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol BIP CTM

CYFARWYDDWYR ERAILL Y BWRDD



Georgina Galletly, Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro (o Orffennaf 2019).



John Palmer, Prif Swyddog Gweithredu

Mae'r penodiadau uchod yn adlewyrchu'r sefyllfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020. Rhwng Mai 2019 - Mawrth 2020, Anne Phillimore oedd Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, ac roedd Joanna Davies yn y swydd cyn hynny. Robert Williams oedd yn llenwi swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd cyn i Georgina Galletly gymryd y swydd dros dro.

PENODIADAU CYHOEDDUS

Ar 25^{ain} o Fawrth 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod Mel Jehu a Jayne Sadgrove wedi eu hailbenodi yn Aelodau o BIP CTM o 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2024.

DATGANIADAU O FUDDIANT CYHOEDDUS

Mae pob aelod o Fwrdd BIP CTM wedi datgan yn ysgrifenedig ei fod wedi cymryd pob cam y dylai fod wedi ei gymryd fel Cyfarwyddwr i hysbysu archwilwyr o unrhyw wybodaeth a fyddai'n berthnasol i archwiliad. Mae pob Aelod o'r Bwrdd, Uwch-reolwyr ac aelodau agos o'u teulu (gan gynnwys Cyfarwyddwyr pob sefydliad y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei letya) wedi datgan unrhyw fuddiannau ariannol a safleoedd o awdurdod a all wrthdaro â'u cyfrifoldebau. **Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau materol** yn ystod 2019-20, ac mae rhestr lawn o fuddiannau ar gyfer 2019-20 ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol.

DATGANIADAU DATGELU

Hoffem wneud y datganiadau datgelu canlynol ar gyfer 2019-2020:-

- Er nad oes rhaid cydymffurfio â phob elfen o'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau'r Llywodraeth Ganolog, mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn ei fod **yn cydymffurfio â phrif egwyddorion** y Cod lle y bo'n berthnasol, ei fod yn dilyn ysbryd y Cod mewn modd effeithiol a'i fod yn **cynnal ei fusnes yn agored** ac yn unol â'r Cod. Seilir hyn ar yr adolygiad gan Deloitte a wnaed yn ystod y cyfnod adrodd.

Ni ddaethpwyd o hyd i unrhyw achosion o dorri'r Cod Llywodraethiant Corfforaethol ac **ni chafwyd unrhyw adroddiadau** o achosion o'r fath. Bydd asesiad trylwyr yn cael ei wneud yn erbyn y Cod. Fodd bynnag, mae'r asesiad hwn wedi **ei oedi oherwydd yr ymateb i COVID-19**. Bydd asesiad llawn yn erbyn y Cod, gan ddefnyddio'r fframwaith a ddatblygwyd gan Grŵp Cymheiriaid Dirprwy Ysgrifenyddion Bwrdd, yn cael ei wneud ym mis Rhagfyr 2020.

- Mae gan Lywodraeth Cymru uchelgais i'r sector cyhoeddus fod yn garbon niwtral erbyn 2030. Mae'r uchelgais hon yn eistedd ochr yn ochr â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sef y sbardunau deddfwriaethol i ddatgarboneiddio'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Rydym wedi cynnal asesiadau risg ac mae **Cynlluniau Cyflenwi i Leihau Carbon** ar waith, yn unol

â gofynion o ran ein parodrwydd i ddelio ag argyfyngau ac argyfyngau sifil posibl, ar sail rhagolygon o'r tywydd gan Raglen Effeithiau Hinsawdd y DU, a hynny er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn cydymffurfio â'r Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion o ran Adrodd am Addasiadau.

- Fel cyflogwr sy'n cyflogi **staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG**, mae mesurau rheoli ar waith i sicrhau bod modd i ni gyflawni'r rhwymedigaethau i'r cyflogwr a geir yn Rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau cyflog, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun oll yn digwydd yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diwedddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni y manylir arnynt yn y Rheoliadau.

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR (DROS DRO) FEL SWYDDOG ATEBOL

Mae Gweinidogion Cymru wedi gorchymyn y dylai'r Prif Weithredwr fod yn Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd.

Mae cyfrifoldebau perthnasol y swyddogion cyfrifol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb dros briodoldeb a chysondeb y defnydd o arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ynghyd â'u cyfrifoldeb am gadw cofnodion cywir, wedi eu nodi ym memorandwm y swyddogion cyfrifol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

Rhaid i'r swyddog cyfrifol gadarnhau nad oes, hyd eithaf ei wybodaeth, unrhyw wybodaeth a fyddai'n berthnasol i archwiliad nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, a rhaid i'r swyddog cyfrifol gymryd pob un o'r camau y dylai ei gymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth a fyddai'n berthnasol i archwiliad a sicrhau yn dilyn hynny fod archwilwyr yr endid hefyd ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Rhaid i'r swyddog cyfrifol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy, a rhaid iddo gymryd cyfrifoldeb personol dros yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a thros y penderfyniadau y mae angen eu cymryd wrth benderfynu eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a restrir yn fy llythyr penodiad fel swyddog cyfrifol yn briodol.



Sharon Hopkins
Prif Weithredwr (Dros Dro)

Dyddiad: 29 Mehefin
2020

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON

Rhaid i'r cyfarwyddwyr, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006, baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Gweinidogion Cymru, â chymeradwyaeth y Trysorlys, yn gorchymyn bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r Bwrdd Iechyd ac o incwm a gwariant y Bwrdd Iechyd ar gyfer y cyfnod hwnnw.


Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr wneud y canlynol:

- dilyn egwyddorion cyfrifyddu sydd wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru â chymeradwyaeth y Trysorlys, a hynny yn gyson.
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ochelgar.
- datgan a yw'r sefydliad wedi dilyn safonau cyfrifyddu, a datgelu ac egluro unrhyw achosion perthnasol o fynd yn groes i'r safonau hyn yn y cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi dilyn y gofynion hyn wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu, â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg, sefyllfa ariannol yr awdurdod, er mwyn iddynt gydymffurfio â'r gofynion a geir yn y gorchymyn gan Weinidogion Cymru a grybwyllwyd uchod.

Trwy orchymyn y Bwrdd, llofnod:




.....
Marcus Longley
Cadeirydd

Dyddiad: Mehefin 29
2020



.....
Sharon Hopkins
Prif Weithredwr (Dros Dro)

Dyddiad Mehefin 29
2020



.....
Steve Webster
Cyfarwyddwr Cyllid

Dyddiad Mehefin 29
2020

Y DATGANIAD LLYWODRAETHIANT BLYNYDDOL

Mae'r Prif Weithredwr fel swyddog cyfrifol yn bersonol gyfrifol am y **Datganiad Llywodraethiant Blynyddol**, sy'n amlinellu sut mae'n cyflawni ei gyfrifoldeb dros reoli adnoddau'r sefydliad yn ystod y flwyddyn.

Mae'n bwysig nodi statws uwchgyfeirio'r sefydliad ar gychwyn y Datganiad Llywodraethiant hwn. Amlinellir hynny isod ac mae rhagor o fanylion ar dudalen 24.

Cafodd statws uwchgyfeirio'r sefydliad a ragflaenodd BIP CTM (sef Bwrdd Iechyd Cwm Taf) ei godi i statws '**monitro uwch**' gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr 2019. Digwyddodd hyn oherwydd pryderon yn dilyn archwiliad i ymbelydredd ïoneiddio, adolygiad o wasanaethau corffdy a digwyddiadau anffafriol difrifol yn ei wasanaethau mamolaeth. Wedyn, ym mis Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi [adroddiad yr adolygiad](#) ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, a gomisiynwyd gan y Gweinidog, cafodd statws uwchgyfeirio gwasanaethau mamolaeth ei godi eto i 'fesurau arbennig'. Statws uwchgyfeirio gweddill y sefydliad ar y pryd oedd 'ymyrraeth wedi'i thargedu' oherwydd materion yn ymwneud ag ansawdd a llywodraethiant. Mae rhagor o fanylion am hyn ar dudalennau 24-27.

Yn yr **adolygiad o effeithiolrwydd** (tudalen 45 ymlaen), nodir sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau bod newid sylweddol wedi bod er mwyn gwreiddio ansawdd yng nghanol y gwaith o **wneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawi'r cymorth y mae ei arolygwyr wedi ei gynnig iddo i lywio gwaith datblygu a gwella ledled y Bwrdd Iechyd, yn eu plith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Yr Uned Gyflawni, Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth a'n Cyngor Iechyd Cymuned. Y gobaith yw y bydd y wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn brawf o'r camau sydd wedi eu cymryd gan y Bwrdd Iechyd dros y 12 mis diwethaf.

Mae'r Bwrdd yn **atebol am Lywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol**. Mae'r Prif Weithredwr (Dros Dro) yn gyfrifol am **gynnal strwythurau a gweithdrefnau llywodraethiant priodol**, ac am **system cadarn o reolaeth fewnol** sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, a hynny wrth ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad y mae'n gyfrifol amdanynt. Gwneir hynny yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuir gan Swyddog Cyfrifol GIG Cymru.

Mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb dros sicrhau bod ei **Gynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)** yn cael ei gyflawni yn unol â Fframwaith Cynllunio'r GIG gan Lywodraeth Cymru, ac yn unol â'r amcanion sefydliadol perthnasol sy'n cydreddeg â phedair thema'r Nod Pedwarplyg yn 'Cymru iachach: Cynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol'.

Diweddarodd BIP CTM ei **amcanion sefydliadol** yn hwyr yn 2019/2020, yn rhan o'r gwaith i adnewyddu ein IMTP. Dyma hwy:

- Canlyniadau sy'n rhoi'r person yn gyntaf
- Gwasanaethau darbodus
- Diwylliant o ddysgu a thyfu
- Adnoddau cynaliadwy

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae'r amcanion strategol hyn wedi eu diweddarau unwaith yn rhagor, ac maent wedi eu datblygu mewn ffordd sydd hefyd yn ei gwneud yn bosibl iddynt gael eu hystyried yn amcanion lles y Bwrdd Iechyd hefyd. Mae rhagor o fanylion i'w cael yn yr Adroddiad Perfformiad Blynnyddol.

Mae BIP CTM wedi integreiddio ei **ddatganiad lles a'r gwaith o wireddu ein hamcanion lles** yn ein IMTP, er mwyn sicrhau bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wraidd penderfyniadau'r Bwrdd am sut mae'n darparu ei wasanaethau. Yn bwysicach fyth, y prif ffocws yw gwireddu newid hirdymor sy'n **gwella iechyd, lles a chadernid** y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Y gyntaf o sawl carreg filltir yn IMTP 2020-23 yw sefydlu ein Model Gweithredu fel ei fod **o dan arweiniad clinigol go iawn** ac yn **rhoi cymunedau yn gyntaf**. Ar 1 Ebrill 2020, dechreuodd BIP CTM ddarparu gwasanaethau trwy dri Grŵp Lleoliad Integredig: Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda a Thaf Elái, a Merthyr a Chynon. Mae'r strwythurau newydd hyn yn dod â'r gwaith o wneud penderfyniadau yn nes at ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Bydd hyn yn grymuso staff ac yn galluogi **arweinyddiaeth gymunedol** wrth ddatblygu a darparu gwasanaethau o ansawdd, gyda ffocws ar **iechyd y boblogaeth**. Bydd Fframwaith Ansawdd a Llywodraethiant Diogelwch Cleifion cyfun yn sicrhau

bod y Bwrdd Iechyd mewn gwell safle i ganfod pryderon am ansawdd, ymateb iddynt a dysgu ohonynt mewn modd prydlon – rhoi gofal cleifion **yng nghanol** popeth a wnawn.

Effaith COVID-19

Ar adeg llofnodi'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol hwn (29 Mehefin 2020), mae'r Bwrdd Iechyd a GIG Cymru yn **wynebu galw digynsail sy'n parhau i gynyddu**, wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion pobl y mae **COVID-19** wedi effeithio arnynt.

O ganol Mawrth 2020, mae'r ymateb oedd ei angen gan y Bwrdd Iechyd wedi golygu bod y sefydliad cyfan wedi gorfod gweithio'n wahanol yn fewnol a chyda'n staff, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, ac rydym wedi gorfod **edrych eto ar sut mae'r fframwaith llywodraethiant a gweithredol yn cael ei roi ar waith**. I gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru at bob un o Brif Weithredwyr y GIG yng Nghymru ar 30 Mawrth 2020. Teitl y llythyr oedd "*Covid-19 Decision Making and Financial Guidance*".

Roedd y llythyr hefyd yn cydnabod bod sefydliadau yn debygol o wneud **penderfyniadau anodd ar frys**, a hynny heb sail dystiolaeth gadarn a heb gefnogaeth unigolion allweddol a fyddai, o dan amgylchiadau gweithredu arferol, ar gael.

I gefnogi'r Bwrdd Iechyd ar yr adeg ddigynsail hon, datblygwyd Fframwaith Gwneud Penderfyniadau COVID-19, i gynorthwyo sefydliadau i wneud penderfyniadau yn ddigon cyflym ond hefyd i **sicrhau arfer llywodraethu da wrth wneud hynny**. Sail y fframwaith hwn ar gyfer gwneud penderfyniadau yw sicrhau bod asesiad o'r effaith ar ansawdd yn cael ei lunio sy'n ystyried Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf cyn i'r Bwrdd Iechyd wneud unrhyw benderfyniadau (penderfyniadau ariannol a phenderfyniadau nad ydynt yn ariannol).

Bydd gofyn i'r sefydliad ddangos dystiolaeth fod **ansawdd ac effeithiolrwydd** yn ganolog i'w brosesau o wneud penderfyniadau a bod y prosesau hyn hefyd yn gallu **dal eu tir yn wyneb craffu**. Bydd y craffu hwnnw o safbwynt cydymffurfiaeth a rheoli arian cyhoeddus Cymru, ac o safbwynt gwerth am arian unwaith i sefyllfa COVID-19 leddfu ac wedi i'r sefydliad ddychwelyd i'w drefniadau gweithredu arferol yn ystod 2020-2021. Er mwyn dangos hyn, mae BIP CTM yn cofnodi sut mae COVID-19 **wedi peri newidiadau i'r prosesau arferol o wneud penderfyniadau**, ac wrth wneud hynny **mae'n cofnodi pob mater, risg a phenderfyniad** trwy'r strwythur rheoli digwyddiadau ar gyfer pandemig COVID-19 (Aur/Arian/Efydd), a thrwy ddulliau eraill sydd wedi eu hegluro yn y Datganiad Llywodraethu hwn.

SEFYDLIADAU A LETYIR

Mae BIP CTM yn lletya Academi Ddelweddu GIG Cymru, sy'n hyfforddi'r genhedlaeth nesaf o radiolegwyr, radiograffyddion, sonograffyddion a gweithwyr delweddu proffesiynol. Mae BIP CTM hefyd yn lletya dau Bwyllgor Statudol i Gymru Gyfan:

- **Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru** - Mae hwn yn gyd-bwyllgor statudol sy'n cynnwys y saith Bwrdd Iechyd Lleol. Mae'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu ar y cyd nifer o wasanaethau gofal iechyd arbenigol a thrydyddol ledled Cymru.
- **Y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC)** - Mae hwn yn gyd-bwyllgor statudol sy'n cynnwys y saith Bwrdd Iechyd Lleol, a thair Ymddiriedolaeth y GIG fel Aelodau Cyswllt. Mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau ambiwlans brys ledled Cymru ar y cyd, gan gynnwys y Gwasanaeth Casglu a Throsglwyddo Meddygol Brys (hefyd yn cael ei alw yn ambiwlans awyr). Mae hefyd yn gyfrifol am gomisiynu cludiant di-frys i gleifion.

Mae Sefydliadau a Letyir yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol fel y gall y Prif Weithredwr lofnodi Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol BIP CTM yn hyderus.

Mae'r rhain ar gael ar gais gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro).

CYFANSODDIAD Y BWRDD

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cydymffurfio â Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009. Yn ychwanegol at y cyfrifoldebau a nodir yn y telerau a'r amodau wrth gael eu penodi, mae Aelodau o'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o **rolau pencampwr** lle maent yn **llysgenhadon** dros y materion hyn.

Cyfansoddiad y Bwrdd yw'r Cadeirydd, Is-gadeirydd, naw Aelod Annibynnol arall, Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd, y Prif Weithredwr (Dros Dro), naw Cyfarwyddwr Gweithredol a dau Gyfarwyddwr arall. Mae Aelodau Annibynnol ac Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd yn cael eu penodi am gyfnodau tymor penodol gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn **atebol am Lywodraethiant, Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol**, ac mae'n canolbwyntio ar strategaeth, perfformiad ac ymddygiad. Mae gan Aelodau o'r Bwrdd gyfrifoldeb dros **gyfeiriad strategol** y sefydliad a thros **arwain a llywio'r sefydliad**, gan sicrhau hefyd fod trefniadau llywodraethiant cadarn

ar waith. Mae'r Bwrdd hefyd yn gyfrifol am **annog diwylliant agored** gyda golwg ar sicrhau safonau uchel. Mae Aelodau o'r Bwrdd yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol dros bob penderfyniad, ac maent yn chwarae rôl allweddol wrth **fonitro perfformiad** y sefydliad ac wrth sicrhau bod y sefydliad yn ymateb i anghenion ei gymunedau.

Yn aml, bydd gan Aelodau Annibynnol faes penodol o ddiddordeb iddynt neu faes y byddant yn canolbwyntio arno, ac mae hefyd yn bosibl y bydd yn 'bencampwr' ar gyfer mater penodol. Mae Aelodau Annibynnol yn cael cymorth trwy drafodaeth flynyddol â'r Cadeirydd am eu datblygiad.

Yn rhinwedd ei rôl fel Swyddog Atebol, mae gan y Prif Weithredwr (Dros Dro) **gyfrifoldeb dros gynnal** system cadarn o **reolaeth fewnol**, sy'n cefnogi'r sefydliad i gyflawni ei bolisiau, ei nodau a'i amcanion, a hynny wrth **ddiogelu arian cyhoeddus** ac asedau'r sefydliad y mae'r Prif Weithredwr hwnnw yn bersonol gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuir gan Swyddog Cyfrifyddu GIG Cymru. Mae'r Prif Weithredwr (Dros Dro) yn atebol i'r Bwrdd am sicrhau bod **gwasanaethau gofal iechyd a lles y sefydliad yn effeithiol**, a bod y gwaith y Bwrdd yn cael ei reoli **mewn modd effeithlon**. Y Prif Weithredwr yw'r prif ymgynghorydd ynghylch cyflawni swyddogaethau'r Bwrdd ac yn hynny o beth mae'n darparu **arweinyddiaeth weithredol**. Yn ogystal, mae'n sicrhau bod nodau ac amcanion y Bwrdd yn cael eu cyflawni ynghyd â'i swyddogaethau a'i dargedau.

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynorthwyo'r Prif Weithredwr (Dros Dro) i gyflawni ei gyfrifoldebau, ac maent yn cwrdd bob wythnos i gael **trafodaeth ffurfiannol** ac i **wneud penderfyniadau**. Mae'r Prif Weithredwr yn cyfarfod yn fwy ffurfiol â'r grŵp arweinyddiaeth ehangach trwy gyfarfodydd misol y Bwrdd Rheoli. Mae'r Bwrdd Rheoli yn fforwm ar gyfer trafodaethau gweithredol, datblygiadau, rheoli perfformiad a gwneud penderfyniadau. Mae ganddo gysylltiadau cryfion â phob un o'r fforymau llywodraethiant perthnasol y tu fewn a'r tu allan i'r sefydliad.

Asesir **perfformiad y Cadeirydd** gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac asesir **perfformiad y Prif Weithredwr (Dros Dro)** gan y Cadeirydd â chymorth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwyr GIG Cymru, Llywodraeth Cymru.

Mae monitro ansawdd a pherfformiad yn digwydd ar bob lefel yn y sefydliad, a cheir adroddiadau yn syth o'r Gymuned/Ward unigol i'r Bwrdd. Mae adroddiadau ynghylch perfformiad, risg a digwyddiadau yn cael eu cyflwyno gerbron pob cyfarfod o'r Bwrdd Rheoli. Nod hyn yw sicrhau bod y sefydliad yn bodloni targedau mewnol ac allanol o ran ansawdd a pherfformiad. Mae BIP CTM yn parhau i **weithio'n agos gyda phartneriaid yn yr awdurdodau lleol a chyda'r trydydd sector**. Mae'r cydweithio hwn wedi dwysáu ymhellach wrth ddelio â COVID-19 yn gynnar yn 2020-2021. Mae gennym statws 'Bwrdd Iechyd Prifysgol' hefyd. Mae hyn yn parhau i'n cynorthwyo i ddarparu gofal a gwasanaethau ymatebol o ansawdd uchel i'n cymunedau, a hynny wrth gydweithio'n agosach â'n partneriaid academiaidd.

CYFARFODYDD O'R BWRDD A'R PWYLLGORAU

Yn yr ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw, **cyfarfu'r Bwrdd ynggyhoeddus naw gwaith** yn 2019/20. Roedd y cyfarfodydd hyn yn cynnwys cyfarfodydd arbennig. Mae papurau cyfarfod y Bwrdd ar gael [yma](#).

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y mae cyfarfodydd preifat yn cael eu cynnal. Mae'r amgylchiadau hyn yn ymwneud â materion lle gellir cyfiawnhau cau'r cyfarfod o dan Gynllun Cyhoeddi'r Bwrdd Iechyd ar gyfer Rhyddid Gwybodaeth, yn dilyn cyngor gan y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol. Gwnaed newid yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod **cyfarfodydd preifat o'r Bwrdd yn cael eu cynnal ar ôl y cyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus**. Mae cofnodion y cyfarfodydd preifat hyn yn cael eu trafod wedyn yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhelir ar ei ôl, yn hytrach na chadw'r cofnodion i'w cymeradwyo yn y cyfarfod preifat nesaf.

Roedd pob cyfarfod o'r Bwrdd yn ystod 2019/2020 wedi ei **gyfansoddi'n briodol** ac **roedd cworwm ym mhob un**.

Er bod cworwm, roedd pob cyfarfod o'r Bwrdd rhwng Mawrth 2020 a Mai 2020 wrth ymateb i effaith a risg pandemig COVID-19 wedi ei gau i'r cyhoedd. Trwy wneud hynny, roedd modd sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheol i gadw pellter cymdeithasol ac i osgoi teithio diangen. Er mwyn sicrhau **tryloywder y trafodion**, rydym wedi defnyddio dulliau eraill o roi gwybod i bobl beth a ddigwyddodd yn ein cyfarfodydd, fel cyhoeddiadau 'Newyddion o'r Bwrdd', cyhoeddiadau trwy ein sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol o fewn oriau i'r cyfarfod ynghyd â chyhoeddi cofnodion y cyfarfod yn ddi-oed.

Rydym wedi gwneud nifer o newidiadau yn ystod 2019/20 i gryfhau ein trefniadau llywodraethiant. Dechreuodd y gwaith gydag adolygiad gan **y Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol Dros Dro / Ysgrifennydd y Bwrdd yn ail hanner 2019**. Canlyniad hynny oedd adroddiad i'r Bwrdd ym mis Ionawr 2020 sydd ar gael [yma](#). Rhai o'r newidiadau hyn oedd newid cylch gorchwyl rhai o'r Pwyllgorau, newidiadau i aelodaeth a sefydlu pwyllgorau newydd. Mae rhagor o fanylion yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn gwneud gwaith pwysig **wrth graffu a cheisio sicrwydd** mewn perthynas â: sut mae'r Bwrdd yn cyflawni ei flaenoriaethau strategol, cydymffurfiaeth â deddfwriaeth, darparu gwasanaethau diogel ac effeithiol, dysgu gwersi, rhannu arfer da a chyflawni targedau allweddol eraill a nodir yn yr IMTP.

Dyma'r Pwyllgorau:

- **Y Pwyllgor Archwilio a Risg** - Cafodd y cyfrifoldeb dros 'risg' ei drosglwyddo o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2019. Cynhelir y cyfarfod hwn bob chwarter.
- **Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch** - Cynhelid cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn bob chwarter hyd at ddechrau 2019, ond newidiwyd hynny i

gyfarfodydd misol ym mis Awst 2019 hyd nes Chwefror 2020 (ac eithrio Tachwedd 2019 a Ionawr 2020). Ers Chwefror 2020, cynhelir y cyfarfodydd unwaith bob dau fis).

- **Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu** - Gwnaed newidiadau i'r Pwyllgor hwn ym Mai 2020 ac fe'i henwyd y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid. Bydd yn cyfarfod unwaith bob dau fis. Ym mis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd sefydlu Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol. Yn sgil hynny, mae materion yn ymwneud â'r gweithlu, yr arferid eu hystyried yn y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, bellach yn cael eu hystyried yn y pwyllgor newydd hwn ar wahân. Bydd y cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal yn 2020-2021, a bydd y cyfarfodydd wedi hynny yn rhai chwarterol.
- **Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl** - Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn bob chwarter.
- **Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol** - Bwriadwyd cynnal cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn yn amlach o fis Tachwedd 2019 ymlaen. Fodd bynnag, mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar hyn.
- **Y Pwyllgor Digidol a Data** - Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor hwn ym mis Chwefror 2020, a'r bwriad yw cyfarfod bob chwarter. Fodd bynnag, mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar amllder y cyfarfodydd hyn.
- **Y Pwyllgor Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol** - Newidiwyd enw'r cyfarfod hwn ym mis Tachwedd 2019 i'r Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau. Cynhelir cyfarfodydd o'r Pwyllgor hwn bob chwarter. Fodd bynnag, mae'r ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar hyn.
- **Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth** - Mae'r Pwyllgor hwn yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn, neu yn ôl yr angen.

Mae manylion am yr awdurdod a'r cyfrifoldeb sydd wedi eu dirprwyo i bob Pwyllgor, ynghyd â gwybodaeth am waith y Pwyllgorau, i'w gweld yn eu [cylch gorchwyl](#), yn rhan o'n Rheolau Sefydlog.

Mae sefydliadau yn GIG Cymru yn cytuno ar [Reolau Sefydlog](#) er mwyn rheoleiddio eu trafodion a'u busnes, ac er mwyn troi'r gofynion statudol yn **weithredu o ddydd i ddydd**. Mae'r Rheolau Sefydlog, ynghyd â Chynllun Materion a gedwir yn ôl i'r Bwrdd, Cynllun Dirprwyo a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, yn darparu **fframwaith rheoleiddiol** ar gyfer **busnes** sefydliadau'r GIG. Mae'r rhain, ynghyd ag ystod o bolisïau corfforaethol, yn ffurfio Fframwaith Llywodraethu'r sefydliad. Cymeradwyodd y Bwrdd ein Rheolau Sefydlog presennol ym mis Tachwedd 2019.

Mae cyfarfodydd Pwyllgorau **yn cael eu cadeirio gan Aelodau Annibynnol**, ac mae'r Pwyllgorau yn cyfarfod yn rheolaidd gyda chynrychiolaeth o sawl Pwyllgor Bwrdd arall er mwyn sicrhau bod busnes y gwahanol Bwyllgorau yn gysylltiedig, ac er mwyn integreiddio'r gwaith o adrodd ar sicrwydd. Mae manylion am aelodaeth o'r Bwrdd a lefelau presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac yng nghyfarfodydd y Pwyllgorau i'w cael yn Atodiad 1 a 2 (ar dudalennau 61 a 65 yn y drefn honno).

Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn **adroddiad crynhoi** o bob Pwyllgor ar ôl pob un o'i gyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r adroddiadau hyn yn darparu **strwythur effeithiol** gyda llifau diffiniedig o wybodaeth at ddibenion **monitro perfformiad**, derbyn **sicrwydd** a chanfod achosion o danberfformio a phryderon y mae angen eu huwchgyfeirio. Mae pob Cadeirydd Pwyllgor hefyd yn gyfrifol am roi adroddiad blynyddol i'r Bwrdd ar waith y Pwyllgor, ac am asesu'r Pwyllgor er mwyn adolygu sut y gall wella ar y ffordd mae'n gweithio. Yn ogystal â hynny, mae gofyn i Bwyllgorau adolygu eu cylch gorchwyl bob 12 mis. Mae dolenni i'r adroddiadau blynyddol hyn yn Atodiad 1 ar dudalen 61.

Yn ogystal ag adrodd wrth y Bwrdd, mae Pwyllgorau yn cydweithio â'i gilydd ar ran y Bwrdd er mwyn sicrhau, lle y bo gofyn am hynny, fod croesgyfeirio yn digwydd wrth lunio adroddiadau a bod **sicrwydd a chyingor** yn cael eu rhoi i'r Bwrdd a'r sefydliad ehangach.

Mae pob Pwyllgor Bwrdd dan arweiniad Cyfarwyddwr Gweithredol. Bydd y Cyfarwyddwr Gweithredol hwn yn cydweithio'n agos â Chadeirydd pob Pwyllgor wrth **lunio agenda, wrth gynllunio'r cylch busnes** ac wrth sicrhau bod gwybodaeth o ansawdd da yn cael ei chyflwyno gerbron y Pwyllgor mewn modd prydlon.

Er bod pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn ffynhonnell bwysig o sicrwydd i'r Bwrdd, mae gan ein **Pwyllgor Archwilio a Risg** rôl benodol mewn perthynas ag adolygu effeithiolrwydd ein system Rheoli Risg a'n Fframwaith Sicrwydd i'r Bwrdd. Mae'r Fframwaith Sicrwydd i'r Bwrdd yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd o ran cyflawni amcanion y Bwrdd, fel y'u nodir yn yr IMTP teirblynyddol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn **ffynhonnell bwysig o sicrwydd** i'r Bwrdd mewn perthynas ag effeithiolrwydd y mesurau sydd ar waith i reoli risgiau sylweddol i'w allu i gyflawni ei amcanion strategol. Yn ystod 2019-2020, roedd yr agweddau allweddol canlynol ar weithgarwch busnes y Bwrdd Iechyd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio a Risg:

- Goruchwylio systemau o reolaeth fewnol
- Adolygu a chefnogi, ar gyfer cymeradwyaeth y Bwrdd, y Cyfrifon Blynyddol a'r Adroddiad Atebolrwydd fel y gellir eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Cytuno ar Gynlluniau Archwilio Mewnol ac Allanol ar gyfer y flwyddyn
- Derbyn Adroddiadau Archwilio Mewnol ac Allanol a Monitro cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu Archwiliadau hyn wedi hynny
- Monitro'r gwaith o weithredu argymhellion a gytunwyd arnynt yn dilyn archwiliadau
- Derbyn a nodi Adroddiad o Farn y Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018/19
- Cytuno ar y Cynllun Blynyddol er Atal Twyll Ariannol a monitro gwaith i atal twyll ariannol
- Monitro'r gwaith o ddatblygu a drafftio cynnwys Adroddiad Atebolrwydd y Bwrdd Iechyd
- Monitro Trefniadau Llywodraethu ledled y sefydliad, gan gynnwys cyrff a

letyir.

- Goruchwyllo a chraffu ar waith cyrff a letyir, sef Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru a'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwylans Brys (EASC)
- Cefnogi cymeradwyo Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Cefnogi cymeradwyo diwygiadau i'r Rheolau Sefydlog a'r Cynllun Dirprwyo Ariannol.

Mae papurau 'cyhoeddus' cyfarfodydd Pwyllgorau'r Bwrdd ar gael ar wefan BIP CTM cyn pob cyfarfod, yn yr ysbryd o fod yn agored ac yn dryloyw.

Mae ein trefniadau llywodraethiant wedi eu gwella'n sylweddol yn ystod hanner olaf 2019-2020, a bydd y gwaith o'u gwella yn parhau yn 2020/2021. Nod hyn yw gwella effeithiolrwydd **busnes y Bwrdd a sicrwydd**. Ymhlith y gwelliannau a wnaed yw newid amllder cyfarfodydd rhai o Bwyllgorau'r Bwrdd a'u cylch gorchwyl, fel y nodir ar dudalennau 17-18.

Mewn perthynas â'r adolygiad o sgôp Pwyllgorau'r Bwrdd, teimlwyd bod gan y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu gylch gorchwyl eang iawn. O ystyried bod BIP CTM yn wynebu newidiadau mawr iawn o ran materion yn ymwneud â'r gweithlu a datblygu sefydliadol, materion sydd hefyd yn ganolog i lawer o'r rhaglenni sydd ar y gweill, cytunwyd sefydlu '**Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol**'. Nod y Pwyllgor hwn yw ystyried gweithgarwch yn ymwneud â'r gweithlu a datblygu sefydliadol. Y bwriad oedd i'r Pwyllgor hwn gynnal ei gyfarfod cyntaf ym mis Ebrill 2020. Fodd bynnag, roedd angen gohirio'r cyfarfod hwn ynghyd â sawl cyfarfod arall oherwydd yr ymateb i COVID-19. Mae rhagor o wybodaeth am hyn ar dudalennau 35-36. Bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd yn adolygu'r sefyllfa ym mis Mehefin 2020.

Bydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn gwneud gwaith craffu ac yn derbyn sicrwydd mewn perthynas â sawl mater, yn eu plith:

- Cynlluniau gweithlu strategol i gefnogi amcanion y Bwrdd Iechyd
- Cynaliadwyedd y gweithlu
- Dysgu o holiaduron staff
- Strategaethau recriwtio, cadw staff a rheoli absenoldebau o'r gwaith
- Diwylliant y sefydliad, gan gynnwys Gwerthoedd ac Ymddygiad
- Y Model Gweithredu
- Cydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant statudol a gorfodol
- Rhaglenni ar gyfer capasiti Rheolaeth/Arweinyddiaeth
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a'r Gymraeg
- Ymgysylltu â'r staff a Strategaethau Cynnwys Staff

O ganlyniad, bydd cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu gynt yn newid. I gydnabod hynny, mae **ei enw wedi ei newid i'r 'Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid'**, a bydd yn gwneud gwaith craffu ac yn derbyn sicrwydd mewn perthynas â nifer o faterion, yn eu plith:

- Newidiadau mawr i wasanaethau
- Prosiectau/Rhaglenni cyfalaf mawr

- Craffu ar Achosion Busnes Mawr (yn unol â'r Cynllun Dirprwyo)
- Goruchwylio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) yn agos a chyfrannu at y gwaith o'i lunio
- Datblygu Strategaethau Gwasanaeth, gan gynnwys y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig
- Perfformiad yn erbyn yr IMTP, targedau cenedlaethol ac yn y blaen
- Perfformiad cyllid
- Effeithiolrwydd, Cynhyrchedd a Gwerth

Mae Cynllun Dirprwyo BIP CTM wrthi'n cael ei adolygu er mwyn ailbennu'r llif o fusnes cyfalaf. Oherwydd hynny bydd y Bwrdd Rhaglenni Cyfalaf yn cael ei ddiddymu a bydd y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn dal y cyfrifoldeb dirprwyedig, er mwyn hwyluso rhagor o graffu annibynnol.

Gwelodd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu gynt nifer fawr o adolygiadau manwl 'At Wraidd y Mater', i ddarparu sicrwydd ychwanegol ar faterion penodol. Os caiff yr adolygiadau hyn eu gwneud yn iawn, maent yn ddarnau sylweddol o waith ar gyfer Swyddogion. O'r herwydd, rydym felly yn datblygu **canllawiau clir** ynghylch yr hyn sydd ei angen i sbarduno Adolygiadau At Wraidd y Mater, ynghyd â chanllawiau am ba elfennau o sicrwydd y gellid eu disgwyl ohonynt.

Yn ystod 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru y gwaith o ddatblygu a darparu **Rhaglen Datblygu'r Bwrdd** i Aelodau o'r Bwrdd. Rhoddwyd y contract ar gyfer y gwaith hwn i Deloitte, sydd wedi bod yn gweithio ar gynnwys y rhaglen honno. Bydd y rhaglen yn cael ei darparu yn 2020. Mae rhagor o wybodaeth am y gwaith hwn ar dudalennau 30-31.

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio eu Sesiynau Ymsefydlu newydd i Aelodau Annibynnol yn ddiweddar, a bydd deunydd o'r sesiynau hyn yn cael eu defnyddio yn Rhaglen Datblygu'r Bwrdd. Bydd y cysylltiadau hyn a'n gwaith gyda Deloitte yn sicrhau bod pob Aelod o'r Bwrdd yn cael cymorth, fel bod yr Aelodau yn deall y gwahanol **ffynonellau o sicrwydd** sydd ar gael iddynt heb orfod gofyn am ragor o wybodaeth gan Swyddogion.

Tan yn ddiweddar, roedd sesiynau Datblygu'r Bwrdd yn cael eu defnyddio ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau a briffiadau, a chanolbwyntid ar drafod risgiau yn lle canolbwyntio ar ddatblygu Aelodau o'r Bwrdd. Fe'i cytunwyd, o 2020-2021 ymlaen, y bydd y Bwrdd yn clustnodi **pedwar sesiwn y flwyddyn** (o leiaf) i Ddatblygu'r Bwrdd mewn lleoliadau ledled BIP CTM. Bydd hyn yn gwella ymgysylltiad â'r Bwrdd ac yn rhoi gwell cyfle i aelodau o'r Bwrdd 'gyfeillio' â Chyfarwyddwr Gweithredol er mwyn cwrdd â staff a magu gwell dealltwriaeth o wasanaethau ac o amgylchedd gwaith a phrofiadau staff. Mae hyn hefyd yn gyfle i **ymgysylltu** â staff yn rhan o raglen ehangach 'Dewch i ni drafod diwylliant'. Mae'r rhaglen hon yn cefnogi'r gwaith o greu diwylliant sefydliadol newydd i BIP CTM.

Mae hefyd yn fuddiol i'r Bwrdd dderbyn briffiadau ar faterion penodol, fel bod gan Aelodau'r wybodaeth ddiweddaraf ar bynciau penodol. Rydym yn bwriadu cynnal **pedwar Sesiwn Briffio** y flwyddyn ar adegau priodol.

Y brif ffynhonnell o sicrwydd i'r Bwrdd yw strwythur y Pwyllgorau sy'n eistedd o dano. Rydym wedi cryfhau'r broses hon trwy gyflwyno **Adroddiadau Crynhoi** gan y Pwyllgorau (sy'n cael eu drafftio o dan gyfarwyddyd Cadeirydd y Pwyllgor ar ddiwedd pob cyfarfod, er mwyn i aelodau ddod i gytundeb ynghylch pa faterion y dylid eu cynnwys yn yr Adroddiad Crynhoi i'r Bwrdd. Bydd yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer y Pwyllgor yn llunio ffurf derfynol yr adroddiad yn dilyn hynny). Yn ogystal, mae **agendâu ar gyfer cyfarfodydd o'r Bwrdd wedi cael eu hailfformatio**, fel y gall Cadeirydd y Pwyllgor:

- Dynnu sylw'r Bwrdd llawn at unrhyw faterion arwyddocaol (pryderon neu arfer da)
- Cyngori'r Bwrdd, gan gynnwys gwneud argymhellion i gymeradwyo eitemau y mae Pwyllgor wedi eu hystyried cyn ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd
- Rhoi sicrwydd ar faterion y mae Pwyllgor wedi craffu arnynt a
- Rhoi gwybod i'r Bwrdd am faterion perthnasol o ddiddordeb.

Trwy adrodd yn y ffordd hon, bydd **gwell ymwybyddiaeth** gan y Bwrdd cyfan ynghylch gweithgarwch y Pwyllgorau a sicrwydd, bydd llai o faterion yn cael eu hanfon ymlaen at y Bwrdd o'r Pwyllgorau (llai o ddyblygu gwaith), a bydd llywodraethiant yn fwy integredig. Bydd hefyd yn atal y Pwyllgorau rhag gweithio ar eu materion unigol hwy heb ymwneud dim â Phwyllgorau eraill, a hynny trwy ddod â materion allweddol at sylw'r Bwrdd llawn.

Mae templed newydd wedi ei gyflwyno hefyd ar gyfer adroddiadau i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, ynghyd â hyfforddiant am sut i ysgrifennu adroddiadau. Nod hyn yw **gwella cynnwys ac ansawdd** y wybodaeth a gyflwynir mewn adroddiadau.

Ym mis Tachwedd 2019, newidiodd y Bwrdd y ffordd mae'n derbyn sicrwydd ynghylch risg, a chytunodd i drosglwyddo'r gwaith dirprwyedig o **graffu a cheisio sicrwydd** mewn perthynas â rheoli risgiau o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Archwilio. Newidiwyd enw'r Pwyllgor Archwilio i'r Pwyllgor Archwilio a Risg wedi hynny.

Mae'r risgiau clinigol blaenaf a risgiau corfforaethol yn cael eu neilltuo i'r Bwrdd, neu i un o Bwyllgorau'r Bwrdd fel y bo'n briodol. Bydd gan y Pwyllgor hwnnw wedyn gyfrifoldeb ar ran y Bwrdd i geisio sicrwydd a chraffu, fel bod modd **rheoli'r risgiau** hyn yn unol â'r derbynioldeb risg a gytunwyd arno, cynlluniau a gymeradwywyd a gwerthoedd y sefydliad. Mae **gan bob risg Gyfarwyddwr Arweiniol**, fel bod perchnogaeth dros y camau gweithredu ac fel bod y camau hyn yn cael eu cymryd. Mae hyn hefyd yn sicrhau bod y camau gweithredu hyn yn cael eu hadolygu a'u diweddarau yn rheolaidd. Mae rhagor o fanylion am ein systemau ar gyfer rheoli risg ar dudalennau 38-44.

Ym mis Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Bwrdd **sefydlu'r Pwyllgor Digidol a Data**, ac **ehangodd gylch gorchwyl** y Pwyllgor Gwasanaethau Sylfaenol a Chymunedol i gynnwys y Boblogaeth a Phartneriaethau. Cytunodd y Bwrdd hefyd i newid amllder cyfarfodydd y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, o gyfarfodydd blyneddol i rai chwarterol.

¹ Noder bod rhagor o wybodaeth am Ddatganiad Derbynioldeb Risg BIP CTM o dudalen 42 ymlaen.

Cymeradwywyd Fframwaith Llywodraethiant Ansawdd a Diogelwch Cleifion gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Risg ym mis Mawrth 2019. Mae cyflwyno'r Fframwaith Llywodraethiant Ansawdd, ynghyd â'r trefniadau i gefnogi gwaith y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, wedi arwain at **welliannau o ran sicrwydd** yn barod mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch, ac mae hyn hefyd yn cynnwys craffu ar gynnydd y Prosiect Gwella Gwasanaethau Mamolaeth. Gwnaed newidiadau eraill yn ystod 2019/2020 i'n trefniadau Bwrdd a Phwyllgorau yn sgil materion a godwyd yn Asesiad Strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru. Mae manylion am hyn ar dudalen 31 ymlaen.

Ym mis Ionawr 2020, roedd eitem ar yr agenda yn ymwneud ag argymhellion heb eu cyflawni o Raglen De Cymru. Mae gwybodaeth gefndirol ar gael yma, ac yn y bôn mae'n ymwneud ag **Adran Damweiniau ac Achosion Brys 24 awr dan arweiniad ymgynghorwyr** ar un o'n tri safle aciwt - sef Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Denodd y mater hwn gryn sylw gan gynrychiolwyr cymunedau a chleifion ac, oherwydd diffyg lle yn yr oriel gyhoeddus, newidiwyd lleoliad y cyfarfod nesaf ar y mater hwn i leoliad cymunedol mwy hygyrch, sef Canolfan Chwaraeon y Rhondda Fach yn Tylorstown, y Rhondda. Roedd y lleoliad hwnnw lle cynhaliwyd y cyfarfod yn Chwefror 2020 yn ddigon mawr i'r mwyafrif o'r 250 o arsylwyr.

Rhoddwyd cynlluniau yn eu lle felly i gynnal cyfarfod Mawrth 2020 o'r Bwrdd mewn lleoliad o faint tebyg hefyd. Fodd bynnag, newidiwyd y cynlluniau hyn wedi hynny oherwydd COVID-19 a'r angen i ddilyn y rheol i gadw pellter cymdeithasol. Er gwaethaf hyn, cadwodd y Bwrdd at yr ethos o gynnal y cyfarfod yn gyhoeddus, trwy barhau i **gyhoeddi papurau cyfarfod ar wefan BIP CTM saith diwrnod cyn y cyfarfod**, a nodwyd sylwadau a ddaeth i law cyn y cyfarfod. Wedi hynny, cafodd briffiad Bwrdd ei gyhoeddi yn syth ar ôl y cyfarfod er mwyn cyfleu'r trafodaethau a gafwyd, y penderfyniadau a wnaed a'r canlyniadau. Cyhoeddwyd y wybodaeth hon hefyd ar ein gwefan ac fe'i rhannwyd â rhanddeiliaid allweddol.

Rydym o hyd yn ystyried sut y gallwn barhau i gyflawni'r ymrwymiad i gynnal cyfarfodydd yn gyhoeddus, er mwyn **'ffrydio cyfarfodydd o'r Bwrdd yn fyw'** yn ystod 2020/2021.

GWEITHGARWCH Y BWRDD A'R PWYLLGORAU

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, mae **pob Pwyllgor yn adrodd yn ffurfiol** i'r Bwrdd ar ei waith yn ystod y flwyddyn, a bydd yn manylu ar ei fusnes, ei weithgarwch, presenoldeb yn y cyfarfodydd a'r prif faterion y deliodd y Pwyllgor â hwy yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae copïau o Adroddiadau Blynnyddol y

Pwyllgorau ar gael ym [mhapurau](#) y cyfarfod o'r Bwrdd.

Yn ogystal, o 2020 ymlaen, bydd adroddiad crynhoi yn cael ei gyflwyno gerbron pob cyfarfod o'r Bwrdd, yn amlinellu'r materion y deliwyd â hwy a'r gweithgarwch a ystyriwyd ym mhob Pwyllgor yn ei gyfarfod diwethaf. Mae Pwyllgorau yn neilltuo amser ar ddiwedd pob cyfarfod i drafod **y prif faterion y maent am eu codi gyda'r Bwrdd** trwy gyfrwng adroddiadau crynhoi, a hynny o dan y penawdau *'Escalate/Alert'*, *'Advise'*, *'Assure'* ac *'Inform'*. Mae'r **adroddiadau crynhoi** yn cael eu cymeradwyo a'u cyflwyno gan Gadeirydd y Pwyllgor.

Mae'r materion allweddol o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn 2019-2020 i'w gweld yn Atodiad 1 o dudalen 61 ymlaen.

NEWIDIADAU I'N STATWS UWCHGYFEIRIO AC YMYRRYD AR Y CYD - 2019

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd Ar y Cyd ar waith. Mae'r trefniadau hyn yn cael eu llywio gan gyfarfodydd teirffordd â Swyddfa Archwilio Cymru (neu Archwilio Cymru erbyn hyn) ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Yn yr adran ganlynol, mae gwybodaeth gefndirol am y newidiadau a ddaeth i rym a'r **camau a gymerwyd o ran rheolaeth** i fynd i'r afael â'r materion. Mae gwybodaeth hefyd am sut mae'r camau hyn yn cael eu monitro.

Cafodd statws uwchgyfeirio'r sefydliad a ragflaenodd BIP CTM (sef Bwrdd Iechyd Cwm Taf) ei godi i statws **'monitro uwch'** ym mis Ionawr 2019. Digwyddodd hyn oherwydd pryderon yn dilyn archwiliad i ymbelydredd ïoneiddio, adolygiad o wasanaethau corffdy a digwyddiadau anffafriol difrifol yn ei wasanaethau mamolaeth. Wedyn, ym mis Ebrill 2019, yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr adolygiad ar y cyd gan **Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr** a **Choleg Brenhinol y Bydwagedd**, a gomisiynwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd pryderon sylweddol, cafodd statws uwchgyfeirio **gwasanaethau mamolaeth** ei godi i 'fesurau arbennig'.

Yn rhan o becyn o fesurau i gefnogi ymyrraeth y Gweinidog, cafodd panel annibynnol ei benodi gan y Gweinidog i **oruchwylio'r gwaith o fynd i'r afael â'r canfyddiadau**. Mae'r panel hwnnw yn adrodd ar gynnydd i'r Gweinidog bob chwarter, yn rhan o'r mesurau ymyrraeth. Cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd **ymddiheuriad cyhoeddus ffurfiol am y methiannau yn ei wasanaethau mamolaeth**, derbyniodd bob un o'r argymhellion a rhoddodd **ymrwymiad i gymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r gwahanol faterion**. Cyflwynid adroddiadau yn crynhoi'r gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth gerbron pob cyfarfod o'r Bwrdd yn ystod 2019-2020. Mae'r adroddiad diweddar a gyflwynwyd ym Mawrth 2020 ar gael [yma](#).

Mae adroddiadau'r panel annibynnol ar gael [yma](#). Maent yn cadarnhau i gynnydd mawr gael ei wneud yn ystod 2019-2020 wrth gyflawni'r newidiadau

angenrheidiol. Mae gwaith i'w wneud o hyd fodd bynnag, ac mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i adeiladu ar y gwelliannau y mae wedi eu gwneud dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn **gwreiddio ansawdd yng nghanol ei brosesau o wneud penderfyniadau ac o wella gwasanaethau.**

Roedd y materion a godwyd mewn perthynas â gwasanaethau mamolaeth hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am adolygiad annibynnol i **sut y deliwyd ag adroddiad** a gomisiynwyd gan Fydwaig Ymgynghorol ar secondiad yn 2018. Ystyriodd y Bwrdd ganfyddiadau'r adolygiad hwn yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2019 ac, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020, cytunwyd ar yr ystod o newidiadau angenrheidiol i **gryfhau trefniadau llywodraethu**, i gydredeg â'r gwaith parhaus o ran **diwylliant sefydliadol, gwerthoedd ac ymddygiadau**. Mae crynodeb am hyn i'w weld [yma](#).

Yn dilyn adolygiad ar y cyd gan y ddau Goleg Brenhinol, cydweithiodd Uned Gyflawni GIG Cymru â BIP CTM, i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith ar gyfer prosesau adrodd, rheoli ac adolygu mewn perthynas â digwyddiadau diogelwch cleifion a phryderon (mae hyn yn dilyn adroddiad cynharach yr Uned Gyflawni ym mis Mawrth 2019). Canfu'r adolygiad gan yr Uned Gyflawni ddiffygion mewn nifer o feysydd, er iddo ganfod hefyd rai enghreifftiau o arfer da. Roedd y diffygion hyn yn ymwneud ag ymchwiliadau, triongli gwybodaeth, a dysgu sefydliadol a risg. O'r herwydd, datblygwyd cynllun gwella sy'n destun adolygiad misol. Bydd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch yn parhau i dderbyn adroddiadau yn rheolaidd ynghylch cynnydd, a derbyniwyd yr un diweddaraf yng nghyfarfod Mai 2020. Mae'r adroddiad hwnnw ar gael [yma](#).

Agwedd arall ar yr ymyrraeth i gefnogi BIP CTM i wneud y gwelliannau angenrheidiol oedd comisiynu David Jenkins (cyn-Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan) gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Iechyd a Chymdeithasol i weithio gyda Chadeirydd BIP CTM mewn rôl arweiniol. Mae David Jenkins felly wedi bod mewn nifer fawr o'n cyfarfodydd Bwrdd a Phwyllgor er mwyn cynnig cyngor a chymorth, ac mae hyn wedi ei groesawu.

Yn Haf 2019, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru **archwiliad brys ar y cyd o'n trefniadau llywodraethu**. Roedd eu [hadroddiad](#) ym mis Tachwedd 2019 wedi tynnu sylw at yr angen i wneud y canlynol:

- Canolbwyntio'n ddwysach ar ansawdd ein gwasanaethau, a datblygu a darparu systemau cryfach o lywodraethu ansawdd;
- Cryfhau arweinyddiaeth a sut rydym yn canfod ac yn rheoli risg;
- Datblygu diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal tosturiol o ansawdd uchel ac o wella gofal yn barhaus.

Wrth gydnabod natur ddifrifol y canfyddiadau, ac ag ewylllys gref i sicrhau ffocws cryfach ar ansawdd ein gwasanaethau, rydym yn cryfhau ein trefniadau ar gyfer **llywodraethu ansawdd ac arweinyddiaeth**. Rydym wrthi'n gwella sut rydym yn rheoli **risg** hefyd. Bydd y gwaith hwn yn cydredeg â'n **Model Gweithredu** newydd sydd â'r nod o feithrin diwylliant sefydliadol sy'n cefnogi'r gwaith o roi gofal **tosturiol o ansawdd uchel**, ac o wella'n barhaus y math o Tudalen 25 o 100

ofal **sy'n rhoi'r claf yn gyntaf.**

Mae **trafodaeth helaeth am ein diwylliant sefydliadol** wedi cychwyn eisoes â'n poblogaeth leol, ac rydym wedi cael dros 4,000 o ryngweithiadau trwy ddigwyddiadau staff, gweithdai gwrandao ar gleifion a holiaduron. Yn dilyn gwaith dadansoddi, mae'r hyn rydym wedi ei ddysgu o hyn ac o adolygiadau eraill wedi llywio'r gwaith o greu set o werthoedd ac ymddygiadau ar y cyd i bawb.

Mae gwelliannau wedi eu gweld eisoes o ran sut rydym yn ymgysylltu â staff, cleifion a'u teuluoedd a rhanddeiliaid, er mwyn dysgu oddi wrthynt, canfod **cyfleoedd** a meithrin diwylliant sefydliadol sy'n **cefnogi ac yn grymuso** staff a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau â'r nod o wella eu profiadau. Yn rhan o hyn, rydym yn cryfhau sut mae BIP CTM yn craffu ac yn ceisio sicrwydd ar ran pob un o'n rhanddeiliaid. Yn hynny o beth, mae gwaith ar y gweill i weithredu'r model gweithredu newydd a'r strwythurau rheolaeth ac atebolrwydd newydd a fydd yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau gweithredol.

Ymyrraeth Wedi'i Thargedu:

Cytunwyd y dylid datblygu matrics aeddfedrwydd a fyddai'n sail i'r gwaith o wella gwasanaethau'n barhaus, ac y dylid ei ddefnyddio i strwythuro'r gwaith wrth ymateb i statws Ymyrraeth Wedi'i Thargedu, yn unol â'r hyn a wnaed yn achos gwasanaethau mamolaeth. Cyflwynwyd **adroddiad oedd yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y matrics gerbron y Bwrdd ym mis Mawrth 2020**. Roedd y sgoriau hunanasesu a'r dystiolaeth wedi eu cyflwyno yng Nghyfarfod Uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2020.


Er i'r diffygion a oedd wedi achosi i **statws uwchgyfeirio'r sefydliad gael ei godi** eu siomi'n fawr, mae Aelodau o'r Bwrdd yn llwyr dderbyn y materion a ganfuwyd, ac maent yn croesawu'r gwersi y gellid eu dysgu o'r ymyrraeth. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod ei gyfrifoldeb i roi sicrwydd i'n poblogaeth a'n rhanddeiliaid, ac mae'n bwriadu gwneud hynny trwy brosesau adrodd **agored a thryloyw, ymgysylltu** rheolaidd a **chydgyhyrchu**.

Byddwn yn cynnwys rhagor o fanylion o ran ein llwyddiant i wneud hynny yn ein Datganiad Llywodraethu yn 2020-2021. Yn y cyfamser, byddwn yn **monitro** cynnydd trwy'r Pwyllgorau perthnasol a chyfarfodydd o'r Bwrdd, a thrwy gyfarfodydd ar gyfer Ymyrraeth wedi'i Thargedu bob dau fis gyda Llywodraeth Cymru dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr GIG Cymru (dros dro). Rydym yn rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd i'n poblogaeth a'n rhanddeiliaid trwy **adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd**.

Cafodd crynodeb o'r mesurau rheolaeth a roddwyd ar waith i fynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad ei gymeradwyo gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020, ac mae ar gael [yma](#).

Yn rhan o'r **adolygiad o drefniadau llywodraethu BIP CTM**, gwnaed newidiadau i'n fframwaith sicrwydd. Mae'r newidiadau hyn wedi eu crynhoi yn y diagram canlynol, sy'n **mapio busnes y Bwrdd** a'i Bwyllgorau yn erbyn yr Tudalen 26 o 100

Amcanion Lles Strategol sydd wedi eu halinio â'n IMTP. Cymeradwywyd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2020.



- yn adlewyrchu pob ffynhonnell o sicrwydd yng ngoleuni'r gyfres o adolygiadau annibynnol a gynhaliwyd yn ystod 2019/2020.

Mae'r fframwaith hwn yn hysbysu'r Bwrdd am **y risgiau clinigol blaenaf, y risgiau corfforaethol** i'n gallu i gyflawni ein hamcanion, a'n derbynioldeb risg. Mae hefyd yn rhoi sicrwydd am y rheolaethau sy'n cyd-fynd â phob amcan.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith archwilwyr mewnol, archwilwyr clinigol a chyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system o sicrwydd risg a'r fframweithiau ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae Blaengynllun Archwilio Clinigol ar gyfer 2019-2020 ar waith, ynghyd â'r Cynllun Archwilio Clinigol Gweithredol cysylltiedig, er mwyn sicrhau **bod tystiolaeth gadarn o fonitro ac o uwchgyfeirio cydymffurfiaeth ag archwiliadau ar gael**, ac er mwyn sicrhau bod canlyniadau o archwiliadau yn rhan greiddiol o'n rhaglen waith i wella ar wasanaethau'n barhaus.

Derbyniodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y Blaengynllun Archwilio Clinigol yn ei gyfarfod ym mis Awst 2019, ac mae ar gael [yma](#).

Mae adborth yn cael ei dderbyn gan Archwilio Cymru, fel ein harchwilwyr allanol, yn ei Adroddiad Archwilio Blynyddol ac o adroddiadau eraill gan

gynnwys yr Asesiad Strwythuredig - mae rhagor o wybodaeth am ganfyddiadau'r Asesiad Strwythuredig ar dudalen 31.

Mae COVID-19 a'r cyfyngiadau ar symud wedi **effeithio ar drefniadau archwilio mewnol ac allanol ac ar gynlluniau archwilio**. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn monitro hyn.

Mae gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, trwy eu hymweliadau lle rhoddwyd rhybudd a'u hymweliadau dirybudd, yn dylanwadu ar y Bwrdd Iechyd mewn modd pwysig ac arwyddocaol. Mae arolygiadau ac adroddiadau gan reoleiddwyr eraill hefyd yn gwneud cyfraniad mawr at y gwaith **o wella ansawdd ein gwasanaethau**. Maent yn llunio adroddiadau â thema sydd ar gael trwyddynt hwy. Bob blwyddyn, mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n crynhoi'r themâu hyn. Trafodir yr adroddiadau hyn ym Mhwyllgorau perthnasol y Bwrdd.

Fel sefydliad newydd ei ffurfio, mae gan BIP CTM y cyfle i sicrhau bod staff yn cael eu hannog i **ddyysgu** oddi wrth bob rhan o'r sefydliad, ac o'r GIG ehangach yng Nghymru, **mewn modd agored a thryloyw**. Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o waith i fwrw ymlaen â hyn, ac i ddangos bod hyn yn cael ei gyflawni. Mae'r Bwrdd hefyd yn ystyried sut y gall y **ddyletswydd gonestrwydd** fod yn rhan fwy creiddiol o waith beunyddiol y sefydliad, ac yn hynny o beth mae newidiadau'n cael eu gwneud i ymagwedd y Bwrdd ac i strwythur y Pwyllgorau er mwyn cryfhau sicrwydd ac i hybu tryloywder.

Mae gennym Gyngor Iechyd Cymuned gweithgar iawn hefyd, sydd â **rhaglen gynhwysfawr o ymweliadau**. Mae adborth y Cyngor a'i drafodaethau â'r Bwrdd Iechyd yn **arf allweddol ar gyfer sicrwydd** i'r sefydliad. Mae cynrychiolwyr y Cyngor Iechyd Cymuned yn mynd i gyfarfodydd y Bwrdd Iechyd ac mae hawl ganddynt i siarad ynddynt. Maent hefyd yn mynd i gyfarfodydd o Bwyllgorau'r Bwrdd ac o is-grwpiau, lle maent yn cael eu gwahodd i gymryd rhan.

Mae'r Bwrdd yn cymryd ei atebolrwydd am lywodraethu clinigol, llywodraethu corfforaethol, rheoli risgiau, adrodd am ddigwyddiadau difrifol a materion rheolaeth fewnol o ddifrif. Mae adolygiad o **reoli risgiau mewn dull 'O'r Gymuned/Ward i'r Bwrdd'** ar y gweill, a bydd hwn yn cydreddeg â'r gwaith arfaethedig o adnewyddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn ystod 2020.

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i'w gyfrifoldeb i roi sicrwydd i'n poblogaeth leol a'i randdeiliaid. Mae'n bwriadu cyflawni'r ymrwymiad hwn trwy **brosesau adrodd agored a thryloyw, ymgysylltu** rheolaidd a **chydgyhyrchu**.

Mae gan y Bwrdd dri Grŵp Ymgynghorol sy'n adrodd ar eu cyfarfodydd i'r Bwrdd. Wrth wneud hynny maent yn tynnu sylw'r Bwrdd at unrhyw faterion arwyddocaol.

Y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid

Mae ystod o sefydliadau partner o bob cwr o ardal y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r grŵp hwn. Mae'n cyfrannu at gyfeiriad strategol y Bwrdd Iechyd, yn cynghori ar gynigion i wella gwasanaethau ac yn rhoi adborth i'r Bwrdd ar effaith ei

weithrediadau ar y cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

Y Fforwm Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â sefydliadau staff ynghylch materion pwysig mae'r sefydliad yn eu hwynebu. Mae'r Fforwm Gweithio mewn Partneriaeth yn fforwm lle gall rhanddeiliaid allweddol gynnal trafodaethau a chytuno ar flaenoriaethau lleol mewn perthynas â materion gweithlu a gwasanaethau iechyd.

Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol- Mae'r Fforwm yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o broffesiynau clinigol a gofal iechyd, a hynny yn ein hysbytai a ledled gofal sylfaenol. Mae'n rhoi cyngor i'r Bwrdd ar bob math o faterion proffesiynol a chlinigol sy'n briodol ym marn aelodau'r Fforwm.

LLYWODRAETHU'R BWRDD, ATEBOLRWYDD AC ARWEINYDDIAETH

Yn sgil codi statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd i Fesurau Arbennig ac Ymyrraeth wedi'i Thargedu, mae Deloitte wedi bod yn gweithio gyda ni i ddatblygu a darparu Rhaglen Datblygu'r Bwrdd fydd wedi'i theilwra i ni. Bydd y Rhaglen yn sicrhau y bydd modd i Aelodau'r Bwrdd wneud y canlynol:

- Deall beth sydd ei angen i **arwain gwelliannau** mewn sefydliad lle mae gwella ansawdd yn un o'r elfennau pwysicaf o gyflawni'r nod pedwarplyg
- Deall y **gwerthoedd a'r ymddygiadau** y mae'n rhaid eu dangos i sicrhau y gallant arwain sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel â'r gwerthoedd a'r diwylliant iawn, a lle mae gwrandio ar staff a rhanddeiliaid, a dysgu oddi wrth bryderon am ddiogelwch cleifion, yn norm
- Deall ei **rôl** fel aelod o fwrdd unedol
- Canfod a deall y sgiliau sydd ganddynt a'u datblygu, er mwyn sicrhau'r **safonau uchaf** o lywodraethu corfforaethol
- Deall y gwahaniaeth rhwng mesur ar gyfer gwelliannau a mesur ar gyfer beirniadaeth, a sut i ddatblygu dull mwy cadarn o **fesur data** a dysgu oddi wrth **adborth gan staff a defnyddwyr**
- Deall pwysigrwydd canfod risgiau, gan gynnwys materion diogelwch cleifion, **derbynioldeb risg** y Bwrdd a'r angen am Fframwaith Sicrwydd Bwrdd effeithiol a'i rôl
- Deall **rôl craffu**, y gwahaniaeth rhwng honni nad oes risg ar y naill law a rhoi sicrwydd ar y llaw arall, a'r angen i geisio, derbyn a rhoi sicrwydd
- Adnabod yr hyn sy'n nodweddu **prosesau adrodd effeithiol a chadarn**.

Wrth adrodd ar gryfderau'r Bwrdd, yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn Rhagfyr 2019, nododd Deloitte fod datblygiadau wedi bod yn barod a bod potensial mawr i wireddu rhagor o fuddion gwirioneddol yn gyflym iawn. Roedd y canlynol ymhlith y cryfderau penodol a nodwyd:

- Bwrdd sy'n cynnwys nifer o **unigolion dawnus** nad ydynt eto wedi gwireddu eu llawn botensial fel Cyfarwyddwr neu fel Aelodau Annibynnol
- Bwrdd hynod o **wydn** sydd wedi dod allan o gyfnod anodd yn fwy sefydlog nag a welir fel arfer - dan ddylanwad nifer o uwch-arweinwyr allweddol oedd wedi llwyddo i dawelu'r dyfroedd
- Bwrdd sy'n dilyn **arfer da** mewn nifer o feysydd gan gynnwys agendâu, strwythur ei bwyllgorau, arddulliau cadeirio a safon y cynnwys mewn papurau
- Agwedd gadarnhaol, gyfeillgar, frwd ac **ymrwymedig** gan Aelodau'r Bwrdd, sydd am wneud gwahaniaeth go iawn i staff, cleifion a'r gymuned maent yn byw ynddi
- Lefelau da o ymwybyddiaeth ymhlith Aelodau'r Bwrdd am y potensial i wneud **gwelliannau parhaus** - mae hyn yn arbennig o amlwg o ganlyniadau'r holiadur Bwrdd
- Momentwm sy'n cyflymu o hyd mewn nifer o feysydd i wella dymameg timau ac i gryfhau **trefniadau llywodraethu** - datblygu'r tîm gweithredol/cyfarfodydd anffurfiol ag aelodau annibynnol/papur cynigion pwyllgor.

Cefnogodd Deloitte y cynigion i gryfhau llywodraethiant a sicrwydd y Bwrdd a gymeradwyd gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020. Yn ogystal, cydnabu'r cyfraniad y byddai'r newidiadau hyn yn ei wneud at y gwaith o fynd i'r afael â:

- Chraffu gan Gyfarwyddwyr Gweithredol cyn cyfarfodydd y Bwrdd
- Ffocws papurau ar gyfer cyfarfodydd o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Agendâu'r cyfarfodydd o'r Bwrdd a'r Pwyllgorau
- Cyflwyniadau gan Gyfarwyddwyr Gweithredol
- Ymagwedd Weithredol Integredig
- Rôl Pwyllgorau a'u perthynas â'r Bwrdd
- Craffu gan Aelodau Annibynnol
- Meithrin cydlynid rhwng Aelodau'r Bwrdd

Yn seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd oddi wrth adolygiad Deloitte, cytunodd y Bwrdd i Deloitte ddarparu **Rhaglen Datblygu'r Bwrdd newydd**, ond nodasant fod yr ymateb i COVID-19 wedi effeithio ar amseru'r rhaglen.

- Seminar ychwanegol i'r Bwrdd ynghylch pwnc perthnasol, ynghylch **ymgysylltu, adeiladau timau a gosod cyfeiriad**. Ymhlith meysydd posibl y mae trawsnewid diwylliannol neu ffurfio strategaethau
- **Sesiynau hyfforddiant** unigol / sesiynau adborth estynedig i bob Aelod o'r Bwrdd

- Seminar i'r Bwrdd ynghylch adeiladu timau a deall **arddulliau a'r hyn sy'n well gan eraill**. Defnyddio teclyn *Business Chemistry* Deloitte, sy'n darparu gwybodaeth am unigolion a thimau yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei weld am nodweddion pobl a'r hyn sy'n well ganddynt
- Seminar i'r Bwrdd am arfer da ym maes llywodraethu bwrdd, gan gynnwys: gweithredu fel bwrdd unedol; **craffu effeithiol**; y berthynas rhwng y Bwrdd a'r pwyllgorau, a **rheoli risg** yn effeithiol.

Roedd dyddiadau ar gyfer pob sesiwn wedi eu gosod cyn diwedd y flwyddyn, a byddant yn cael eu hadolygu a'u newid yn ôl yr angen o ganlyniad i COVID-19.

ASESIAD STRWYTHUREDIG SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU– 2019

Casgliad yr [Asesiad Strwythuredig](#) a gynhaliwyd yn 2019 oedd y Bwrdd Iechyd mewn sefyllfa anodd iawn, a bod angen iddo fynd i'r afael ar frys â **gwendidau sylweddol** mewn trefniadau **llywodraethu a rheoli risgiau**. Roedd hefyd wedi tynnu sylw at **heriau mewn perthynas â'r gweithlu sy'n parhau o hyd**, ynghyd â heriau o ran ei **ddiwylliant sefydliadol** yr oedd angen eu datrys. Cydnabu fod arweinyddiaeth newydd mewn rolau gweithredol allweddol, cydnabyddiaeth a dealltwriaeth o'r heriau presennol ynghyd â hanes da o reolaeth ariannol a chynllunio strategol, oll yn cynnig gobaith y gellir cyflawni'r gwelliannau hyn.

Mae rhagor o wybodaeth isod am yr argymhellion ac ymateb BIP CTM i bob un:

1. Roedd angen i Bwyllgorau'r Bwrdd sicrhau bod cymorth digonol ar gael i hwyluso craffu digonol ar feysydd busnes pwysig ac ar agweddau o ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys strategaethau, cynllunio, y gweithlu ac iechyd meddwl.
Ymateb: Rydym wedi mynd i'r afael â hyn mewn nifer o ffyrdd, fel y nodir ar dudalennau 17-22.
2. Gellir gwneud gwelliannau i'r wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau yn ei derbyn o ran y Dangosfwrdd Perfformiad, i roi gwell darlun o'r sefyllfa. Byddai hyn yn hwyluso craffu effeithiol a gwell tryloywder.
Ymateb: Rydym yn gweithredu Fframwaith Rheoli Perfformiad newydd, a bydd yr adolygiad o raglen waith y Pwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid yn canolbwyntio ar feysydd penodol lle mae perfformiad yn bryder. Rydym hefyd wrthi'n datblygu dangosfwrdd ansawdd, â'r nod o ddefnyddio hwn ar y cyd er mwyn sicrhau'r budd gorau.

² Newidiodd Swyddfa Archwilio Cymru ei henw i Archwilio Cymru ym mis Ebrill 2020.

3. Mae angen gwerthuso capasiti yn y Swyddfa Rheoli Rhaglenni, er mwyn iddi allu cynorthwyo prosiectau i drawsnewid gwasanaethau yn effeithiol.
Ymateb: Yn unol â'n Cynllun Datblygu Sefydliadol, bydd sefydlu 'Gwella CTM' yn llawn yn gwella ar ein gallu i reoli newid, a bydd hyn yn mynd law yn law â recriwtio rhagor o staff i rolau rheoli prosiectau er mwyn sicrhau gwell capasiti ar gyfer gwaith rheoli prosiectau yn y sefydliad. Ochr yn ochr â recriwtio i swyddi rheolwr prosiectau a staff sydd wedi cael hyfforddiant IQT, bydd hyn yn cryfhau capasiti ledled y sefydliad, er mwyn alinio ein Cymrodoriaethau Bevan a'n Patrymau Enghreifftiol Bevan â'n hamcanion ar gyfer trawsnewid y sefydliad.
4. Mae angen rhagor o eglurder ynghylch gweithredoedd, y targedau i'w cyflawni, a cherrig milltir mewn perthynas â'r IMTP, er mwyn darparu digon o wybodaeth am gyflawni'r IMTP ac am gyflawni amcanion cyffredinol. Mae angen rhagor o eglurder hefyd am flaenoriaethau blynyddol ynghyd â ffocws cryfach ar ganlyniadau a thraweffaith.
Ymateb: Rydym yn ceisio bod yn fwy manwl lle bynnag y bo hyn yn bosibl, gan ymgorffori mwy o wybodaeth am ein cyflawniadau a dyddiadau cerrig milltir, ynghyd â gwybodaeth am ganlyniadau perfformiad disgwyledig. Dylai hyn ei gwneud yn bosibl i ni wella ein cyflwyniadau ymhellach.

Mae Archwilio Cymru hefyd yn llunio Adroddiad Blynyddol yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio a wnaed yn BIP CTM, gan gynnwys un ar gyfer 2019. Ystyriwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Archwilio a Risg ym mis Chwefror 2020 ac mae ar gael [yma](#).

Adolygiad ar y Cyd Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

Fel y nodwyd uchod, cynhaliodd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru Adolygiad ar y Cyd o Lywodraethu Ansawdd yn BIP CTM, sydd ar gael [yma](#). Er bod yr adroddiad yn un heriol ei ddarllen, roeddem wedi **croesawu a derbyn ei ganfyddiadau** a'i argymhellion. Roedd y canfyddiadau yn ymwneud yn bennaf â materion yr ydym yn ymwybodol ohonynt eisoes, ond maent serch hynny yn cynnig safbwynt defnyddiol i ni arnynt.

Dechreuasom wneud gwelliannau ar unwaith yn y meysydd hyn, ac ymhlith y gwelliannau hyn yr oedd Model Gweithredu newydd ar gyfer ein sefydliad, datblygu ein gwerthoedd a'n hymddygiadau i greu ein diwylliant sefydliadol, mynd ati i ymgysylltu â staff a chryfhau'r strwythurau a'r prosesau sy'n sail i lywodraethu ansawdd a rheoli risg yn y sefydliad. Er bod modd gwneud rhai pethau'n gyflym, bydd yn cymryd mwy o amser i ni wneud pethau eraill. Fodd bynnag, rydym yn **llwyr ymrwymedig i weithio gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Archwilio Cymru** (a defnyddio'r enw newydd ar y sefydliad) **a phartneriaid eraill i wneud gwelliannau**. Derbyniodd y Bwrdd yr ymateb rheoli, oedd yn manylu ar y camau i'w cymryd, yn ei gyfarfod ym mis Ionawr 2020. Mae ar gael [yma](#).

Mae dwy agwedd bwysig ar ein cyd-destun sefydliadol presennol sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn. Yn gyntaf, rydym yn destun **trefniadau perfformio uwch** gyda Llywodraeth Cymru - **Mesurau Arbennig** ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth ac **Ymyrraeth wedi'i Thargedu** ar gyfer ansawdd a llywodraethu, arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol, meithrin ymddiriedolaeth o'r newydd a hyder. Yn ail, rydym wedi cael adroddiadau ynghylch diffygion yn ein systemau a phrosesau ar gyfer llywodraethu ansawdd. I fynd i'r afael â hyn, rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda'n Rheoleiddwyr, yr Uned Gyflawni, staff, cleifion, partneriaid a Llywodraeth Cymru, ac **rydym wedi bod yn talu sylw i'r gwersi a'r argymhellion** o adroddiadau perthnasol eraill er mwyn llunio **blaengynllun cydlynol**. Rydym wedi gwneud cynnydd yn achos rhai o'r materion hyn, ac felly rydym yn croesawu'r ffaith bod yr adroddiad hwn yn cydnabod yr arwyddion cynnar hyn o wella sydd, er eu cynhared, yn dangos ein bod yn mynd i'r cyfeiriad iawn.

Datblygiadau ar y gweill yn BIP CTM

Mae BIP CTM am fod yn wahanol a sicrhau bod gan y sefydliad newydd ddiwylliant sefydliadol, meddylfryd a set o ymddygiadau sy'n adlewyrchu ei uchelgais i fod yn **sefydliad sy'n rhoi cleifion, cymunedau ac ansawdd yn gyntaf**. Mae cynllun ar gyfer datblygiad sefydliadol yn cael ei lunio gyda deg llif gwaith gwahanol ond integredig, a bydd y wybodaeth a'r argymhellion o'r Adolygiad ar y Cyd yn **llywio camau gweithredu a gofynion** y llifau gwaith hyn yn y dyfodol, gan gynnwys:

- Datblygu a gwreiddio Gwerthoedd ac Ymddygiadau BIP CTM
- Datblygu Gweledigaeth a Chenhadaeth BIP CTM
- Mynd â'r weledigaeth gam ymhellach, gan ddatblygu strategaeth hirdymor BIP CTM - y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig
- Sefydlu Model Gweithredu clir i alluogi BIP CTM i gyflawni ei bwrpas craidd, yn seiliedig ar egwyddorion a gytunwyd arnynt
- Sefydlu Fframwaith Llywodraethu Ansawdd a'r systemau i gefnogi hynny (gan gynnwys sgiliau'r gweithlu a chymorth), a gwreiddio'r rhain ym mhob cwr o'r sefydliad
- Adolygu, adnewyddu a gwreiddio'r fframwaith, y prosesau a'r systemau ar gyfer llywodraethu corfforaethol
- Dylunio a gweithredu strategaeth a fframwaith ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, er mwyn sicrhau bod proses ymgysylltu ddwyffordd â chleifion, cymunedau, staff a phartneriaid
- Datblygu gallu staff BIP CTM i wella a thrawsnewid ac i fanteisio i'reithaf ar wybodaeth am iechyd
- Dylunio a sicrhau sgiliau rheoli ac arweinyddiaeth, a sicrhau dysgu parhaus, i bob aelod o staff ac i'r sefydliad cyfan
- Sefydlu rhaglen glir ar gyfer cyflawni i sicrhau bod gwasanaethau bregus CTM yn gynaliadwy

Bwriad y cynllun hwn yw sicrhau bod BIP CTM yn sefydliad cydlynol, yn sefydliad sy'n **glir ar ei weledigaeth ar gyfer y dyfodol**, yn sefydliad **y mae gwerthoedd ac ymddygiadau a rennir yn sail iddo**,

ac yn sefydliad sydd gyda **fframwaith llywodraethu ansawdd cryf**. Bydd yn cymryd amser i ni gyflawni a gwreiddio'r cynllun; bydd modd cyflawni rhai elfennau ohono yn gyflym ond bydd eraill yn cymryd amser, yn enwedig lle bydd angen newid diwylliant a gwella ar gapasiti a gallu.

Newid y ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr - 12 mis yn ddiweddarach

Roedd y sefydliad a ragflaenodd BIP CTM (sef Bwrdd Iechyd Prifysgol CwmTaf - BIPCT) **wedi newid ei enw** ar 1 Ebrill 2019 i gynnwys 'Morgannwg' yn ei deitl, yn dilyn penderfyniad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mehefin 2018 i drosglwyddo cyfrifoldeb dros **gomisiynu gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf. Cyn hynny, roedd y gwasanaethau hyn yn cael eu rheoli gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - BIP ABM (neu 'Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe' erbyn hyn). Effaith hyn oedd bod y sefydliad yn derbyn y cyfrifoldeb dros gomisiynu gofal iechyd i tua 450,000 o bobl (Ystadegau Cymru 2016), a hynny ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr gyda rhyw **12,000 o staff**.

Gwnaed cryn dipyn o waith cynllunio yn ystod 2018/19 i wneud hyn yn bosibl, gwaith a oruchwyliwyd gan y Bwrdd Trosglwyddo Ar y Cyd a sefydlwyd yn is-bwyllgor o BIP CTM ac o BIP ABM. Cyfarfu'r Bwrdd Trosglwyddo Ar y Cyd am y tro olaf ar 23 Ebrill 2019, pan dderbyniodd ei Ddatganiad o Drosglwyddo Llywodraethiant a'i Ddogfen Ansawdd a Diogelwch Etifeddol olaf. Yn gyffredinol, roedd y broses o newid y ffin yn un llwyddiannus, gyda nifer o Gytundebau Hirdymor a Chytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau penodol am gyfnodau penodol. Roedd **ansawdd a darpariaeth gofal cleifion yn ganolbwynt i benderfyniadau a threfniadau cydweithio** rhwng y ddau Fwrdd Iechyd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, er mwyn darparu gwasanaethau lleol di-dor yn ystod y Rhaglen Drosglwyddo ar y Cyd.

Mae'r Datganiad Ansawdd a Diogelwch Etifeddol yn rhoi crynodeb cynhwysfawr o waith o'r llif gwaith Ansawdd a Diogelwch Cleifion, gan nodi materion hysbys o ran ansawdd a diogelwch cleifion, camau gweithredu sydd ar waith neu sydd wedi'u hargymell, a meysydd arfer da. Yn ei gyfarfod olaf ar 23 Ebrill, cytunodd y Bwrdd Pontio ar y Cyd ar y meysydd gwaith a oedd yn weddill ac yn mynd rhagddynt yng nghyd-destun y newid i'r ffin, a chytunodd i ddwyn y rhain ymlaen i 2019 trwy gyfarfodydd Tîm Gweithredol ar y Cyd bob mis.

Gweithredwyd rhaglen waith ar gyfer y meysydd hynny lle'r oedd angen gwneud gwaith o hyd i ddelio â'r nifer fach o Gytundebau Lefelau Gwasanaeth oedd heb eu cwblhau pan newidiwyd y ffin. Roedd y trafodaethau am y fframwaith ariannol ar ôl newid y ffin wedi parhau yn ystod 2019/20. Derbyniwyd canlyniad **y broses gyfryngu** ar 13 Awst 2019, a chadarnhawyd y byddai cyllid anghylchol o £7.1m ar gyfer 2019/20 i alluogi'r Bwrdd Iechyd i lunio'r cynllun ariannol angenrheidiol ac i gymryd y camau lliniaru ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

NEWIDIADAU DROS DRO I'N FFRAMWAITH LLYWODRAETHIANT OHERWYDD Y CORONAFEIRWS

Ar Fawrth 11 2020, cyhoeddodd Sefydliad Iechyd y Byd fod y Coronafeirws yn bandemig. Ar adeg paratoi'r Datganiad Llywodraethiant Blynnyddol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd a GIG Cymru yn wynebu **galw digynsail sy'n cynyddu o hyd** wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai mae **COVID-19** wedi effeithio arnynt. Mae'r ymateb yr oedd ei angen gan y Bwrdd Iechyd wedi golygu bod y sefydliad cyfan wedi gorfod gweithio'n wahanol yn fewnol a chyda'n staff, ein partneriaid a'n rhanddeiliaid, ac rydym wedi gorfod **edrych ato ar sut mae'r fframwaith llywodraethiant a gweithredol yn cael ei roi ar waith.**

Yn unol â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad i Gyfarfodydd) 1960, mae gofyn i'r sefydliad gyfarfod yn gyhoeddus. Fodd bynnag, oherwydd y risg i iechyd y cyhoedd oherwydd y pandemig, ar 23 Mawrth 2020 ataliodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU gynulliadau cyhoeddus o fwy na dau berson. Nid oedd yn bosibl felly i ganiatáu i'r cyhoedd fod yn bresennol yn gorfforol yn ein cyfarfodydd o'r Bwrdd ar ôl y dyddiad hwnnw. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau ein bod yn **cynnal busnes mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl** ar yr adeg hon, fe wnaed y canlynol:

Cymerodd y Cadeirydd gamau brys ar 19 Mawrth 2020 i gefnogi busnes y Bwrdd yn ystod COVID-19, yn unol â'r hyn a wnaed mewn sefydliadau GIG eraill yng Nghymru. Penderfynwyd gwneud y canlynol:

- Cynnal pob cyfarfod o'r Bwrdd yn '**breifat**', fel y disgrifiwyd yn yr adran am Gyfarfodydd o'r Bwrdd ar dudalen 17.
- Defnyddio **fideo-gynadledda ar gyfer y cyfarfodydd** y mae pobl yn bresennol yn gorfforol ynddynt fel arfer, tra bydd y rheol i gadw pellter cymdeithasol ar waith o hyd, er mwyn sicrhau parhad busnes gymaint â phosibl a llywodraethu cryfach. Newid gofynion cworwm ar gyfer cyfarfodydd, lle byddai angen i lai o Aelodau Annibynnol gymryd rhan ynghyd â llai o Gyfarwyddwyr Gweithredol. Nod y fath drefniadau oedd cefnogi ymdrechion i atal teithiau diangen ac i gadw pellter cymdeithasol, ac i'n helpu i gynnal ein busnes angenrheidiol yn effeithiol ac yn effeithlon.
- Cytuno mai dim ond mewn **amgylchiadau eithriadol** y byddai angen Gweithredu Brys gan y Cadeirydd.
- Cynllunio agendâu ar sail **busnes hanfodol** yn unig, er mwyn lleddfu ar faich Cyfarwyddwyr Gweithredol a staff gweithredol.
- Cyfarfodydd o'r Bwrdd i ddefnyddio **Agenda 'cydsyniad'**, sy'n gweithredu ar y sail na fydd angen trafod rhai eitemau gan eu bod yn eitemau rheolaidd neu eitemau oedd eisoes wedi eu cymeradwyo'n unfrydol, ac oherwydd hynny mae modd eu cymeradwyo fel grŵp o adroddiadau. O wneud hynny, mae rhagor o amser i'r eitemau hynny ar yr agenda y mae angen eu trafod am gyfnod hwy.
- Pennu'r trydydd a'r pedwerydd Cadeirydd dirprwyol i **gefnogi cynlluniau wrth gefn** ar gyfer y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, ac hefyd ar gyfer y Prif Weithredwr.

- **Gohirio pob cyfarfod Pwyllgor heblaw am y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch am dri mis yn y lle cyntaf (gan adolygu'r sefyllfa bob mis).** Mae'r pwyllgorau hyn yn cyflawni rolau hollbwysig yn ystod argyfyngau iechyd cyhoeddus trwy graffu ar benderfyniadau er mwyn sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu hasesu o safbwynt ansawdd a risg, a bod sefydliadau yn gweithredu er budd y choedd a staff.

Mae'r newidiadau hyn dros dro yn newydd i ni o ran sut rydym yn gweithredu fel arfer, ac felly roedd angen **diwygio ein Rheolau Sefydlog**. O'r herwydd, cafodd y manylion am y cynigion hyn eu cyfleu i Aelodau'r Bwrdd trwy e-bost ac roedd angen gofyn am i'r newidiadau gael eu cymeradwyo'n ôl-weithredol gan y Pwyllgor Archwilio. Fe gymeradwyodd y Pwyllgor y newidiadau ar 6 Ebrill 2020.

Diwygiwyd ein Cynllun Dirprwyo a chytunwyd arno er mwyn cefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau yn ystod COVID-19 ac i hwyluso'r prosesau priodol o wneud penderfyniadau ar lefelau Trefn Reoli Efydd/Arian/Aur. Cymeradwywyd hyn gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020, ac mae crynodeb isod:

NON FINANCIAL DECISIONS (i.e. clinical/workforce etc)		CAPITAL £ DECISIONS	REVENUE £ DECISIONS
Impact beyond CTMUHB boundary and/or Outside Policy and/or RED QIA (NB Urgent approval of Red QIA delegated to Medical Director and Nurse Director to be noted at Gold)	GOLD	£250k ≤ £1m Short justification with capital team support Gold meeting approval required (HB Chair's action also needed if over £1m)	> £250k Short justification with capital team support Gold meeting approval required
Impact across CTMUHB within policy and/or AMBER QIA	SILVER	£100k ≤ £250k Short justification with capital team support. Approval by → Director of Finance & 2 x Execs (normally Silver and Gold Executive Leads)	£100k ≤ £250k Short justification with finance business partner support. Approval by → Director of Finance & 2 x Execs (normally Silver and Gold Executive Leads)
Impact in Locality within policy and/or GREEN & YELLOW QIA	BRONZE	≤ £100k Service Group Manager level decision. Rapid email clearance by Head of Capital & Director of Finance	≤ £100k ILG Director or Director of Clinical Services Operations & cc £ Business Partner

Sail penderfyniad BIP CTM i sefydlu strwythur rheoli 'Aur/Arian/Efydd' ym mis Mawrth 2020 oedd argyfwng pandemig COVID-19. Wrth i amser fynd rhagddo, daeth yn glir y byddai COVID-19 yn sefyllfa hirhoedlog, ac y byddai angen cymryd hynny i ystyriaeth yn y gwaith o reoli gwasanaethau ledled BIP CTM. O'r herwydd, datblygodd BIP CTM **Fframwaith Gweithredu, 'Resetting CTMUHB'**, er mwyn cymryd yr heriau hirdymor hyn i ystyriaeth. Yn dilyn hynny, rhoddwyd diwedd ar y strwythur 'Aur/Arian/Efydd' ar 21 Mai 2020.

PWRPAS Y SYSTEM O REOLAETH FEWNOL

Nod y system o reolaeth fewnol (y Fframwaith Sicrwydd) yw **rheoli risg** hyd lefel resymol **yn hytrach na dileu pob risg**. O'r herwydd, ni all ond darparu sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn broses barhaus, sydd â'r nod o gofnodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion, ac o **werthuso'r tebygolrwydd y caiff y risgiau hyn eu gwireddu** a'u heffaith bosibl. Y nod wedyn yw eu rheoli'n effeithiol, yn effeithlon ac yn ddarbodous. Roedd y system o reolaeth fewnol yn ei le am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynnyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2019-2020.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynnu bod BIP CTM yn gweithredu o fewn **y fframwaith llywodraethu ehangach ar gyfer GIG Cymru ynghyd â'i fframweithiau cynllunio a pherfformio**, ac mae disgwyl hefyd i BIP CTM ymgorffori'r safonau llywodraethu da a osodir i GIG Cymru (fel y'u diffinnir yn egwyddorion Llywodraethu sy'n Canolbwyntio ar y Dinesydd a'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru).

GALLU I DDELIO Â RISG

Fel y nodwyd eisoes, roedd yr angen i gynllunio ac i ymateb i bandemig COVID-19 wedi dod â nifer o heriau, a chanfuwyd nifer o risgiau newydd. Er bod gan y sefydliad gynllun yn ei le eisoes ar gyfer digwyddiadau mawr a pharhad busnes, yn unol â Deddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004, roedd maint a thraweffaith y pandemig yn ddigynsail.

Mae camau mawr wedi eu cymryd ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac i ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth.

Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd am yr effaith gyffredinol ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau nawr ac yn yr hirdymor yn y sefydliad, ond mae'r Bwrdd Iechyd yn hyderus ei fod wedi cymryd pob cam priodol.

Mae'r sefydliad yn parhau i **weithio'n agos** gydag ystod eang o bartneriaid wrth gynllunio ar gyfer y cyfnod adfer, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau i ymateb i'r sefyllfa. Bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli risg cadarn yn sail i hyn, yn ogystal â'r gallu i ganfod, asesu a lliniaru risgiau a all effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

Yn ogystal â'r **risgiau yn sgil pandemig COVID-19**, mae'r sefydliad yn wynebu risgiau eraill hefyd. Bydd yr ymateb i COVID-19 wedi gwaethygu rhai o'r risgiau hyn.



Y Gofrestr Risg

Cyn mis Medi 2019, derbynai'r Bwrdd y Gofrestr Risg Gorfforaethol ddwywaith y flwyddyn. Ar gyngor y Cyfarwyddwr Llywodraethiant newydd dros dro, yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Medi 2019, cytunodd y Bwrdd i dderbyn **y Gofrestr Risg ym mhob cyfarfod**, ac fe'i nodwyd hefyd y cynnydd y byddai angen ei wneud i wella'r ymagwedd 'system cyfan' at ddelio â risg ledled BIP CTM. Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod y prosesau sy'n sail i uwchgryfeirio risgiau yn brydlon yn rhai effeithiol, a bydd y gwaith hwn yn gysylltiedig â'r gwaith i adnewyddu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Bydd y gwersi a ddysgwyd o Adolygiad ar y Cyd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn cael eu hystyried yn hynny o beth.

Mae pob Pwyllgor y mae risg wedi ei dyrannu iddo yn adolygu'r risg honno bob chwarter. Mae'r Tîm Gweithredol yn sicrhau bod un o Bwyllgorau perthnasol y Bwrdd yn ystyried risgiau allweddol yn ymwneud â darparu gwasanaethau ac yn craffu arnynt. Bydd y Bwrdd wedyn yn cymeradwyo'r adroddiad perthnasol pan fydd yn ei dderbyn i graffu arno. Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn cael ei derbyn a'i **diweddarau bob mis yng nghyfarfod y Bwrdd Rheoli**, er mwyn sicrhau bod risgiau yn cael eu canfod a'u cofnodi'n gywir.

Wrth adolygu cadernid cofrestr risg sefydliadol sydd wrthi'n datblygu, bydd Aelodau o'r Bwrdd yn ystyried a yw'r **risgiau ar y brig** yn rhai y maent yn gallu eu hadnabod. Byddant hefyd yn ystyried a oes modd iddynt brofi bod y risgiau hyn yn llywio gwaith y Bwrdd a'i Bwyllgorau wrth gyflawni ei strategaeth berthnasol.

Cynhaliwyd adolygiad o'n trefniadau ar gyfer rheoli risgiau, a oedd wedi ystyried argymhellion Adolygiad ar y Cyd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru i Ansawdd a Llywodraethiant. Roedd yr Adolygiad ar y Cyd hwnnw wedi gofyn i ni gryfhau sut mae BIP CTM yn canfod ac yn rheoli risg. Mynnodd yr Adolygiad fod y Bwrdd yn mynd ati mewn modd strategol a chynlluniedig i **wella ein prosesau rheoli risg** ledled ein gwasanaethau, gan sicrhau ein bod yn adolygu, yn diweddarau ac yn alinio pob strategaeth a fframwaith allweddol er mwyn adlewyrchu'r trefniadau llywodraethu diweddaraf. Roedd yr adolygiad hefyd wedi ein galluogi i sicrhau y byddai prosesau'n gweithio'n effeithiol o dan y Model Gweithredu newydd, a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2020.

Mae'n anochel y bydd y Coronafeirws yn effeithio ar rywfaint o'r gwaith sy'n deillio o hyn o ran rhaglenni hyfforddiant, y derbynioldeb risg a'r risgiau blaenaf, rheolaethau, sicrwydd ac unrhyw fylchau sydd ar ôl. Mae manylion am **y risgiau a ganfuwyd yn ymwneud â COVID-19** i'w gweld ar dudalen 43.

Y Dadansoddiad Cyffredinol o Risgiau fel yr oedd ym mis Mawrth 2020:

Am **ddarlun mwy cyflawn o'r proffil risg**, gweler y Gofrestr Risg Gorfforaethol a gyflwynwyd gerbron y cyfarfod o'r Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2020. Mae ar gael [yma](#).

Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd

Ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli weithdrefn ar gyfer Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd. Mae'r weithdrefn yn nodi sut y dylid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd ledled y Bwrdd Iechyd ar gyfer cynlluniau newydd, newidiadau i wasanaethau, rhaglenni, prosiectau neu gynlluniau i arbed arian. Dylid adolygu'r mathau hyn o weithgarwch uchod er mwyn asesu'r effaith bosibl ar ansawdd (diogelwch, profiad y claf ac effeithiolrwydd).

Mae defnyddio Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd wedi **hwyluso prosesau effeithiol o wneud penderfyniadau**, ac mae hefyd yn darparu asesiad gwaelodlin y gellir ei ddefnyddio i fonitro cynlluniau. Mae tri maes ansawdd - diogelwch, profiad y claf ac effeithiolrwydd - yn cael eu hystyried.

Y teclyn asesu risg (y matrices 5x5) yw'r un teclyn a ddefnyddir ar gyfer cofrestri risg ledled y Bwrdd Iechyd. Mae hyn yn sicrhau bod y broses o lunio Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd yn cyd-fynd â phrosesau eraill ar gyfer rheoli a llywodraethu risg.

Yn ystod Mawrth 2020, roedd **Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd yn sylfaen gref i benderfyniadau** wrth i'r Bwrdd Iechyd ymateb i COVID-19.

Y Strategaeth Rheoli Risg

Mae gan y Bwrdd Iechyd strategaeth ddiwygiedig ar gyfer Rheoli Risg a gymeradwywyd yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth 2020 (sydd ar gael [yma](#)). Mae cynllun gweithredu cysylltiedig hefyd sy'n amlinellu **derbynioldeb risg y sefydliad** yn glir, ac sydd hefyd yn amlinellu proses ar gyfer sicrhau bod cynlluniau'r Bwrdd Iechyd yn seiliedig ar asesiadau risg ac ar gamau i liniaru'r risgiau hyn.

Mae'r strategaeth ddiwygiedig yn cefnogi ymrwymiad y Bwrdd Iechyd i ddatblygu a gweithredu Strategaeth Rheoli Risg (a Fframwaith Sicrwydd Bwrdd) a fydd yn canfod, dadansoddi, gwerthuso a rheoli'r risgiau hynny sy'n fygythiad i'r gwaith o gyflawni ei **amcanion strategol** a'r IMTP.

Bydd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn cael ei ddefnyddio gan y Bwrdd i **ganfod, monitro a gwerthuso risgiau sy'n effeithio ar amcanion strategol**. Bydd yn cael ei ystyried ochr yn ochr ag arfau rheoli eraill, fel dangosfyrddau gweithlu, perfformiad ac ansawdd ac adroddiadau ariannol, er mwyn i'r Bwrdd gael darlun cynhwysfawr o broffil risg y sefydliad.

Amcanion Strategaeth Rheoli Risg BIP CTM (a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd) yw:

- lliniaru effaith risgiau a digwyddiadau andwyol a lleihau nifer y cwynion, a hynny trwy ganfod risgiau yn effeithiol, eu blaenoriaethu, eu trin a'u rheoli;
- sicrhau bod rheolaeth risg yn rhan greiddiol o ddiwylliant y Bwrdd Iechyd;
- cynnal fframwaith rheoli risg sy'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd
- rheoli risgiau strategol a gweithredol yn effeithiol;
- sicrhau ymagwedd gydlynol tuag at lywodraethu corfforaethol, a rheoli adnoddau rheolaeth risg yn effeithiol;
- lleihau colled ariannol y gellid ei hosgoi;
- sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn bodloni ei rwymedigaethau o ran Iechyd a Diogelwch ac Ansawdd a Diogelwch;
- rheoli pob risg y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei hwynebu.

Yn sgil y trefniadau ymyrraeth, mae gwersi wedi eu dysgu o ran lle y gellid cryfhau rheolaeth risg ledled y sefydliad. Mae adolygiad cynhwysfawr ar y gweill i ganfod cyfleoedd i gryfhau prosesau ar gyfer canfod, asesu a lliniaru risgiau ac ar gyfer uwchgyfeirio risgiau o'r gymuned/ward i'r Bwrdd. Bydd y gwaith hwn yn asesu **derbynioldeb risg** y Bwrdd mewn perthynas â chyflawni'r amcanion strategol a osododd y Bwrdd, a bydd hefyd yn cynorthwyo swyddogion i reoli risgiau yn lleol. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi staff i wneud penderfyniadau yn effeithiol.

Mae ymwybyddiaeth staff ynghylch yr angen i reoli risgiau yn cael ei hybu trwy gyfathrebiadau rheolaidd a thrwy System Rheoli Risgiau'r Bwrdd Iechyd o'r enw 'DATIX'. Yn rhan o'r system hwn y mae'r system ar gyfer adrodd ar ddigwyddiadau a'r gofrestr risg. Mae'r [gofrestr risg](#) yn parhau i gael ei chyflwyno er mwyn **cofnodi risgiau asesedig yn well** ynghyd â'r camau a gymerir i'w lliniaru neu i'w huwchgyfeirio.

Trosglwyddodd gwaith craffu a cheisio sicrwydd mewn perthynas â risg o'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2019. Yn sgil hynny enw'r pwyllgor hwnnw bellach yw'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Mae gan y Pwyllgor rôl benodol mewn perthynas ag adolygu effeithiolrwydd y Strategaeth Rheoli Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. O ran rheoli risg, mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r gwaith o sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaeth fewnol a rheoli risg.

Mae pob un o **Bwyllgorau'r Bwrdd** yn derbyn adroddiadau am risg ac yn craffu arnynt, ac maent yn rhoi sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas â'r risgiau a ddyrannwyd iddynt yn sgil gwaith goruchwylio a chraffu. Mae Pwyllgorau hefyd yn derbyn diweddariadau o ran camau a gymerwyd i lliniaru risg.

Mae gan y **Bwrdd Rheoli** y dyletswyddau canlynol mewn perthynas â rheoli risg:

- Hyrwyddo diwylliant yn y Bwrdd Iechyd sy'n annog prosesau agored a gonest o adrodd ynghylch risg, gyda chyfrifoldeb ac atebolrwydd lleol.
- Bod yn fforwm ar gyfer trafod materion pwysig o ran rheoli risg yn y Bwrdd Iechyd

- Sicrhau bod y camau priodol yn cael eu cymryd mewn perthynas â risgiau clinigol ac anghlinigol ledled y sefydliad
- Ei gwneud yn bosibl i risgiau na ellir delio â hwy yn lleol gael eu huwchgyfeirio, eu trafod a'u blaenoriaethu
- Sicrhau bod Cofrestri Risg Lleoliadau, Cyfarwyddiaethau ac Adrannau Corfforaethol yn cael eu hystyried mewn modd priodol a bod cynlluniau gweithredu'n cael eu cymeradwyo er mwyn eu rheoli. I baratoi ar gyfer hyn, gwnaed gwaith yn 2019-2020 i gyflwyno Grwpiau Lleoliad Integredig ac i ystyried sut y caent eu defnyddio yn 2020-2021 mewn perthynas â rheoli risgiau a'u huwchgyfeirio i'r Bwrdd Rheoli
- Adolygu'r risgiau ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol (risgiau 15-25 o Leoliadau, Cyfarwyddiaethau ac o Adrannau Corfforaethol) er mwyn penderfynu a fyddai unrhyw un ohonynt yn effeithio ar Amcanion Strategol y Bwrdd Iechyd, ac os felly, bydd y risg hon yn cael ei hychwanegu at Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Adolygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd cyn ei gyflwyno i'r Bwrdd.
- Cynghori'r Bwrdd ynghylch risgiau eithriadol i'r Bwrdd Iechyd ac ynghylch unrhyw ganlyniadau ariannol i'r risgiau hyn
- Adolygu a monitro'r gwaith o weithredu trefniadau Rheolaeth Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Sicrhau bod yr holl ofynion priodol a pherthnasol yn cael eu bodloni, fel y gall y Prif Weithredwr (dros dro) lofnodi'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol
- Cymeradwyo dogfennaeth sy'n berthnasol i'r gwaith o weithredu trefniadau Rheolaeth Risg a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Rhoi sicrwydd i'r Bwrdd bod system effeithiol ar waith i reoli risg ledled y sefydliad.

Yn ystod 2019-2020, roedd trefniadau ar waith ar lefel cyfarwyddiaethau i sicrhau bod materion iechyd a diogelwch yn cael eu hystyried a'u rheoli'n iawn yn unol â Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg y sefydliad. Yn ogystal ag adrodd am risgiau trwy'r trefniadau cyfarfod yn y sefydliad, gall rheolwyr gweithredol a chyfarwyddwyr roi gwybod i Gyfarwyddwr Gweithredol priodol am risg sylweddol er mwyn i'r risg gael ei hystyried a, lle bo hynny'n briodol, er mwyn hysbysu'r Bwrdd amdani.

Cynhelir archwiliadau rheolaidd mewn meysydd o flaenoriaeth, a defnyddir y wybodaeth wedyn i sicrhau bod y gwelliannau angenrheidiol yn cael eu cyflawni. Mae **rhaglen hyfforddiant yn ei lle**, ac anogir staff i gwblhau hyfforddiant statudol a gorfodol. Mae'r sefydliad yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd ymwybyddiaeth staff o'r angen i reoli risgiau yn rhan o **gyfathrebiadau rheolaidd â staff a briffiadau**, a thrwy drafodaethau penodol ag uwch-arweinwyr am adrodd ynghylch risg. Yn ogystal, mae modiwl risg 'DATIX' yn parhau i gael ei gyflwyno, er mwyn cofnodi risgiau asesedig yn well ynghyd â'r camau a gymerir i'w lliniaru.

Er 1 Ebrill 2020, mae **Lleoliadau, Grwpiau Systemau, Cyfarwyddiaethau ac Adrannau Corfforaethol** yn gyfrifol am y risgiau yn eu meysydd gweithredol eu hunain ac am roi sicrwydd i'r Bwrdd Rheoli ynghylch eu rheolaeth weithredol ac

am unrhyw gymorth sydd ei angen mewn perthynas â rheoli risg. Maent yn adolygu ac yn diweddarau risgiau presennol, yn ystyried risgiau newydd i'w cynnwys ac yn uwchgyfeirio unrhyw risgiau eithafol. Cyflwynir y rhain wedyn i'r Bwrdd Rheoli gan gynrychiolydd perthnasol y Lleoliad, y Gyfarwyddiaeth neu'r Adran Gorfforaethol.

Y Strwythur ar gyfer Adrodd ynghylch Risgiau a Chanfod, Asesu a Rheoli Risgiau

I gefnogi'r adran hon ymhellach, gofynnir i'r darlennydd droi at y Strategaeth Rheoli Risg ac yn enwedig at yr atodiadau canlynol:

- Atodiad 2 - Y Strwythur ar gyfer Adrodd ynghylch Risgiau
- Atodiad 4 - Y Dull o Ganfod, Asesu a Rheoli Risgiau

Mae cynnydd mawr yn cael ei wneud wrth gryfhau prosesau rheoli risg ymhellach, ac mae cerrig milltir ar gyfer rheoli risg wedi eu datblygu i fynd i'r afael ag argymhellion yr Adolygiad ar y Cyd a gynhaliwyd gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru. Byddwn yn bwrw ymlaen â'r gwaith hwn yn ystod 2020-2021. Cyflwynwyd y **cerrig milltir** hyn i'r Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth 2020.

Derbynioldeb Risg

Oherwydd effaith pandemig COVID-19, bydd angen ad-drefnu Sesiwn Datblygu'r Bwrdd i adolygu a chymeradwyo derbynioldeb risg y Bwrdd, a oedd i fod i gael ei gynnal ym mis Ebrill 2020. Mae hyn yn flaenoriaeth i'r Bwrdd yn ystod 2020-2021, a'r bwriad bellach yw ei gynnal ym mis Awst 2020.

Bydd y Bwrdd yn asesu ei dderbynioldeb risg gan ddefnyddio'r **matrics ar gyfer sefydliadau yn y GIG gan y Good Governance Institute**. Mae chwe lefel o risg yn y matrics, fel a ganlyn:

- **Osgoi:** Mae osgoi risg ac ansicrwydd yn un o Amcanion Allweddol y Sefydliad
- **Lleiaf Posibl:** Yn ffafrio opsiynau darpariaeth hynod o ddiogel, sydd ag elfen fach o risg gynhenid ac sydd â photensial cyfyngedig ar gyfer buddion
- **Gofalus:** Yn ffafrio opsiynau darpariaeth diogel sydd ag elfen fach o risg gynhenid ac sydd o bosibl â photensial cyfyngedig yn unig ar gyfer buddion
- **Agored:** Yn barod i ystyried pob opsiwn darpariaeth ac i ddewis, lle mae lefel dderbyniol o fuddion ar yr un pryd
- **Ceisio:** Yn awyddus i fod yn arloesol ac i ddewis opsiynau sy'n cynnig lefelau uwch posibl o fuddion busnes (er gwaethaf y risg uwch gynhenid)
- **Aeddfed:** Yn hyderus yn gosod lefelau uwch o dderbynioldeb risg oherwydd bod rheolaethau, prosesau rhagdybio'r dyfodol a systemau ymatebol yn gadarn.

Rheoli Risg a COVID-19

Mae camau mawr wedi eu cymryd ar lefel genedlaethol a lleol ers diwedd

Mawrth 2020 er mwyn paratoi ar gyfer yr effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth, ac i ymateb i'r effaith honno. Mae hyn wedi cynnwys **gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb aml-asiantaeth**, fel aelod allweddol o'r Grŵp Cydlynus Strategol. Er bod rhywfaint o ansicrwydd o hyd am yr effaith gyffredinol ar y gwaith o ddarparu gwasanaethau nawr ac yn yr hirdymor yn y sefydliad, mae'r Prif Weithredwr (Dros Dro) yn hyderus bod pob cam priodol yn cael ei gymryd.

Oherwydd ymateb y Bwrdd Iechyd i COVID-19, mae wedi gorfod ailasesu'r lefelau o dderbynioldeb risg wrth ddarparu gwasanaethau. I fynd i'r afael â risgiau COVID-19 ac i'w lliniaru, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gorfod ystyried ac **addasu'r lefelau o risg a ganiateir mewn meysydd gwasanaeth eraill**, wrth ganolbwyntio ar yr un pryd ar ansawdd a diogelwch ein cymunedau a'n staff.

Mae'r sefydliad yn parhau i weithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau â'i hymateb, ac mae'n cynllunio hefyd ar gyfer y cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod **trefniadau rheoli risg cadarn** yn sail i hyn, yn ogystal â'r gallu i ganfod, asesu a lliniaru risgiau a all effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol. Derbyniwyd nifer o risgiau newydd eu canfod wrth ymateb i COVID-19 yng nghyfarfod y Bwrdd Iechyd ym mis Mawrth 2020. Y risgiau hyn oedd:

- **Risg 054** - COVID-19 - Mae risg na fydd y cynlluniau wrth gefn na'r cynlluniau parhad busnes yn llwyddo i reoli pandemig COVID-19 gystal ag y gallent.
- **Risg 055** - COVID-19 - Yr effaith ar fusnes arferol - Mae risg i'r Bwrdd Iechyd y bydd yr adnoddau a'r ffocws ar reoli pandemig COVID-19 yn arwain at niwed i gleifion, oherwydd y lleihad yn y ddarpariaeth o wasanaethau a'r anallu i ymateb i feysydd eraill yng Ngweithrediadau'r Bwrdd Iechyd.

Mae manylion am y risgiau hyn ar gael yn ein Cofrestr Risg Gorfforaethol.

Yn ychwanegol at y risgiau a amlinellwyd uchod mewn perthynas â COVID-19, dylid nodi hefyd fod cofrestr risg COVID-19 Trefn Reoli Aur wedi ei chynnal a'i diweddarau bob wythnos, ac mae'n cael ei hadolygu gan y strwythur Gorchymyn a Rheoli. Bydd y gofrestr hon yn dod i ben pan fydd y strwythur Gorchymyn a Rheoli yn dod i ben yn ffurfiol, a bydd unrhyw risgiau agored yn cael eu hadolygu er mwyn ystyried a fydd angen eu trosglwyddo i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Ym mis Mawrth 2020, cafodd y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch wybod bod BIP CTM wedi derbyn tri hysbysiad gorfodaeth tân gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Roedd yr hysbysadau yn ymwneud ag Ysbyty Tywysoges Cymru, Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty Tywysoges Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd wrthi'n cymryd camau rheoli i fynd i'r afael â'r rhain mewn cydweithrediad â'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

SAFONAU GOFAL IECHYD I GYMRU

Adolygwyd a chyhoeddwyd y Safonau Iechyd a Gofal (y Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru gynt) ym mis Ebrill 2015. Mae'r Safonau Iechyd a Gofal yn nodi'r **gofynion ar gyfer darparu gofal iechyd yng Nghymru** ar bob lefel ac ym mhob lleoliad. Mae cyfrifoldeb ar bob sefydliad yn y GIG i ddangos bod y safonau yn cael eu defnyddio a'u bodloni ar bob adeg.

Yn dilyn lansio'r Safonau Iechyd a Gofal, aethom ati i sefydlu cytundebau fframwaith. Gellid cynnal hunanasesiadau a chymryd camau ar sail y rhain i wneud y gwelliannau a'r newidiadau sydd eu hangen i alluogi'r sefydliad i ddarparu gwasanaethau o'r safon uchaf i bobl Cymru. Mae'r Bwrdd Iechyd yn defnyddio system electronig o'r enw **System Monitro Iechyd a Gofal**, er mwyn cofnodi ac asesu cydymffurfiaeth â'r safonau hyn.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, roedd amserlen o ddyddiadau allweddol yn ystod 2019/2020 ar gyfer paratoi a chwblhau'r hunanasesiadau, ac mae hyfforddiant ar gael lle bo angen. Mae **hunanasesiadau** yn cael eu cwblhau yn unol ag amserlenni'r Bwrdd Iechyd, ac mae gofyn iddynt gael eu cymeradwyo'n ffurfiol ar lefel y ward a'u hadolygu'n ganolog er mwyn sicrhau cysondeb.

Mae adroddiadau, tystiolaeth a sgoriau ar gael i gefnogi'r gwaith o gynnal hunanasesiadau. **Mae cynlluniau gweithredu yn cael eu llunio ar lefel y ward / adran** ar ôl i faterion gael eu canfod, ac mae cynlluniau gweithredu yn cael eu hadolygu'n ganolog wedyn er mwyn canfod materion cyffredin ledled BIP CTM.

Ar adeg paratoi'r adroddiad hwn, nid yw'r adolygiad Archwilio Mewnol na'r Adroddiad Safonau Iechyd a Gofal Blynyddol wedi eu cwblhau. Mae COVID-19 wedi effeithio'n anochel ar ein gallu i wneud gwaith o fewn yr amserlen wreiddiol.

Mewn perthynas â Safon Llywodraethiant, Atebolrwydd ac Arweinyddiaeth, mae'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod asesiad yn erbyn y meini prawf hyn wedi ei gynnal trwy'r gwahanol adolygiadau ac archwiliadau yn ystod 2019/20, yn eu plith yr Adolygiad ar y Cyd gan AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru a gyfeiriwyd ato eisoes yn y datganiad llywodraethiant hwn, a thrwy'r gwaith gyda Deloitte o ran Datblygu'r Bwrdd.

ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD

Fel y Swyddog Atebol a'r Prif Weithredwr (Dros Dro), rwyf yn gyfrifol am adolygu **effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol**. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith Archwilwyr Mewnol ac Allanol, y Cyfarwyddwyr Gweithredol ac asesiadau ac adroddiadau sicrwydd eraill, gan gynnwys gwaith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Rwyf wedi gwrandao ar y Bwrdd a'u barnau **am y cryfderau a'r cyfleoedd yn y system o reolaeth fewnol**, ac rwyf wedi fy nghynghori gan waith y Pwyllgor Archwilio a chan Bwyllgorau eraill a sefydlwyd gan y Bwrdd.

Mae fy mherfformiad fel Prif Weithredwr (Dros Dro) wrth gyflawni'r cyfrifoldebau personol hyn yn cael ei asesu gan y Cadeirydd, â chymorth gan Gyfarwyddwr Cyffredinol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol / Prif Weithredwr GIG Cymru.

Cafodd statws uwchgyfeirio BIP CTM ei newid i Ymyrraeth wedi'i Thargedu ar gyfer 'Arweinyddiaeth a Diwylliant', 'Llywodraethu Ansawdd' ac 'Ymddiriedaeth a Hyder', ac i 'Fesurau Arbennig' ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth. Taflodd hynny oleuni ar y meysydd lle'r oedd angen **gwneud gwelliannau ar frys**.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae **newid amlwg wedi bod er mwyn gwreiddio ansawdd yng nghanol y gwaith o wneud penderfyniadau a gwelliannau**. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi croesawu'r cymorth y mae ei arolygwyr wedi ei gynnig iddo i lywio gwaith datblygu a gwella ledled y Bwrdd Iechyd, yn eu plith Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru, Yr Uned Gyflawni, Y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth a'n Cyngor Iechyd Cymuned.

Er nad oeddwn yn fy swydd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol, mae **fy nghyngor i'r Bwrdd yn cael ei lywio gan adroddiadau ynghylch rheolaethau mewnol** a dderbynnir gan bob un o Bwyllgorau'r Bwrdd, ac yn enwedig y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch a'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu. Mae'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch hefyd yn rhoi sicrwydd ynghylch materion yn ymwneud â llywodraethu ansawdd, **llywodraethu clinigol, diogelwch cleifion a phrofiad y claf**. Yn ogystal â hyn, mae adroddiadau a gyflwynir gerbron y Bwrdd gan y Tîm Gweithredol yn nodi risgiau i'w hystyried.

Mae pob un o Bwyllgorau'r Bwrdd wedi ystyried nifer o adroddiadau yn ymwneud â'u meysydd gweithgarwch yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac mae hyn wedi cynnwys amrywiaeth gynhwysfawr o adroddiadau **archwilio mewnol ac allanol, adroddiadau ynghylch safonau proffesiynol** ac adroddiadau gan **gyrff rheoleiddio** eraill. Mae'r Pwyllgorau wedi cynghori hefyd ar feysydd ar gyfer datblygiadau strategol lleol a chenedlaethol ac ar feysydd polisi newydd hefyd.

Un adroddiad allweddol a dderbyniwyd yn ystod 2019/2020 oedd Adolygiad ar y Cyd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch Llywodraethu Ansawdd.

Lluniwyd yr **ymateb rheoli** yn sgil hynny â chymorth AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru, ac roedd yn canolbwyntio ar sicrhau bod yr ymateb yn cyd-fynd â'r Rhaglen ar gyfer Gwella yn dilyn trefniadau Ymyrraeth wedi'i Thargedu a Mesurau Arbennig. Roedd **y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch** a'r **Bwrdd wedi craffu** ar ymateb rheoli BIP CTM, ac mae'r ymateb yn parhau i gael ei fonitro trwy Bwyllgorau'r Bwrdd. Bydd Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru 2020 hefyd yn gwneud sylwadau yn ei gylch.

Mae pob Pwyllgor yn ysgrifennu adroddiad blynyddol am ei fusnes ac am y meysydd y mae wedi mynd i'r afael â hwy dros y flwyddyn ddiwethaf, a chaiff y rhain eu hadrodd i'r Bwrdd yn gyhoeddus.

Mae'r broses o graffu ar y trefniadau hyn yn cael ei llywio gan y prosesau mewnol a gyfeiriwyd atynt eisoes, ond mae hefyd yn cael ei llywio gan **y barnau annibynnol a diduedd a fynegir gan ystod o gyrff** allanol i'r Bwrdd Iechyd. Ymhlith y cyrff hyn y mae:

- Y Comisiynydd Plant
- Cyngorau Iechyd Cymuned
- Llywodraeth Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Archwilio Mewnol (Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru)
- Cronfa Risg Cymru
- Cyrff achrededig eraill
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Y FARN ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2019 - 2020


Mae Archwilio Mewnol yn rhoi llif o sicrwydd i'r Prif Weithredwr (Dros Dro) a'r Bwrdd, trwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ynghylch y system o reolaeth fewnol. **Cytunodd y Prif Weithredwr (Dros Dro) ac Archwilio Mewnol ar raglen o waith archwilio**, a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg, ac a ddarparwyd gan Wasanaeth Archwilio Mewnol Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn unol â'r safonau archwilio mewnol yn y sector cyhoeddus. Nod y rhaglen o waith archwilio yw canolbwyntio ar risgiau sylweddol a blaenoriaethau lleol ar gyfer gwelliannau.

Mae barn gyffredinol Pennaeth Archwilio Mewnol am lywodraethu, rheoli risg a rheolaeth yn deillio o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at **ddarlun y Bwrdd ynghylch sicrwydd** wrth iddo adolygu effeithiolrwydd a chefnogi'n hymdrech i wella'n barhaus.

Mae'r angen i ymateb i bandemig COVID-19 wedi effeithio ar y rhaglen hon. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried hyn wrth lunio ei farn Archwilio Mewnol derfynol, fel yr amlinellir yn yr adran sy'n dilyn.

BARN PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL

Mae sgôp barn Pennaeth Archwilio Mewnol yn gyfyngedig i'r meysydd hynny a archwilir yn y cynllun archwilio ar sail risg, y cytunodd uwch-reolwyr arno ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Dylid dehongli asesiad Pennaeth Archwilio Mewnol yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol, a dylid ei ystyried yn sbardun mewnol ar gyfer gwelliannau parhaus. Mae barn Pennaeth Archwilio Mewnol ynghylch digonolrwydd cyffredinol ac effeithiolrwydd fframwaith llywodraethu, rheolaeth risg a rheolaeth y sefydliad i'w gweld isod.

 - + Melyn	Gall y Bwrdd fod yn rhesymol o sicr fod y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd hynny sydd wedi eu hadolygu, wedi eu dylunio'n addas ac wedi eu rhoi ar waith yn effeithiol. Mae angen ar rai materion o ran dylunio rheolaethau a chydymffurfio dderbyn sylw gan reolwyr, ag effaith fach i gymedrol ar wireddu risgiau gweddilliol hyd nes y cânt eu dileu.
---	---

Wrth lunio ei farn, mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi arfer ei **farn broffesiynol** ac wedi defnyddio canllawiau '*Supporting Criteria for the Overall Opinion*' a gynhyrchwyd gan y Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd ac a rannwyd â rhanddeiliaid.

Casgliad Pennaeth Archwilio Mewnol yw y gellir adrodd bod *sicrwydd rhesymol* yn yr wyth maes sicrwydd.

Dyma'r dystiolaeth y seiliwyd y farn gyffredinol arni:

- Asesiad o'r ystod o farnau unigol yn sgil aseiniadau archwilio ar sail risg a geir yn y Cynllun Archwilio Mewnol, sydd wedi eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg trwy gydol y flwyddyn. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y meysydd hyn, ynghyd â chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol i gynnydd wrth fwrw ymlaen â gwelliannau rheolaeth.
- Canlyniad aseiniadau archwilio sydd wedi eu rhoi mewn fersiwn drafft i'r sefydliad cyn i'r farn hon gael ei chyhoeddi, ond sydd eto i gael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Canlyniadau unrhyw waith archwilio yn ymwneud â'r Safonau Iechyd a Gofal gan gynnwys, os yw'n briodol, y dystiolaeth a ddefnyddiodd y Bwrdd i lunio ei ddatganiad mewn perthynas â'r hunanasesiad ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd.
- Adolygiadau eraill o sicrwydd, sy'n effeithio ar farn Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys gwaith archwilio a wnaed mewn sefydliadau eraill.

Fel y nodwyd uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi eu casglu ynghyd i greu **darlun o sicrwydd** ar gyfer yr wyth maes sicrwydd, ac ar sail hwnnw mae'r Cynllun Archwilio Mewnol ar sail risg yn cael ei lunio. Yn ogystal,

mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi **ystyried risgiau gweddilliol** ym mhob un o'r aseiniadau hynny lle adroddwyd bod sicrwydd cyfyngedig.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad blynyddol, mae gwaith ar y gweill i gynnal wyth adolygiad oedd wedi dod i ben oherwydd COVID-19. Yr adolygiadau yw: rheoli risg; arbedion effeithlonrwydd; rheolaeth ariannol clinig Pen-y-bont ar Ogwr; defnyddio asiantaethau meddygol; trefniadau rheoli yn y Gyfarwyddiaeth Iechyd Meddwl ac adolygiadau o gydymffurfiaeth; a meddygaeth a threfniadau rheoli yng Nghyfarwyddiaeth Gofal yr Henoed yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac adolygiadau o gydymffurfiaeth. Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried y gwaith a gwblhawyd hyd yma yn y meysydd hyn, ac **nid yw o'r farn bod unrhyw faterion a ganfuwyd a fyddai'n effeithio ar y farn flynyddol**. Bydd canlyniad yr adolygiadau hyn yn cael ei gynnwys ym marn Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/2021 os penderfynir yn dilyn asesiad ei bod yn briodol parhau â'r adolygiadau hyn.

Mae COVID-19 wedi effeithio ymhellach ar waith archwilio yn 2020, ac o'r herwydd nid oedd yr adolygiad yn y Gyfarwyddiaeth Acíwt a Damweiniau ac Achosion Brys wedi mynd i'r afael â chydymffurfiaeth yn llawn. Yn ogystal, nid oedd Archwilio Mewnol yn gallu dechrau dau adolygiad yn ymwneud ag ansawdd data ac â'r safonau iechyd a gofal.

Yn ystod y flwyddyn, yn achos un adolygiad yn ymwneud â staffio meddygol ym Mhen-y-bont ar Ogwr, penderfynwyd defnyddio adnoddau archwilio at ddiben gwahanol a chynnal adolygiad o'r defnydd o asiantaethau meddygol yn lle.

Mae 2019/2020 wedi bod yn flwyddyn o **newidiadau mawr a heriau** i'r Bwrdd Iechyd. Yn sgil trosglwyddo gwasanaethau ar gyfer ardal Pen-y-bont ar Ogwr, a monitro agosach gan Lywodraeth Cymru a darparwyr sicrwydd eraill, mae'r Cynllun Archwilio Mewnol wedi bod yn hyblyg trwy gydol y flwyddyn. O'r herwydd, cytunodd Archwilio Mewnol i **ohirio nifer o adolygiadau ac i'w cynnal yn y dyfodol**. Mae'r adolygiadau arfaethedig o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer pwyllgorau, o ddiwylliant sefydliadol ac o adrodd am ddigwyddiadau wedi eu gohirio, oherwydd bod darparwyr sicrwydd eraill wedi gwneud gwaith yn y meysydd hyn. Byddwn yn dychwelyd at waith arfaethedig ynghylch y gronfa drawsnewid, cleifion allanol, yr adolygiad o wella parhaus ac adolygiad o gyfalaf Sunnyside wrth gynllunio yn y dyfodol. Yn olaf, bydd ffocws yr adolygiad arfaethedig o'r tair cyfarwyddiaeth yn ardal Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei ailystyried pan fydd y Model Gweithredu newydd wedi cael ei roi ar waith a'i wreiddio.

Cynhaliodd Archwilio Mewnol ddau adolygiad nad oeddent yn y cynllun gwreiddiol ar gyfer 2019/2020. Roedd yr un cyntaf yn adolygiad dilynol o ddiogelwch seibr, oedd yn dilyn adolygiad sicrwydd cyfyngedig a wnaed yn 2018/2019. Roedd yr ail un yn adolygiad yn ymwneud ag offer meddygol yn Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mhen-y-bont ar Ogwr.


Yn yr achosion hynny lle gwnaed newidiadau i'r cynllun archwilio, cyflwynwyd

y rhesymau dros y newidiadau hyn i'r Pwyllgor Archwilio iddo eu hystyried a'u cymeradwyo. Er gwaethaf y ffaith bod y farn yn gyfyngedig i'r meysydd hynny oedd yn destun adolygiad, mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried **effaith y newidiadau i'r cynllun wrth ddod i'w farn gyffredinol.**

Crynodeb Cyffredinol

Cyflwynwyd cyfanswm o 44 archwiliad i Bwyllgor Archwilio a Risg y Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn. Mae Ffigur 1 isod yn dangos y sgoriau sicrwydd a nifer yr archwiliadau ar gyfer pob un.

Ffigur 1 - Crynodeb o Ganfyddiadau Archwiliadau



Mae'r tabl isod yn nodi'r adolygiadau hynny lle na all y Bwrdd ond cymryd **sicrwydd cyfyngedig** bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheolaeth risg a rheolaeth fewnol, yn y meysydd sy'n destun adolygiad, wedi eu dylunio a'u gweithredu'n effeithiol. Mae materion mwy arwyddocaol yn gofyn sylw gan reolwyr, gydag effaith gymedrol ar y tebygolrwydd y caiff risgiau gweddilliol eu gwireddu hyd nes y cânt eu datrys.

Adroddiadau Sicrwydd Cyfyngedig yn Rhaglen 2019-2020:

Teitl yr Adolygiad	Amcan
Y broses rheoli apwyntiadau a llwybr y claf Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2019.	Nod Archwilio Mewnol oedd sicrhau bod y weithdrefn yn cyd-fynd â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ystyriodd Archwilio Mewnol anghenion hyfforddiant, a yw Cyfarwyddiaethau yn dilyn y canllawiau am lwybr y claf ai peidio, a chofnodi gwybodaeth mewn da bryd.
Cadw staff nyrsio - Gwaith dilynol Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Awst 2019.	Nod yr adolygiad oedd gweld faint o gynnydd a wnaed wrth gyflawni argymhellion a roddwyd ym mis Hydref 2018. Casgliad yr adroddiad gwreiddiol oedd Sicrwydd Cyfyngedig.

Teitl yr Adolygiad	Amcan
Cynllunio swyddi Ymgynghorwyr Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Hydref 2019.	Nod cyffredinol yr archwiliad oedd gwerthuso a phennu digonolrwydd y systemau a'r rheolaethau oedd ar waith mewn perthynas â chynllunio swyddi ymgynghorwyr. Canolbwyntiasom ar gydymffurfiaeth â'r canllawiau a'r gweithdrefnau sydd ar waith. Ystyriasom fonitro'r gwaith o gynllunio swyddi ac adrodd hefyd.
Diogelwch Tân - Ysbyty Tywysoges Cymru - Gwaith Dilynol Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ym mis Mai 2020.	Nod yr adolygiad hwn oedd canfod statws yr argymhellion a roddwyd yn yr archwiliad Diogelwch Tân a wnaed ym mis Tachwedd 2018 yn Ysbyty Tywysoges Cymru (cwlblhawyd yr archwiliad ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gynt yn 2018/19). Casgliad yr adroddiad gwreiddiol oedd Sicrwydd Cyfyngedig.
Amserlennu Sifftiau Meddygol a Deintyddol (Drafft)	Ystyriodd yr adolygiad hwn ddwy elfen o amserlennu sifftiau. Ystyriasom y gwaith rheoli prosiect ar gyfer gweithredu'r system amserlennu sifftiau electronig unigol, a'r defnydd o systemau amserlennu sifftiau presennol.
Adolygiad o Gyfarwyddiaeth y Pen a'r Gwddf - Trefniadau Rheoli - Llywodraethu a Risg (Drafft) <i>Noder: Cyhoeddwyd y barnau am lywodraethu a risg, y gweithlu, a chynllunio a pherfformiad mewn adroddiad cyfunedig.</i>	Nod cyffredinol ein hadolygiad oedd asesu digonolrwydd y trefniadau rheoli gyda ffocws penodol ar lywodraethu a risg. Ystyriasom strwythurau llywodraethu, gan gynnwys llinellau adrodd trwy bwyllgorau a grwpiau. Edrychasom hefyd ar drefniadau rheoli risg, gyda ffocws ar gofnodi, asesu, monitro ac adrodd am risg.

Fel y nodwyd yn y tabl uchod, roedd dau archwiliad ar y gweill ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn (Amserlennu Sifftiau Meddygol a Deintyddol a'r Adolygiad o Gyfarwyddiaeth y Pen a'r Gwddf - Trefniadau Rheoli - Llywodraethu a Risg).

Pan dderbynnir adroddiad o sicrwydd cyfyngedig, bydd y Bwrdd Iechyd yn sicrhau bod y swyddog arweiniol perthnasol yn ystyried y canfyddiadau manwl, ac yn sicrhau bod y Pwyllgor Archwilio a Risg yn derbyn yr adroddiad. Bydd y swyddog arweiniol hefyd yn bresennol yn y Pwyllgor.

Bydd archwiliad dilynol hefyd yn cael ei gomisiynu gan y Pwyllgor Archwilio a Risg i'w gynnwys yn rhaglen archwilio 2020/2021 fel y bo'n briodol.

Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adolygu'r ymateb rheoli i bob adroddiad sicrwydd trwy'r broses Tracio Archwiliadau, a bydd cynnydd wrth gymryd camau rheoli yn cael ei fonitro ym mhob cyfarfod hyd nes bod pob cam wedi ei gymryd yn briodol.

Mae Adroddiadau Archwilio Mewnol, sy'n amlinellu'r ymatebion rheoli a'r camau manwl y cytunwyd eu cymryd i fynd i'r afael â'r gwendidau, yn cael eu cyhoeddi gyda phapurau'r Pwyllgor Archwilio a Risg sydd ar gael yma.

LLYWODRAETHU GWYBODAETH

Mae gennym **gyfrifoldebau llym i sicrhau bod data a gwybodaeth bersonol yn cael eu storio'n ddiogel**. Mae pob digwyddiad yn ymwneud â Llywodraethu Gwybodaeth yn cael ei archwilio a'i adolygu gan y Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth. Yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2019 - Mawrth 2020, **cafodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wybod am 14 digwyddiad difrifol yn ymwneud â diogelwch data personol**. Nid oedd angen cymryd camau pellach yn achos 13 digwyddiad, ac rydym yn aros am gadarnhad ynghylch barn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar y mater olaf.

Mewn perthynas â'r digwyddiadau uchod, derbyniwyd yr argymhellion canlynol y gweithredodd yr adrannau a'r meysydd gwasanaeth perthnasol arnynt:

- Parhau i **adolygu'r gweithdrefnau a'r trefniadau diogelwch**. Dylai unrhyw brosesau newydd a roddir ar waith gael eu cynnwys mewn hyfforddiant parhaus
- Parhau i **ymchwilio i'r hyn sy'n achosi'r fath ddigwyddiadau** â'r nod o ganfod sut a pham y digwyddodd y mater, ynghyd â chanfod pa gamau y mae angen eu cymryd i atal y mater rhag codi eto
- **Atgoffa pob aelod o staff o'i rwymedigaethau** o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)
- Adolygu cynnwys **hyfforddiant am ddiogelu data** a sut mae'r hyfforddiant hwn yn cael ei ddarparu. Dylid darparu hyfforddiant diweddarau bob blwyddyn neu o leiaf bob dwy flynedd
- Cynnal **gwiriadau ar hap** i sicrhau cywirdeb a diogelwch y wybodaeth y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei phrosesu
- Rhoi dull o 'ddysgu gwersi' ar waith er mwyn i staff fod yn wiliadwrs
- Adolygu'r broses o drosglwyddo cofnodion i'r ganolfan storio feddygol, er mwyn gweld a oes modd canfod a chyflawni unrhyw welliannau.

Rydym wedi parhau â gwaith i **godu ymwybyddiaeth** ledled y sefydliad ac rydym wedi **cyfathrebu â staff**. Rydym wedi datblygu a gweithredu system mewnol **newydd** hefyd ar gyfer y Gofrestr o Asedau Gwybodaeth ac wedi sicrhau **ymarferion llywodraethu gwybodaeth da** trwy godi ymwybyddiaeth am hyfforddiant gorfodol ar lein trwy becyn e-ddysgu. Mae'r nifer o staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant wedi cynyddu'n raddol hefyd, **a'r lefel o gydymffurfiaeth erbyn diwedd Mawrth 2020 oedd 75.31%**. Dyma gynnydd o 4.85% dros y 12 mis diwethaf.

Mae ffocws wedi bod ar feysydd allweddol sy'n effeithio fwyaf ar gydymffurfiaeth, ac mae'r canlynol wedi ei wneud neu ar y gweill:

- Sefydlwyd Pwyllgor Digidol a Data a gyfarfu am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2020. Bydd y Pwyllgor hwn yn **craffu ar adroddiadau am ansawdd data**
- **Mae rhybuddion, briffiadau, argymhellion a gwybodaeth am gydymffurfiaeth yn cael eu rhoi'n rheolaidd i reolwyr a staff er mwyn monitro perfformiad a mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder**
- Parhau i lenwi ein **Cofrestr o Asedau Gwybodaeth**
- Cyflwynwyd **Gweithdrefn ar gyfer Tor Diogelwch Data Personol** (er mwyn bodloni'r gofynion ar gyfer adrodd am achosion o dor diogelwch data o fewn 72 awr), ynghyd ag **Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data** er mwyn bodloni'r gofynion i sicrhau ymagwedd "preifatrwydd trwy ddyluniad" a gofynion atebolrwydd
- Datblygwyd **hysbysiadau preifatrwydd**

Yn ogystal â hyn, mae **cyngor a chymorth** wedi eu rhoi i Feddygon Teulu, fferyllwyr, optegwyr a deintyddion sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol, fel contractwyr annibynnol, dros y data sydd yn eu meddiant y gellid eu defnyddio i adnabod pobl.

Mae'r Rheoliad Diogelu Data Personol yn adeiladu ar y Ddeddf Diogelu Data flaenorol, ac mae'n cryfhau hawliau unigolion a'r gofynion i sicrhau bod data personol yn cael eu prosesu mewn modd priodol a diogel. Yn ystod 2019-2020, rydym wedi parhau â gwaith i **godi ymwybyddiaeth** ledled y sefydliad ac rydym wedi **cyfathrebu â staff**. Rydym wedi sicrhau **ymarferion llywodraethu gwybodaeth da** hefyd trwy godi ymwybyddiaeth am hyfforddiant gorfodol ar lein trwy becyn e-ddysgu. Mae'r nifer o staff **sydd wedi cwblhau hyfforddiant** wedi cynyddu'n raddol hefyd, a'r lefel o gydymffurfiaeth erbyn diwedd Mawrth 2020 oedd 75.31%. Dyma gynnydd o 4.85% dros y 12 mis diwethaf.

Deddf Rhyddid Gwybodaeth / Deddf Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o **ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus**, a'i hegwyddor sylfaenol yw y dylai unrhyw wybodaeth nad yw'n bersonol, a gedwir gan gorff cyhoeddus, fod ar gael yn rhwydd, oni bai bod eithriad yn berthnasol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ymatebion gael eu prosesu cyn pen 20 diwrnod gwaith, oni bai bod angen ystyried diddordeb y cyhoedd ehangach o ran datgelu darn o wybodaeth neu fod angen mwy o eglurder ynghylch y wybodaeth sydd ei heisiau. Casgliad archwiliad mewnol yn ystod chwarter cyntaf 2019/20, a archwiliodd y trefniadau yn eu lle ar gyfer rheoli Rhyddid Gwybodaeth yn BIP CTM, oedd '**sicrwydd sylweddol**'.

Rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020, cafwyd 471 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth. O'r ceisiadau hyn, nid oedd eithriadau'n berthnasol i 346 o'r ymatebion, ac **ymatebwyd i 441 ohonynt o fewn yr amserlen o 20 diwrnod gwaith** sy'n cyfateb i lefel cydymffurfiaeth o 93%. Mae proses apelio ar waith hefyd pan fo'r rheiny sy'n cael ymateb yn anfodlon o hyd, a chafwyd dau gais o'r fath yn ystod y cyfnod. Os bydd yr un sydd wedi gofyn am

Tudalen 52 o 100

wybodaeth yn anfodlon o hyd am y ffordd y deliwyd â'i gais, yna mae hawl ganddo i gyfeirio'r mater at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Ni dderbyniasom yr un cais am adolygiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r holl ymatebion i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth i'w gweld yma: <http://cwmtaf.wales/foi/disclosure-log/>

PARHAD BUSNES A'N PARODRWYDD AR GYFER ARGYFYNGAU


Mae'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau **gynnal cynlluniau argyfwng** er mwyn sicrhau y gall y sefydliad ymateb ar y cyd â'i asiantaethau partner, pe bai sefyllfa o'r fath yn codi, boed hyn ar ffurf camau **i atal neu i leihau'r risg o argyfwng** neu ei effeithiau. Y Prif Weithredwr (Dros Dro) sy'n gyfrifol am gyflawni rhwymedigaethau'r Bwrdd Iechyd dan y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl, ond o ddydd i ddydd, y rheolwyr arweiniol sy'n sicrhau y caiff cynlluniau presennol eu diweddarau'n unol â newidiadau deddfwriaethol ac arweiniad cenedlaethol.

Mae ein Cynlluniau Digwyddiadau Mawr wedi eu dylunio i gael eu defnyddio mewn ysbytai aciwt. Rydym wedi parhau â'n dyletswyddau fel ymatebw'r Categori 1, ac rydym wedi parhau i gryfhau ein lefel o gydymffurfiaeth trwy ddatblygu ymhellach ein pecyn hyfforddiant i Gomanderiaid Arian, sef hyfforddiant a roddir i uwch-reolwyr a chyfarwyddwyr gweithredol sy'n mynd i hyfforddiant Aur Cymru.

Mae gennym **Gynllun Ymateb i Anafedigion Torfol i Gymru Gyfan**, sydd â'r nod o gydlyn adnoddau'r GIG a chyfathrebu ledled Cymru er mwyn rheoli digwyddiad mawr lle mae nifer fawr o anafedigion. Mae'r gwaith hwn wedi cynnwys Llywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru ac adnoddau arbenigol, ac mae wedi ei ymgorffori yn ein IMTP.


Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cymryd rhan lawn ym mharatodau'r GIG ar gyfer Brexit, ac mae'n **cydymffurfio â gofynion adrodd** Llywodraeth Cymru a Fforwm Lleol Cymru Gydnherth y De.

Nodweddwyd rhan olaf 2019/2020 gan y datganiad bod **COVID-19** yn bandemig. Arweiniodd hynny at **newid digynsail yn y ffordd y mae'r GIG yn gweithio**, a hynny'n genedlaethol ac yn lleol. Wrth ymateb i Bandemig COVID-19, dilynodd y Bwrdd Iechyd fframwaith cydnabyddedig ar gyfer ymateb mewn modd strategol, tactegol a gweithredol.



Trefnwyd yr ymateb gan ddefnyddio strwythur gorchymyn Aur, Arian ac Efydd, a nodwyd cyfrifoldebau pob lefel yn glir.

Ffurfiodd **Fframwaith Pandemig** yr **ymateb cychwynnol i COVID-19**, a datblygid hwnnw wrth i'r argyfwng fynd yn ei flaen.



Yn gynnar yn ei ymateb i'r argyfwng, sefydlodd y Bwrdd Iechyd Gynllun Dirprwyo Aur, Arian ac Efydd, er mwyn cefnogi hyblygrwydd a'r gallu angenrheidiol i wneud penderfyniadau yn gyflym iawn. Roedd hyn wedi sicrhau ymagwedd hyblyg at y broses o wneud penderfyniadau, a hynny wrth gynnal arferion llywodraethu da. Defnyddiodd y broses hon Asesiadau o'r Effaith ar Ansawdd, fel yr amlinellwyd uchod.

Y CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG (I M TP)

Cynnydd wrth gyflawni IMTP 2019-2020:

Cafodd y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu ddiweddariadau chwarterol yn ystod 2019-2020 ynghylch cynnydd wrth gyflawni blaenoriaethau allweddol yr IMTP. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cyhoeddi ei bapurau pwyllgor ar ei wefan, ac felly mae **diweddariadau am gynnydd** ar gael yn hawdd i'r cyhoedd trwy ddilyn y ddolen [hon](#).

Er mwyn monitro cynnydd y Bwrdd Iechyd wrth gyflawni IMTP 2019-2022, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd BIP CTM wrth gyflawni'r IMTP ar gyfer 2019-2020, a hynny trwy **ffurflenni adrodd safonol**. Mae'r ffurflenni adrodd safonol hyn yn cael eu diweddarau bob chwarter ac yn cael eu cyflwyno wythnos ar ôl i'r chwarter perthnasol ddod i ben. Mae'r Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu hefyd yn derbyn y ffurflenni hyn, ac maent ar gael trwy ddilyn y ddolen uchod.

Yr IMTP ar gyfer 2020-2023:

Er i lawer iawn o waith gael ei wneud rhwng Ionawr a Mawrth 2020 i orffen yr IMTP ar gyfer 2020-2023, mae angen cymryd i ystyriaeth yr heriau yn sgil pandemig rhyngwladol **COVID-19** o ran sut y gall y cynllun a baratowyd cyn COVID-19 gael ei roi ar waith.

Mae IMTP 2020-2023 yn nodi **ein huchelgais** cyn yr **her enfawr** hon ac mae'n ein galluogi i gofnodi sefyllfa waelodlin, a hynny ym meysydd perfformiad a chyllid yn enwedig. Nid yw felly yn cymryd i ystyriaeth effaith anochel a sylweddol COVID-19 ar allu'r sefydliad i weithredu'r cynllun ar gyfer 2020-2021. Yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf, yr her i'r sefydliad fydd sut rydym yn newid ac yn addasu'r cynllun hwn wrth aros yn driw ar yr un pryd i'n gwerthoedd a'n gweledigaeth.

O ystyried heriau presennol a pharhaus COVID-19, rhoddodd Llywodraeth Cymru wybod i'r Bwrdd Iechyd ar 18 Mawrth 2020 ei bod yn **oedi'r broses IMTP arferol**. Mae hyn yn golygu na all Llywodraeth Cymru ystyried IMTP y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2020-2023 a gyflwynwyd yn unol â Fframwaith Cynllunio'r GIG, a hynny oherwydd na ellir cwblhau'r broses asesu ar hyn o bryd. Mae'n bwysig nodi fodd bynnag fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun **a gymeradwywyd** ar gyfer 2019-2022.

Dim ond trwy gydweithio'n agos â'n pobl, ein partneriaid a'n cymunedau lleol y gall y Bwrdd Iechyd gyflawni ei amcanion a gwneud gwelliannau, a hynny yn unol â'n **safonau ansawdd a pherfformiad** ac o fewn pecyn cyllid sy'n rhoi gwerth am arian ac sy'n fforddiadwy. Byddai hyn yn ddigon anodd mewn blwyddyn 'nodweddiadol' i'r GIG. Fodd bynnag, wrth i ni nesáu at gyfnod o ansicrwydd anferthol a chyfnod o weithredu oherwydd pandemig rhyngwladol COVID-19, bydd ein staff, ein partneriaid a'n poblogaeth ar brawf mewn ffordd nas gwelwyd am genedlaethau.

Ym mis Mai 2020, gosododd Llywodraeth Cymru **Fframwaith Gweithredu newydd** i GIG Cymru i ymateb i'r heriau parhaus y mae pob corff iechyd yn eu hwynebu oherwydd COVID-19. Yn dilyn hynny, datblygodd BIP CTM Fframwaith Gweithredu hefyd o'r enw '*Resetting CTMUHB*' a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym Mai 2020. Mae'r Fframwaith yn amlinellu sut y bydd BIP CTM yn cydbwysu'r risg o ddarparu gwasanaethau i'n cymunedau ag amddiffyn staff, gan ganolbwyntio ar atal niwed. Y disgwyl yw mai monitro agos ar y cynnydd a wneir wrth gyflawni amcanion Model Gweithredu '*Resetting CTMUHB*' fydd prif ffocws y Bwrdd a Llywodraeth Cymru trwy gydol 2020.

Mae perfformiad ariannol y Bwrdd Iechyd, hyd at 31 Mawrth 2020, i'w weld yn adran cyfrifon y Bwrdd Iechyd.

CYFARWYDDYDAU GWEINIDOGOL A CHYLCHLYTHYRAU

Cafwyd un [Cyfarwyddyd Gweinidogol](#) gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019/2020, fel a ganlyn:

- Cyfarwyddyd Gweinidogol a dderbyniwyd ym mis Rhagfyr 2019 mewn perthynas â'r **goblygiadau treth i'r cynlluniau pensiwn i glinigwyr**. Gweithredodd BIP CTM ar y Cyfarwyddyd Gweinidogol mewn perthynas â goblygiadau

i'r cynlluniau pensiwn i glinigwyr. Cwblhawyd y gwaith hwn gan Dîm Gweithlu Meddygol BIP CTM a'r Gyflogres ym Mhartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Ni chodwyd unrhyw broblemau mawr wrth weithredu'r cyfarwyddyd.


Mae Cylchlythyrau Iechyd Cymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2019/2020 wedi cael eu **cofnodi'n ganolog**, ac mae Cyfarwyddwr Gweithredol wedi cael ei aseinio i'r gwaith o oruchwylio unrhyw gamau y mae angen eu cymryd. Lle y bo'n briodol, mae'r Bwrdd neu un o'i Bwyllgorau hefyd yn cael gweld cynnwys y Cylchlythyrau.

Mae **Gweithdrefn System Darlledu Rhybuddion Diogelwch** wedi ei datblygu a'i gweithredu, er mwyn sicrhau bod pob Cylchlythyr yn cael ei fonitro hyd nes bod pob cam gweithredu wedi ei gymryd. Mae pob Cylchlythyr wedi cael ei ystyried a'i weithredu'n llawn fel y bo'n briodol.

CYDRADDOLDEB, AMRYWIAETH A HAWLIAU DYNOL

Ein nod yw codi ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb a'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o'r prif ffrwd yn ein busnes beunyddiol. Un o'r prif ffyrdd yr ydym yn gwneud hynny yw trwy'r broses o lunio Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, proses sydd wedi gwreiddio'n dda. Yn ogystal, rydym wedi gwneud nifer o fentrau sy'n bodloni 'dyletswyddau penodol' o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac wedi gwneud gwelliannau yn unol â'r 'ddyletswydd gyffredinol' hefyd.

Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol



Rydym wedi datblygu a chytuno ar **ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd** hefyd ar gyfer 2020-24, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2020 yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Cyhoeddwyd y cynllun yn dilyn proses hir o drafod â'n cymunedau ac â'n staff a sefydliadau cenedlaethol. Mae ein hamcanion yn cymryd i ystyriaeth adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, A Yw Cymru'n Decach, ynghyd â safonau a datblygiadau cenedlaethol, ac mae'n adeiladu ar waith da sydd wedi ei wneud eisoes.

Y Rhwydwaith i Bobl Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol* (LHDT).

Mae gennym rwydwaith LHDT sydd wedi ennill ei phlwyf erbyn hyn ac sy'n cynnwys 145 aelod o staff, cymheiriaid ac aelodau allanol. Yn ogystal, rydym wedi datblygu ystod eang o adnoddau i staff LHDT. Rhoddasom gefnogaeth i staff Pen-y-bont ar Ogwr gyda digwyddiad Pride yng nghlinig Angleton, Ysbyty Glanrhyd ym mis Tachwedd 2019 (Diwrnod Coffa Pobl Drawsrywiol), oedd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o faterion LHDT ymhlith pobl hŷn. Yn ogystal, darparasom sesiynau hyfforddiant ynghylch ymwybyddiaeth o faterion Trawsrywiol* yng ngofal sylfaenol a gofal eilaidd, i gefnogi staff wrth iddynt weithredu'r llwybr newydd ar gyfer hunaniaeth o ran rhywedd.

Hyderus o ran Anabledd

Y llynedd, roeddem yn falch o lwyddo i gael ein hachredu fel Arweinydd yn rhan o gynllun Hyderus o ran Anabledd. Dyma'r lefel uchaf yng nghynllun y Llywodraeth sydd â'r nod o gynyddu nifer y bobl anabl sy'n cael eu recriwtio ac sydd wedyn yn aros yn y sefydliad. Mae Grŵp Cyfeirio Anabledd gennym hefyd sydd newydd ei sefydlu. Mae'r grŵp hwn yn datblygu ac yn blaenoriaethu rhaglen waith, ac mae'n cyfrannu at y broses o lunio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

Cyfieithu ar y pryd ar lein

Mae cyfieithu ar y pryd ar lein yn cael ei ddefnyddio'n helaeth ym maes gofal sylfaenol a gofal eilaidd ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain ac ieithoedd eraill gan gynnwys y Gymraeg, ac mae'n darparu mynediad ar unwaith at gyfieithwyr ar y pryd 24/7. Mae wedi hwyluso mynediad at apwyntiadau ym maes gofal sylfaenol i bobl fyddar, ac o'r herwydd mae modd wedyn i bobl fyddar gyfrannu at eu cynlluniau gofal. Rydym wedi cyflwyno offer clywed mewn wardiau ac adrannau hefyd, ac wedi darparu sesiynau hyfforddiant ar y Safonau i Gymru Gyfan.

Mynediad at Wasanaethau Iechyd Meddwl

Aethom ati i lansio pecyn cymorth Nam ar y Synhwyrâu ar gyfer Iechyd Meddwl ym mis Ionawr 2020, oedd â'r nod o wella mynediad defnyddwyr byddar i wasanaethau iechyd meddwl. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am golli golwg a chlyw. Cafodd ei ddatblygu a'i lansio mewn cydweithrediad â defnyddwyr gwasanaethau byddar a Chymdeithas Pobl Fyddar Prydain.

Y GYMRAEG

Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau **na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg**. Mae hyn yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Bwrdd Iechyd, Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 a Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7), a gyhoeddwyd ar 30 Tachwedd 2018. Mae'r Safonau'n seiliedig ar yr egwyddor na ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r Safonau hefyd yn darparu strwythur cyfreithiol sy'n **cryfhau hawliau** unigolion sy'n gweithio yn y GIG i ddefnyddio'r Gymraeg wrth gyfathrebu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion iaith pobl ac i wireddu dymuniadau defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio'r Gymraeg, ac mae wedi gwneud **cynnydd da** hyd yma yn gweithredu Safonau statudol y Gymraeg. Bydd yr adroddiad cyntaf ynghylch cydymffurfiaeth yn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg ym mis Medi 2020.

Mae dogfennau allweddol wedi eu llunio er mwyn cefnogi staff i gydymffurfio, yn eu plith **y Strategaeth Sgiliau Dwyieithog** i asesu'r gofynion o ran sgiliau

Cymraeg ar gyfer swyddi cyn iddynt gael eu hysbysebu. Rydym wedi gwneud cynnydd da hefyd gyda'r 'Cynnig Rhagweithiol', a drafodwyd yn strategaeth **Mwy na Geiriau** Llywodraeth Cymru. Rydym wedi cyflawni'r cynnydd hwn trwy hyfforddiant parhaus ynghylch ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn rhan o'r broses o Ymsefydlu Corfforaethol. Mae gwaith gyda Gofal Sylfaenol wedi cynnwys cefnogaeth gydag archwilio, hyfforddiant a recordio negeseuon llais. Bydd gwaith pellach gyda Gofal Sylfaenol yn cynnwys gweithredu polisi newydd er mwyn sicrhau bod **anghenion iaith y claf** yn cael eu hystyried.

Mae nifer y staff sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg wedi rhagori ar y disgwyliadau, ac roedd nifer da o fynychwyr ym mhob dosbarth yn yr ysbytai cyffredinol. Mae cyrsiau ar gyfer sgiliau Cymraeg yn y dderbynfa yr un mor boblogaidd. Mae ein gwaith cydweithredol gydag ysgolion, colegau, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Gyrfa Cymru yn parhau i gynig cyfleoedd i hyrwyddo gyrfaedd yn y GIG ac i ddenu siaradwyr Cymraeg i'r Bwrdd Iechyd. Canlyniad cydweithio diweddar â Menter Bro Ogwr oedd **Eisteddfod Iwyddiannus** iawn i'r henoed mewn cartrefi gofal ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Roedd y gwaith hwn hefyd yn rhan o brosiect ymchwil i werthuso effaith y Gymraeg a darpariaeth ddiwylliannol ar les **i gleifion gyda dementia**.

CASGLIAD

Mae 2019-2020 wedi bod yn **flwyddyn heriol** i BIP CTM. Ar 1 Ebrill 2019, sefydlwyd 'Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg' yn dilyn y newid i ffin y Bwrdd Iechyd.

Mae ein staff wedi bod yn cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu Gwerthoedd ac Ymddygiadau Newydd i wella diwylliant sefydliadol BIP CTM, ac i **hyrwyddo bod yn agored ac yn dryloyw** yn ein gwaith beunyddiol. Rydym yn ddiolchgar am gyfraniadau teuluoedd sydd wedi bod yn gweithio gyda ni i **rannau eu profiadau**. Rydym yn dysgu o'r profiadau hyn ac maent yn **llywio ein rhaglenni gwella**. Rydym hefyd yn ddiolchgar i'n **cymunedau sy'n gweithio gyda ni** i archwilio'r holl opsiynau i wella ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau cynaliadwy.

Mae llawer i'w gyflawni o hyd, ac mae'r Bwrdd Iechyd yn ymrwymedig i sicrhau bod y **mesurau gwella** a roddwyd ar waith a'r gwaith a wnaed i wella gwasanaethau ymhellach yn 2019-2020 yn parhau i ddwyn ffrwyth yn 2020-2021 a thu hwnt.

Yn dilyn y newid i'n statws uwchgyfeirio a mesurau Ymyrraeth wedi'i Thargedu, mae BIP CTM wedi gweithio'n galed i **wreiddio ansawdd** yng nghanol y gwaith o wneud penderfyniadau a gwella gwasanaethau, ac mae'r sefydliad **yn ymrwymedig i barhau i wneud hynny** wrth i 2020-2021 nesáu.

Mae pandemig COVID-19 hefyd wedi dod â heriau i bob un ohonom, ac **mae ein hymateb wedi effeithio'n sylweddol ar y sefydliad, ein staff a'r GIG**

ehangach, ac ar ein cymunedau a'r gymdeithas yn ei chyfanrwydd. Roedd angen ymateb newydd, dynamig a hyblyg, ac mae hyn wedi dod â sawl her, ond sawl cyfle hefyd. Yn ogystal, parhau y bydd yr angen i'r sefydliad a'n cymunedau ymateb i'r pandemig ac adfer ohono trwy gydol 2020/2021 a thu hwnt.

Byddaf yn sicrhau bod ein **Fframwaith Llywodraethu yn cefnogi'r angen hwn ac yn ymateb** iddo.

Roedd y system o reolaeth fewnol yn ei le am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, ac hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2019-2020.

Ni chanfuwyd **unrhyw broblemau sylweddol** o ran llywodraethiant yn ystod y cyfnod hwn, ar wahân i'r rhai a gyfeiriwyd atynt eisoes yn y ddogfen hon.



Llofnodwyd gan:.....

Prif Weithredwr (Dros Dro)

Dyddiad: 29 Mehefin 2020

ATODIAD 1
GWEITHGARWCH PWYLLGORAU BWRDD IECHYD
PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG(2019 / 2020)

Mae dolenni i adroddiadau blynyddol Pwyllgorau'r Bwrdd i'w gweld yn yr atodiad ar dudalen 61.

Bob blwyddyn, mae Pwyllgorau'r Bwrdd yn llunio Adroddiadau Blynyddol sy'n nodi'r materion yr oeddent wedi eu hystyried. Mae'r rhain yn mynd law yn llaw â hunanasesiad blynyddol ac adolygiad o gylch gorchwyl y Pwyllgorau, i sicrhau bod y cylch gorchwyl o hyd yn gywir ac yn berthnasol. Mae'r Pwyllgor yn anfon ei Adroddiad Blynyddol i'r Bwrdd unwaith y cytunir arno.

Cyfarfodydd o'r Bwrdd	Dyddiadau'r Cyfarfod	Y Prif Eitemau ar yr Agenda 2019-2020
BIP CTM Cyfarfod o'r Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus: Mae agendâu a phapurau cyfarfod ar gael yma	30.4.19 30.5.19 31.7.19 26.9.19 28.11.19 19.12.19 30.1.20 27.2.20 26.3.20	- Gwasanaethau Mamolaeth - Adolygiad ar y cyd y Colegau Brenhinol / Diweddariadau gan y Rhaglen Gwella Mamolaeth / Yr Adolygiad Annibynnol i Sut y Deliwyd ag Adroddiad y Fydwrraig Ymgynghorol - Adroddiadau crynhoi gan Bwyllgorau'r Bwrdd - Y Strategaeth Rheoli Risg / Y Gofrestr Risg Gorfforaethol / Cynigion Sicrwydd / Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd - Ymyrraeth wedi'i Thargedu - Y Rhaglen ar gyfer Gwella Parhaus - Y Dangosfwrdd Ansawdd / Adroddiad Profiad y Claf / Straeon y Cleifion / Diweddariad am Safonau'r Gymraeg - Y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r Adroddiad Blynyddol ynghylch Cydraddoldeb - Y Dangosfwrdd Perfformiad Integredig / Y Fframwaith Rheoli Perfformiad - Diweddariadau am y Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) - Y Rhwydwaith Trawma Mawr / Trawsnewid Rhanbarthol / Llawdriniaeth Thorasig i Oedolion - Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol / Yr Adroddiad Blynyddol / Rheolau Sefydlog - Gwerthoedd ac Ymddygiadau - Y Ddeddf Staff Nyrsio / Diweddariad ynghylch Gofal Nyrsio a Ariennir - Metrigau Gweithlu / Perthnasau rhwng cyflogaion - Diweddariadau am yr IMTP - Yr Adroddiad Cyllid / Diweddariad Cyfalaf / Diweddariad Ystadau - Y Strategaeth ar gyfer Gofalwyr a'r Adroddiad Blynyddol - Cytundeb Partneriaeth - Cynllunio ar gyfer y gaeaf - Llywodraethu Gwybodaeth - Adroddiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru / Llythyr Blynyddol - Y Strategaeth Iechyd a Gofal Integredig - Adroddiad Blynyddol AGIC / Adroddiad ar y Cyd AGIC a Swyddfa Archwilio Cymru o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd - Rhaglen De Cymru - Gwasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys - Diweddariadau gan Bwyllgor Partneriaeth Cydwasaethau GIG Cymru / Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys - Diweddariad am y Coronafeirws
Rhaglen Datblygu'r Bwrdd	25.4.19 27.6.19 29.8.19 31.10.19 19.12.19 27.2.20	- Diweddariad am Wasanaethau Mamolaeth - Trechu Bwlio ac Aflonyddu - Datblygu'r IMTP - Diweddariadau gan Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Phwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru - Goblygiadau ariannol y newid i'r ffin i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr - Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Sesiynau Datblygu'r Bwrdd (parhad)		- Adolygiad o Ddigwyddiadau Difrifol - Diweddariad am y bil Ansawdd ac Ymgysylltu - Hyfforddiant am ddynladdiad corfforaethol - Hyfforddiant am Ddiogelu / Rheoli Risgiau - Gwerthoedd ac Ymddygiadau - Y Model Gweithredu Newydd - Y Rhwydwaith Trawma Mawr - Diweddariad am statws Ymyrraeth wedi'i Thargedu / Mesurau Arbennig - Diweddariad am y Rhwydwaith Trawma Mawr - Ymweliadau â safleoedd
Cyfarfodydd o Bwyllgorau'r Bwrdd 2019-2020		
Pwyllgor	Dyddiad y cyfarfod	Y prif faterion a ystyriwyd
Archwilio a Risg Mae agendâu cyfarfodydd a phapurau ar gael yma	1.4.19 13.5.19 15.7.19 3.9.17 28.10.19 20.1.20 25.2.20	Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae ar gael yma .
Ansawdd a Diogelwch Mae agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gael yma	6.6.19 9.7.19 5.8.19 5.9.19 3.10.19 5.11.19 10.12.19 14.1.20 4.3.20	Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae ar gael yma .
Digidol a Data Mae agendâu a phapurau cyfarfod ar gael yma	6.2.20	Gan mai dim ond ar 6 Chwefror y cynhaliodd y Pwyllgor hwn ei gyfarfod cyntaf, nid yw wedi llunio Adroddiad Blynyddol eto.

Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau Mae agendâu a phapurau cyfarfod ar gael yma	3.4.19 24.7.19 30.10.19 10.2.20	Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae ar gael yma.
Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl Mae agendâu a phapurau cyfarfod ar gael yma	2.4.19 6.8.19 21.11.19 21.3.20	Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae ar gael yma.
Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu Mae agendâu a phapurau cyfarfod ar gael yma	18.4.19 23.5.19 20.6.19 25.7.19 19.9.19 24.10.19 21.11.19 21.1.20 20.2.20	Mae Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sy'n amlinellu gwaith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019, wedi cael ei gyhoeddi ar ein gwefan ac mae ar gael yma.
Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Mae agendâu a phapurau cyfarfod ar gael yma	28.11.19	Cyfarfu'r Pwyllgor hwn unwaith ag Ymddiriedolwyr y Bwrdd, er mwyn ystyried Cyfrifon Cronfeydd Elusennol Cyffredinol yr hen Gwm Taf a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019.
Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth	30.5.19 3.6.19 17.6.19 27.6.19 8.7.19 31.7.19	Ystyriodd y Pwyllgor hwn ystod o faterion yn ystod 2019-20, yn eu plith: - Penodi Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol - Penodi Cyfarwyddwr Cynllunio, Perfformiad a Phartneriaethau - Penodi Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd - Penodi Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gwasanaethau Clinigol

6.8.19 28.11.19 19.12.19 10.1.20 30.1.20 18.3.20 26.3.20	- Recriwtio Prif Weithredwr (Dros Dro) - Trefniadau cyflog i'r Tîm Gweithredol a Chyfarwyddwyr eraill y Bwrdd - Adroddiadau ynghylch cymorth gan Uwch-arweinwyr - Adroddiadau am gamau gweithredu yn sgil Sut y Delwyd ag adroddiad y Fydwaig Ymgynghorol
--	--

ATODIAD 2

PRESENOLDEB AELODAU O FWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG- CYFARFODYDD O'R BWRDD (2019 / 2020)

Mae manylion am ein cyfarfodydd o'r Bwrdd a lefelau presenoldeb Aelodau o'r Bwrdd i'w gweld o dudalen 61 ymlaen.

AELOD O'R BWRDD	SAFLE (MAES ARBENIGOL)	BWRDD / PWYLLGOR BWRDD	PRESENOLDEB YN Y BWRDD / PWYLLGOR BWYDD YN YSTOD 2019/2020	RÔL PENCAMPWR
Marcus Longley	Cadeirydd	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth (Cadeirydd) Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	8/9 11/11	
Maria Thomas	Is-gadeirydd	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Y Pwyllgor Archwilio a Risg Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (Cadeirydd) Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (Cadeirydd)	8/9 11/11 1/1 6/7 9/9 4/4 4/4	Diogelu Gwirfoddolwyr Iechyd Meddwl
Paul Griffiths	Aelod Annibynnol	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	8/9 6/11 1/1	Cyfalaf (Dyluniad) Cyfalaf (Amgylchedd)

	(Cyllid)	Y Pwyllgor Archwilio a Risg (Cadeirydd) Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, Y Pwyllgor Digidol a Data	7/7 9/9 0/1	Rheoli Ynni
James Hehir	Aelod Annibynnol (Cyfreithiol)	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, Y Pwyllgor Digidol a Data	9/9 1/1 8/9 1/1	Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, Trais ac Ymddygiad Ymosodol, y Gymraeg

AELOD O'R BWRDD	SAFLE (MAES ARBENIGOL)	BWRDD / PWYLLGOR BWRDD	PRESENOLDEB YN Y BWRDD / PWYLLGOR BWYDD YN YSTOD 2019/2020	RÔL PENCAMPWR
Jayne Sadgrove	Aelod Annibynnol (Prifysgol)	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusenol Y Pwyllgor Archwilio a Risg Pwyllgor Digidol a Data	9/9 8/11 1/1 6/7 1/1	
Mel Jehu	Aelod Annibynnol (Cymuned)	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusenol Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu (Cadeirydd), Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl Y Pwyllgor Digidol a Data	6/9 9/11 1/1 9/9 3/4 0/1	Iechyd Cyn-filwyr, Y Lluoedd Arfog
Keiron Montague	Aelod Annibynnol (Cymuned)	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusenol Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	6/9 4/11 1/1 2/5 5/8 0/3	Glendid, Hyllendid a Rheolau Heintiau, Safonau Iechyd Corfforaethol
Robert Smith (tan Fai 2019)	Aelod Annibynnol (Awdurdod Lleol)	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusenol Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	0/1 Ddim yn berthnasol Ddim yn Berthnasol 1/1 1/1	Rhoi Organau
Phil White (o Dachwedd 2019)	Aelod Annibynnol	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl	3/3 1/5 0/2 2/2 0/1	

Nicola Milligan	Aelod Annibynnol (Undebau Llafur)	Bwrdd Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	8/9 10/11 1/1 8/9 4/4	Materion Gweithlu
-----------------	---	---	--	-------------------

AELOD O'R BWRDD	SAFLE (MAES ARBENIGOL)	BWRDD / PWYLLGOR BWRDD	PRESENOLDEB YN Y BWRDD / PWYLLGOR BWYDD YN YSTOD 2019/2020	RÔL PENCAMPWR
Dilys Jouvenat	Aelod Annibynnol (Y Trydydd Sector)	Bwrdd; Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Cronfeydd Elusenol Y Pwyllgor Archwilio a Risg Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau	8/9 10/11 1/1 6/7 8/9 9/9 2/2	Codi pryderon, Gofalwyr, Oedolion Sy'n Agored i Niwed, Pobl Hŷn, Chwythu'r Chwiban
Ian Wells (O Fai 2019)	Aelod Annibynnol (TGCh a Llywodraethiant)	Bwrdd; Y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth, Y Pwyllgor Digidol a Data (Cadeirydd) Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, Y Pwyllgor Archwilio	8/9 6/11 1/1 4/5 1/2	Rhyddid Gwybodaeth , Llywodraeth u Gwybodaeth , Digideiddio
Gio Isingrini (Aelod Cyswllt)	Awdurdod Lleol	Bwrdd	6/9	Ddim yn berthnasol
Phil White (Aelod Cyswllt o'r Bwrdd tan fis Tachwedd 2019)	Awdurdod Lleol	Bwrdd	5/6	Ddim yn berthnasol
Sharon Richards (Aelod Cyswllt o'r Bwrdd o fis Chwefror 2020)	Cadeirydd - Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid)	Bwrdd	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
Suzanne Scott-Thomas (Aelod Cyswllt o'r Bwrdd o fis Gorffennaf 2019)	Cadeirydd, Fforwm Gweithwyr Iechyd Proffesiynol	Bwrdd	4/9	Ddim yn berthnasol

Allison Williams (Prif Weithredwr (Dros Dro) tan fis Mehefin 2019)	Prif Weithredwr (Dros Dro)	Bwrdd; Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol; Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys	AW-2/2 SH-7/7 AW-NA SH-1/1 AW 1/1 SH 4/5 SH 3/4	Ddim yn berthnasol
---	-------------------------------	---	--	-----------------------

AELOD O'R BWRDD	SAFLE (MAES ARBENIGOL)	BWRDD / PWYLLGOR BWRDD	PRESENOLDEB YN Y BWRDD / PWYLLGOR BWYDD YN YSTOD 2019/2020	RÔL PENCAMPWR
Sharon Hopkins (Penodwyd yn Brif Weithredwr (Dros Dro) ym Mehefin 2019)	Prif Weithredwr Dros Dro Prif Weithredwr (Dros Dro)	Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru		
Steve Webster	Cyfarwyddwr Cyllid a Chaffael	Bwrdd; Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol; Y Pwyllgor Archwilio a Risg (YB) ; Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu (YB) ;	8/9 0/1 7/7 8/9	Ddim yn berthnasol
Kelechi Nnoaham	Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd	Bwrdd Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (YB) Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (YB)	6/9 1/1 7/9 3/4	Ddim yn berthnasol
Alan Lawrie	Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl	Bwrdd; Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol; Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu (YB) ; Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (YB) ; Y Pwyllgor Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl (YB) ; Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (YB)	9/9 0/1 4/9 6/9 1/4 4/4	Ddim yn berthnasol
Ruth Treharne (tan fis Mawrth 2020)	Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad a Dirprwy Brif Weithredwr (Dros Dro) (tan fis Gorffennaf 2019)	Bwrdd; Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu, Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (YB)	6/9 1/1 7/9 4/4	Ddim yn berthnasol
Joanna Davies (tan Fai 2019)	Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Gweithlu a	Bwrdd; Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol; Y Pwyllgor Cyllid, Perfformiad a Gweithlu (YB) ;	JD-1/1 AP-7/8 AP-1/1 JD-1/1 AP-6/8	Ddim yn berthnasol

Anne Phillimore (o fis Mai 2019 - Mawrth 2019) Hywel Daniel (o fis Mawrth 2019)	Datblygu Sefydliadol	Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (YB) ; Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (YB)	JD-1/1 AP-5/9 JD-1/1 AP-1/2	
---	-------------------------	--	--	--

AELOD O'R BWRDD	SAFLE (MAES ARBENIGOL)	BWRDD / PWYLLGOR BWRDD	PRESENOLDEB YN Y BWRDD / PWYLLGOR BWYDD YN YSTOD 2019/2020	RÔL PENCAMPW R
Kamal Asaad (tan fis Medi 2019) Nick Lyons o fis Medi 2019)	Cyfarwyddwyr Meddygol	Bwrdd Y Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, Y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch (YB) Pwyllgor Iechyd Sylfaenol a Chymunedol, Iechyd y Boblogaeth a Phartneriaethau (YB)	KA-5/6 NL-5/5 KA-0/1 NL-1/1 KA-3/4 NL-3/5 KA-0/2 NL-0/1	Ddim yn berthnasol

Nodiadau Esboniadol

Oherwydd y Coronafeirws, nid oedd modd cynnal y cyfarfod o'r Bwrdd ar 26 Mawrth 2020 yn gyhoeddus. Yn ogystal, er mwyn gallu cadw pellter cymdeithasol ac osgoi teithio diangen, cynhaliwyd y cyfarfod fel cyfarfod â chworwm, lle mae'r Rheolau Sefydlog yn mynnu bod tri Aelod Annibynnol a thri Aelod Gweithredol yn bresennol. Llwyd dwyd i wneud hynny trwy fod rhai yn bresennol yn gorfforol ac eraill yn bresennol trwy delegynhadledd. O dan yr amgylchiadau, nid oedd angen ymddiheuriadau gan y rhai nad oeddent yn bresennol, ac felly nid yw'r cyfarfod hwn wedi ei adlewyrchu yng nghyfanswm nifer y cyfarfodydd o'r Bwrdd a gynhaliwyd. Roedd yn angenrheidiol i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Taliadau, oedd i'w gynnal ar yr un dyddiad, gyfarfod o dan yr un amgylchiadau. Nid yw'r cyfarfod hwnnw wedi ei adlewyrchu yn y ffigurau uchod ychwaith felly. Roedd y Pwyllgor Perfformiad, Cyllid a Gweithlu hefyd i fod i gyfarfod ym mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, cafodd y cyfarfod hwn ei ganslo oherwydd y Coronafeirws. Ystyr 'YB' yw 'yn bresennol'. Lle bo Aelod o'r Bwrdd yn cael ei benodi ran o'r ffordd trwy flwyddyn ariannol, dim ond yn rhai o'r cyfarfodydd llawn y byddai'r aelod hwn wedi gallu bod yn bresennol - yn y fath achosion, mae lefel y presenoldeb mewn cyfarfodydd wedi lleihau yn unol â hynny. Gall ffigurau presenoldeb is adlewyrchu newidiadau i'r trefniadau o ran aelodaeth yn ystod y flwyddyn hefyd.



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Adroddiad Taliadau a Staff 2019-2020

ADRODDIAD TALIADAU A STAFF

Mae gofyn i sefydliadau sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cyflog ei gyfarwyddwr uchaf ei dâl a chyflog canolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cyflog bandiedig y cyfarwyddwr uchaf ei dâl yn BIP CTM yn y flwyddyn ariannol 2019-2020 oedd £185,000 - £190,000. Roedd hyn 6.6 gwaith yn uwch na chyflog canolrifol y gweithlu sef £28,481. Y ffigwr ar gyfer 2018-19 oedd £180,000-£185,000, oedd 6.4 gwaith yn uwch na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £28,442.

Cyflog bandiedig y Swyddog Cyfrifol ym mlwyddyn ariannol 2019-2020 oedd £175,000 - £180,000 (2018-19, £180,000 - £185,000). Roedd hyn 6.2 gwaith yn uwch na chyflog canolrifol y gweithlu, sef £28,481. Roedd y ffigwr ar gyfer 2018-2019 6.4 gwaith yn fwy na'r cyflog canolrifol sef £28,442.

Yn 2019-20, roedd 22 o weithwyr y BIP yn derbyn tâl oedd yn uwch na chyflog y cyfarwyddwr uchaf ei dâl. Roedd y tâl hwn yn amrywio o £185,001 i £500,000. Yr ystod ar gyfer 2018-19 oedd £180,001 i £290,000, ac roedd hyn yn berthnasol i 10 unigolyn. Roedd terfyn uchaf yr ystod hon wedi cynyddu yn 2019-20 yn sgil y newid i ffin y BIP ym mis Ebrill 2019, ac yn sgil y gwaith i sicrhau parhad gwasanaeth unigolion cyn y newid i'r ffin mewn arbenigeddau lle mae prinder staff.

* At ddibenion diogelu data, nid oes modd cadarnhau'r union nifer o unigolion yr effeithiodd y cynnydd hwn yn yr ystod arnynt yn 2019-20, ond mae'n llai na 5.

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl anghyfunol ar sail perfformiad a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn gan y cyflogwr a gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod y pensiynau.

Wrth ganfod pwy yw'r Cyfarwyddwr uchaf ei dâl (y Prif Weithredwr), ystyriwyd y tâl a dderbyniodd y Cyfarwyddwyr sydd â chyfrifoldebau clinigol a chyfrifoldebau cyfarwyddwr.

Mae tâl a thelerau ac amodau cyflogaeth y Tîm Gweithredol a Rheolwyr Uchel Iawn a delir ar raddfa arbennig yn cael eu pennu gan Lywodraeth Cymru, ac mae BIP CTM yn talu staff yn unol â rheoliadau. Er eglurder, mae deiliaid y swyddi hyn yn gweithredu ar lefel y Bwrdd, ac maent yn dal swyddi statudol neu anstatudol.

Yn unol â'r rheoliadau, caiff y sefydliad ddyfarnu codiadau cyflog o fewn y raddfa dâl. Os ystyrir bod y cynnydd y tu hwnt i'r raddfa dâl, cyflwynir swydd ddisgrifiad i Lywodraeth Cymru i'r swydd gael ei gwerthuso. Mae canllawiau clir yn eu lle mewn perthynas â dyfarnu codiadau cyflog ychwanegol ac, yn ystod y flwyddyn, ni chytunwyd ar yr un codiad cyflog ychwanegol.

Mae'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo ceisiadau yn ymwneud â'r Cynllun Rhyddhau Cynnar Gwirfoddol. Mae pob aelod o'r Pwyllgor yn Aelodau Annibynnol o'r Bwrdd, gan gynnwys y Cadeirydd sydd hefyd yn Gadeirydd y Bwrdd Iechyd. Mae manylion am aelodaeth i'w gweld ar dudalennau 3-7 yn Adroddiad y Cyfarwyddwr.

Mae trefniadau presennol ar gyfer tâl yn y sector cyhoeddus yn berthnasol i bob aelod arall o staff, gan gynnwys aelodau o'r Tîm Gweithredol. Mae perfformiad aelodau o'r Tîm Gweithredol yn cael ei asesu yn erbyn amcanion personol

ac yn erbyn perfformiad cyffredinol y Bwrdd Iechyd. Mae gan bob Cyfarwyddwr Gweithredol yr hawl i logi car, o dan delerau ein cytundeb llogi ceir.

Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn cael eu cyflogi ar gontractau parhaol, y gellir eu terfynu trwy roi rhybudd dyladwy oni bai bod y diswyddo oherwydd rhesymau yn ymwneud â chamymddygiad.

Mae Uwch-Dîm Rheoli BIP CTM yn cynnwys y Cadeirydd, y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol, y Prif Swyddog Gweithredu a Chyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd. Mae manylion llawn am dâl uwch-reolwyr i'w gweld yn y tabl o dudalen 76 ymlaen.

Gall y cyfansymiau yn rhai o'r tablau canlynol fod yn wahanol i'r cyfansymiau yn y Cyfrifon Blynnyddol, gan eu bod yn cyfateb i staff oedd wedi eu cyflogi ar 31 Mawrth 2020. Mae'r Cyfrifon Blynnyddol ar y llaw arall yn dangos nifer cyfartalog y cyflogeion yn ystod y flwyddyn.

CYFANSODDIAD Y STAFF YN ÔL RHYW

Mae dadansoddiad o'r gweithlu yn ôl rhyw i'w weld yn y tabl canlynol. Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli'r sefyllfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020.

*CALI - Cyfwerth ag amser llawn

Rhyw Aelodau o Staff	Cyfrif pennau	CALI	% o'r Cyfrif pennau
Benywod	9986	8371.55	78.51
Gwrywod	2733	2259.55	21.49
Cyfanswm	12,719	10,631.10	100

Rhyw Aelodau o'r Bwrdd	Benywod	Gwrywod
Aelodau Annibynnol	4	7
Aelodau Cyswllt o'r Bwrdd	2 (Dau am ran o'r flwyddyn)	2 (Un am ran o'r flwyddyn)
Cyfarwyddwyr Gweithredol / Cyfarwyddwyr	8 (6 am ran o'r flwyddyn)	9 (3 am ran o'r flwyddyn)

CYFANSODDIAD Y STAFF YN ÔL GRŴP STAFF

Yn ystod 2019/2020, nifer cyfartalog y staff parhaol cyfwerth ag amser llawn oedd 10,420.05.
Cyfrifir nifer cyfartalog y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn trwy rannu nifer y cyflogeion cyfwerth ag amser llawn parhaol ym mhob wythnos o'r flwyddyn ariannol gan nifer yr wythnosau yn y flwyddyn ariannol.

Fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020	Benywod		Gwrywod		Cyfansymiau	
	CALI	Cyfrif pennau	CALI	Cyfrif pennau	CALI	Cyfrif pennau
Gweinyddol, Clerigol ac Aelodau o'r Bwrdd	1724.89	2022	333.94	345	2058.5	2367
Meddygol a Deintyddol	433.79	659	557.33	947	991.12	1606
Nyrsys a Bydwagedd Cofrestredig	3031.36	3397	305.72	321	3337.08	3718
Staff Gwyddonol, Technegol a Phroffesiynol	246.10	294	115.25	127	361.34	421
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	1638.54	1925	318.14	333	1956.68	2258
Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd	482.78	543	118.91	121	601.68	664
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	121.10	135	75.91	77	197.00	212
Ystadau a Chymorth	675.37	994	433.37	461	1108.74	1455
Myfyrwyr	17.63	17	1.00	1	18.63	18
Cyfanswm	8371.55	9986	2259.55	2733	10631.10	12719

DATA ABSENOLDEBAU SALWCH 2019 - 2020

Cyfradd absenoldebau salwch BIP CTM yn 2019/2020 oedd 6.22%. O'r herwydd, ni lwyddasom i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o gyfradd o 5% neu lai.

Gorbryder, straen a mathau eraill o salwch seiciatrig, ynghyd â phroblemau cyhyrsgerbydol, yw'r rhesymau mwyaf cyffredin o hyd dros absenoldebau salwch, ac maent yn cyfrif am 44.30% o'r holl absenoldebau. Mae rhaglen gynhwysfawr o waith ar y gweill gyda phartneriaid sy'n cynrychioli staff i fynd i'r afael ag absenoldebau salwch, a Pholisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith GIG Cymru i Gymru gyfan sy'n cael ei ddefnyddio i reoli absenoldebau o'r gwaith.

	2019/2020	2018/2019
Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd (Hirdymor):	179,886.46	119,240.85
Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd (Byrdymor):	56,657.47	35,456.34
Cyfanswm y Diwrnodau a Gollwyd:	236,543.93	154,697.19
Cyfanswm y Blynnyddoedd Staff a Gollwyd: (Nifer cyfartalog y staff mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod - Cyfwerth ag amser llawn)	10,420.05	7,310.85
Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd:	14.18	13.24
Cyfanswm y staff mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod (cyfrif pennau)	12,719	8353
Cyfanswm y staff mewn cyflogaeth yn ystod y cyfnod heb absenoldebau (cyfrif pennau)	4307	2775
Y ganran o staff heb unrhyw absenoldeb salwch:	37%	38%

POLISIŲAU STAFF

Yn ystod 2019/20, cafodd nifer o bolisiau a gweithdrefnau eu hadolygu, eu cymeradwyo neu eu cymeradwyo eto. Mae pob un polisi a gweithdrefn yn cael ei asesu ar gyfer ei effaith ar gydraddoldeb yn erbyn y naw nodwedd warchodedig, er mwyn sicrhau nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn pobl sy'n gwneud cais i weithio gyda ni neu sy'n cael eu cyflogi gennym. Mae pob un polisi a gweithdrefn ar gael ar ein gwefan [yma](#).

TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (A ARCHWILIWD) – UN FFIGWR CYFANSYMIOL AR GYFER TALIADAU

Mae'r Adroddiad Taliadau Staff hwn yn cynnwys un ffigwr cyfansymiol ar gyfer taliadau. Cyfrifir swm y buddion pensiwn ar gyfer y flwyddyn, sy'n cyfrannu at y ffigwr cyfansymiol unigol, ar sail cyngor gan Asiantaeth Pensiynau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG.

Mae'r swm a nodir yn y tabl o ran buddion pensiwn yn seiliedig ar y cynnydd mewn pensiynau cronedig wedi ei addasu ar gyfer chwyddiant. Fel arfer, bydd hyn yn cymryd i ystyriaeth flwyddyn ychwanegol o wasanaeth, ynghyd ag unrhyw newidiadau i dâl pensiynadwy. Nid yw hwn yn swm a dalwyd i unigolyn yn ystod y flwyddyn; cyfrifiad ydyw sy'n defnyddio gwybodaeth o'r tabl ynghylch buddion pensiwn. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigyrau hyn, e.e. newidiadau i gyflog rhywun, penderfyniad (ai peidio) gan rywun i dalu cyfraniadau ychwanegol i'r cynllun pensiwn o'i dâl, ynghyd â ffactorau eraill yn ymwneud â phrisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfarwydd.

Mae datgeliadau ynghylch cyflog a phensiwn yn adlewyrchu gwybodaeth yr uwch-reolwyr. Mae'r uwch-dîm rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol (Cyfarwyddwyr Anweithredol), y Prif Swyddog Gweithredu a'r Cyfarwyddwr Llywodraethiant Corfforaethol / Ysgrifennydd y Bwrdd.

TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (A ARCHWILIWYD) – UN FFIGWR CYFANSYMIOL AR GYFER TALIADAU (PARHAD)

Ffigwr Cyfansymiol Unigol Taliadau 2019-2020	Cyflogau	Buddion mewn nwyddau (trethadwy)	Buddion pensiwn	Buddion pensiwn	Buddion pensiwn	Cyfanswm
			Cynllun 1995	Cynllun 2008	Cynllun 2015	
	(bandiau o £5,000)	I'r £100 agosaf	I'r £1000 agosaf	I'r £1000 agosaf	I'r £1000 agosaf	(bandiau o £5,000)
<u>Cyfarwyddwyr Gweithredol</u>	£000	£00	£000	£000	£000	£000
Mrs A J Williams	195-200	0	1	Ddim yn berthnasol	21	215-220
<i>Prif Weithredwr tan 20 Awst 2019</i>						
Dr S Hopkins	145-150	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	145-150
<i>Prif Weithredwr Dros Dro o 24 Mehefin 2019 (Nodyn 1)</i>						
Mr S J Webster	165-170	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	165-170
<i>Cyfarwyddwr Cyllid (Nodyn 1)</i>						
Mr A Lawrie	115-120	72	0	Ddim yn berthnasol	28	150-155
<i>Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl</i>						
Mr K Asaad	75-80	2	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	75-80
<i>Cyfarwyddwyr Meddygol tan 30 Medi 2019</i>						
Mr N Lyons	90-95	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	90-95
<i>Cyfarwyddwyr Meddygol tan 1 Hydref 2019 (Nodyn 1)</i>						
Mr G Dix	130-135	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	130-135
<i>Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigaeth a Gofal Cleifion o 1 Ebrill 2019 (Nodyn 1)</i>						
Ms R Treharne	125-130	0	0	Ddim yn berthnasol	30	155-160
<i>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad</i>						
<i>Dirprwy Brif Weithredwr tan 18 Mehefin 2019</i>						
Mrs J M Davies	20-25	0	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	20-25
<i>Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol tan 31 Mai 2019.</i>						
Mrs A Phillimore	100-105	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	100-105
<i>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o 7 Mai 2019 tan 6 Mawrth 2020 (Nodyn 1)</i>						
Mr H Daniel	10-15	0	132	Ddim yn berthnasol	23	160-165
<i>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o 1 Mawrth 2020</i>						
Dr K Nnoaham	130-135	0	Ddim yn berthnasol	0	32	160-165
<i>Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd</i>						
Miss E Wilkinson	45-50	0	164	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	210-215
<i>Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd o 1 Tachwedd 2019</i>						
<u>Cyfarwyddwyr</u>						
Mr J Palmer	125-130	0	Ddim yn	0	32	155-160

			berthnasol			
<i>Prif Swyddog Gweithredol</i>						
Mr R Williams	80-85	0	0	Ddim yn berthnasol	9	90-95
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd tan 30 Tachwedd 2019</i>						
Miss G Roberts	5-10	0	0	Ddim yn berthnasol	19	25-30
<i>Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro tan 1 Mai 2019</i>						
Mrs G Galletly						
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd o 28 Gorffennaf 2019.</i>	65-70	0	66	0	25	155-160

<i>Aelodau Annibynnol</i>						
Yr Athro M Longley	55-60	0				55-60
<i>Cadeirydd</i>						
Mrs M Thomas	45-50	0				45-50
<i>Is-gadeirydd</i>						
Mr P Griffiths	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol (Cyllid)</i>						
Mr J Hehir	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol (Cyfreithiol)</i>						
Mr I Wells	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol (TGCh) o 8 Mai 2019</i>						
Mr K Montague	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol (Cymunedol)</i>						
Y Cyng. R Smith	0-5	0				0-5
<i>Aelod Annibynnol (Cynrychiolydd Etholedig) tan 8 Mai 2019</i>						
Y Cyng. P White	5-10	0				5-10
<i>Aelod Annibynnol (Cynrychiolydd Etholedig) o 15 Tachwedd 2019</i>						
Mr M Jehu	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol</i>						
Mrs J Sadgrove	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol (Prifysgol)</i>						
Mrs N D Milligan	0	0				0
<i>Aelod Annibynnol (Staff) (Nodyn 2)</i>						
D Jouvenat	10-15	0				10-15
<i>Aelod Annibynnol (Trydydd Sector)</i>						
Ni dderbyniodd Mr G Isingrini, Y Cyng. P White (tan 14/11/2019) na Ms S Scott-Thomas (o 18/07/2019) dâl am eu rolau fel Aelodau Cyswllt						
Nid yw Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl pensiynadwy am eu haelodaeth o'r Bwrdd.						
Mae'r ffigyrau cyflog yn ymwneud â thâl am y cyfnod fel Uwch-reolwr yn unig.						
Mae buddion pensiwn yn ymwneud â buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn, nid buddion a gronnwyd yn ystod gwasanaeth fel uwch-reolwr yn unig.						
Mae buddion mewn nwyddau yn golygu car ar log (nodir y ffigyrau hyn mewn cannoedd).						
<i>Nodiadau</i>						
1. - Dewisodd Dr S Hopkins, Mr S Webster, Mr N Lyons, Mr G Dix a Mrs A Phillimore beidio â bod yn rhan o drefniadau pensiwn y GIG yn ystod 2019-20.						
2. - Mae Mrs ND Milligan yn aelod o staff llawn amser yn y sefydliad y telir cyflog iddi, ac nid yw'n derbyn unrhyw dâl ychwanegol fel Aelod Annibynnol.						

Ffigwr Cyfansymiol Unigol Taliadau 2018-2019	Cyflogau	Buddion mewn nwyddau (trethadwy)	Buddion pensiwn	Buddion pensiwn	Buddion pensiwn	Cyfanswm
			Cynllun 1995	Cynllun 2008	Cynllun 2015	
	(bandiau o £5,000)	I'r £100 agosaf	I'r £1000 agosaf	I'r £1000 agosaf	I'r £1000 agosaf	(bandiau o £5,000)
	£000	£00	£000	£000	£000	£000
<u>Cyfarwyddwyr Gweithredol</u>						
Mrs A J Williams	180-185	0	6	Ddim yn berthnasol	43	225-230
<i>Y Prif Weithredwr</i>						
Mr S J Webster	160-165	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	160-165
<i>Cyfarwyddwr Cyllid o 11 Ebrill 2018 (Nodyn 1)</i>						
Mr M Thomas	0-5	0	25	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	25-30
<i>Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro tan 10 Ebrill 2018 (Nodyn 2)</i>						
Mr A Lawrie	110 - 115	95	655	Ddim yn berthnasol	28	800-805
<i>Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (Nodyn 3)</i>						
Mr K Asaad	155-160	0	8	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	165-170
<i>Cyfarwyddwyr Meddygol</i>						
Mrs L Williams	40-45	0	0	0	0	40-45
<i>Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigaeth a Gofal Cleifion tan 10 Awst 2018</i>						
Mrs A Hopkins	70-75	0	0	0	0	70-75
<i>Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion Dros Dro o 3 Medi 2018</i>						
Ms R Treharne	130-135	0	0	Ddim yn berthnasol	30	160-165
<i>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad</i>						
<i>Dirprwy Brif Weithredwr</i>						
Mrs J M Davies	125-130	0	0	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	125-130
<i>Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</i>						
Dr K Nnoaham	125-130	0	Ddim yn berthnasol	6	31	165-170
<i>Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd</i>						
<u>Cyfarwyddwyr</u>						
Mr J Palmer	125-130	0	Ddim yn berthnasol	1	30	155-160
<i>Prif Swyddog Gweithredol (Nodyn 4)</i>						
Mr R Williams	95-100	0	0	Ddim yn berthnasol	24	120-125
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd (Nodyn 5)</i>						

Miss G Roberts	45-50	0	64	Ddim yn berthnasol	20	130-135
Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro o 1 Medi 2018.						
<u>Aelodau Annibynnol</u>						
Yr Athro M Longley	55-60	0				55-60
Cadeirydd						
Mrs M Thomas	45-50	0				45-50
Is-gadeirydd						
Mr P Griffiths	10-15	0				10-15
Aelod Annibynnol (Cyllid)						
Mr J Hehir	10-15	0				10-15
Aelod Annibynnol (Cyfreithiol)						
Dr C B Turner	10-15	0				10-15
Aelod Annibynnol (TGCh / Llywodraethu Gwybodaeth) tan 31 Rhagfyr 2018						
Mr K Montague	10-15	0				10-15
Aelod Annibynnol (Cymunedol)						
Y Cyng. R Smith	10-15	0				10-15
Aelod Annibynnol (Cynrychiolydd Etholedig)						
Mr M Jehu	10-15	0				10-15
Aelod Annibynnol						
Mrs J Sadgrove (née Dowden)	0	0				0
Aelod Annibynnol (Prifysgol) (Nodyn 6)						
Mrs G Jones	0	0				0
Aelod Annibynnol (Staff) tan 11 Ebrill 2018 (Nodyn 7)						
Mrs N D Milligan	0	0				0
Aelod Annibynnol (Staff) o 19 Awst 2018 (Nodyn 8)						
D Jouvenat	5-10	0				5-10
Aelod Annibynnol (Trydydd Sector) o 30 Awst 2018						
Ni dderbyniodd Mr G Isingrini, Mrs C Llewellyn (01/04/2018-21/02/2019), Mrs C Kiernan (01/04/2018- 07/05/2018) na’r Cyng. P White (01/12/2018- 31/03/2019) dâl am eu rôl fel Aelodau Cyswllt.						
Nid yw Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl pensiynadwy am eu haelodaeth o’r Bwrdd.						
Mae’r ffigyrau cyflog yn ymwneud â thâl am y cyfnod fel Uwch-reolwr yn unig.						
Mae buddion pensiwn yn ymwneud â buddion a gronnwyd yn ystod y flwyddyn, nid buddion a gronnwyd yn ystod gwasanaeth fel uwch-reolwr yn unig.						
Mae buddion mewn nwyddau yn golygu car ar log (nodir y ffigyrau hyn mewn cannoedd).						
Nodiadau						
1 - Dewisodd S Webster beidio â bod yn rhan o drefniadau pensiwn y GIG yn ystod y flwyddyn adrodd.						
2 - Derbyniodd Mr M Thomas dâl ychwanegol am ddyletswyddau ychwanegol.						
3 - Penodwyd Mr A Lawrie i’r swydd hon yn barhaol ar 21 Rhagfyr 2018 ar ôl dal y swydd ar sail dros dro er 21 Ionawr 2018.						
4 - Penodwyd Mr J Palmer i’r rôl hon yn barhaol ar 21 Rhagfyr 2018 ar ôl dal y swydd ar sail dros dro er 1 Chwefror 2018.						
5 - Roedd Mr R Williams yn absennol o 24 Medi 2018 tan 26 Mawrth 2019						
6 - Nid yw Mrs J Sadgrove (née Dowden) yn derbyn tâl gan BIP Cwm Taf Morgannwg am ei rôl fel Aelod Annibynnol.						
7 - Roedd Ms G Jones yn aelod llawn amser a pharhaol o staff yn y sefydliad y telid cyflog iddi, ac ni dderbyniodd dâl ychwanegol fel Aelod Annibynnol.						
8 - Mae Mrs ND Milligan yn aelod llawn amser a pharhaol o staff yn y sefydliad y telir cyflog iddi,ac nid yw’n derbyn tâl ychwanegol fel Aelod Annibynnol.						

TABLAU DATGELU CYFLOGAU A PHENSIYNAU (A ARCHWILIWDYD) – AELODAU O’R BWRDD A GORUWCH-REOLWYR

Buddion pensiwn 2019-2020	Cynnydd gwirionedd mewn pensiwn ar oedran pensiwn	Cynnydd gwirioneddol yn lwmp swm y pensiwn ar oedran pensiwn	Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2020	Lwmp swm a gronnwyd ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2020	Gwerth trosglwyddo cyfatebol ar 31 Mawrth 2020	Gwerth trosglwyddo cyfatebol ar 31 Mawrth 2019	Cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod	Cyfraniad y cyflogwr i bensiwn rhanddeiliaid
Enw a theitl	(bandiau o £2,500) £000	(bandiau o £2,500) £000	(bandiau o £5,000) £000	(bandiau o £5,000) £000	£000	£000	£000	£000
<u>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</u>								
<u>Cyfarwyddwyr Gweithredol</u>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mrs A J Williams	0-2.5	0-2.5	50-55	160-165	1198	1143	11	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mrs A J Williams	0-2.5	0	10-15	0	170	142	5	0
<i>Prif Weithredwr tan 20 Awst 2019 (Nodyn 1)</i>								
Dr S Hopkins	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
<i>Prif Weithredwr Dros Dro o 24 Mehefin 2019 (Nodyn 2)</i>								
Mr S J Webster	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
<i>Cyfarwyddwr Cyllid (Nodyn 2)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mr A Lawrie	0	0	40-45	130-135	967	924	21	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr A Lawrie	0-2.5	0	10-15	0	141	106	16	0
<i>Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl</i>								
Mr K Asaad	5-7.5	57.5-60	55-60	320-325	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	0
<i>Cyfarwyddwyr Meddygol o 30 Medi 2019 (Nodyn 3)</i>								
Mr N Lyons	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
<i>Cyfarwyddwyr Meddygol (o 1 Hydref 2019 Nodyn 2)</i>								
Mr G Dix	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
<i>Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigaeth a Gofal Cleifion o 1 Ebrill 2019 (Nodyn 2)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Ms R Treharne	0	0	45-50	145-150	1,117	1095	0	0
Cynllun Pensiwn 2015 Ms R Treharne	0-2.5	0	5-10	0	85	49	16	0
<i>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad</i>								
<i>Dirprwy Brif Weithredwr tan 18 Mehefin 2019 (Nodyn 4)</i>								
Mrs J M Davies	0	7.5-10	35-40	190-195	Ddim yn berthnasol	1058	Ddim yn berthnasol	0
<i>Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol tan 31 Mai 2019 (Nodyn 5)</i>								
Mrs A Phillimore	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
<i>Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o 7 Mai 2019 tan 6 Mawrth 2020 (Nodyn 2)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mr H Daniel	0-2.5	0-2.5	15-20	45-50	227	134	8	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr H Daniel	0-2.5	0	5-10	0	64	46	0	0

Cyfarwyddwr Dros Dro y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol o 1 Mawrth 2020 (Nodyn 6)								
Cynllun Pensiwn 2008 Dr K Nnoaham	0	0	10-15	0	149	144	2	0
Cynllun Pensiwn 2015 Dr K Nnoaham	2.5-5	0	10-15	0	139	104	13	0
Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd								
Cynllun Pensiwn 1995 Miss E Wilkinson	2.5-5	7.5-10	30-35	95-100	750	549	75	0
Cyfarwyddwr Therapiau a Gwyddorau Iechyd o 1 Tachwedd 2019								

<u>Cyfarwyddwyr</u>								
Cynllun Pensiwn 2008 Mr J Palmer	0	0	0-5	0	18	17	0	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr J Palmer	2.5-5	0	10-15	0	132	99	12	0
<i>Prif Swyddog Gweithredol (Nodyn 7)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mr R Williams	0	65-67.5	30-35	230-235	Ddim yn berthnasol	945	Ddim yn berthnasol	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr R Williams	0	12.5-15	0-5	15-20	Ddim yn berthnasol	38	Ddim yn berthnasol	0
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd tan 30 Tachwedd 2019 (Nodyn 8 a 9)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Miss G Roberts	0	0	25-30	85-90	638	664	0	0
Cynllun Pensiwn 2015 Miss G Roberts	0-2.5	0	5-10	0	93	70	1	0
<i>Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro tan 1 Mai 2019</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mrs G Galletly	0-2.5	5-7.5	15-20	55-60	354	289	40	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mrs G Galletly	0-2.5	0	5-10	0	78	54	6	0
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro o 28 Gorffennaf 2019 (Nodyn 10)</i>								
Nodiadau:								
1. - Trosglwyddodd Mrs A J Williams o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Chwefror 2016.								
2. - Dewisodd Dr S Hopkins, Mr S Webster, Mr N Lyons, Mr G Dix a Mrs A Phillimore beidio â bod yn rhan o drefniadau pensiwn y GIG yn ystod 2019-20.								
3. - Ymddeolodd Mr K Assad yn ystod 2019-20, ac roedd yn hŷn na'r oedran ymddeol arferol i aelodau o Gynllun 1995 yn 2018-19. O'r herwydd, nid yw Gwerthoedd Trosglwyddo Sy'n Cyfateb i Arian Parod yn berthnasol								
4. - Trosglwyddodd Ms R Treharne o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Hydref 2017.								
5. - Ymddeolodd JM Davies yn ystod 2019-20, felly nid yw Gwerth Trosglwyddo Sy'n Cyfateb i Arian Parod yn berthnasol								
6. Trosglwyddodd Mr H Daniel o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Ebrill 2015.								
7.- Trosglwyddodd Mr J Palmer o Gynllun Pensiwn 2008 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Ebrill 2015.								
8. Trosglwyddodd Mr R Williams o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Hydref 2017.								
9. - Ymddeolodd Mr R Williams yn ystod 2019-20, felly nid yw Gwertho Trosglwyddo Sy'n Cyfateb i Arian Parod yn berthnasol								
10. Trosglwyddodd Mrs G Galletly o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Ebrill 2015.								
Mae Cynllun Pensiwn y GIG, sy'n agored i bob aelod o staff yn y GIG, yn gofyn i bob aelod gyfrannu ar raddfa gyda gwahanol haenau, o gyfraniadau sy'n cyfateb i 5% o dâl pensiynadwy hyd at gyfraniadau o 14.5% yn dibynnu ar gyfanswm enillion yr aelod. Mae'r cyflogwr wedyn yn cyfrannu 20.68%. Pennir tâl pensiynadwy gan nifer y blynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy, ac mae'n gysylltiedig â lefel enillion/cyflog terfynol yr aelod ar adeg ei ymddeoliad. Mae cyfraniadau gan Gyfarwyddwyr Gweithredol yn gwbl gyson â Chynllun Pensiwn safonol y GIG. Cyfrifir buddion pensiwn ar yr un sail i bob aelod.								
Gan nad yw Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl pensiynadwy am eu dyletswyddau ar y Bwrdd, ni fydd unrhyw wybodaeth ynghylch pensiynau i Aelodau Annibynnol.								
Gwerthoedd Trosglwyddo Sy'n Cyfateb i Arian Parod								
Y Gwerth Trosglwyddo Sy'n Cyfateb i Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn yn dilyn asesiad actiwaraid y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ynghyd â phensiwn unrhyw briod dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun, ac yn dewis trosglwyddo'r buddion cronedig i'w gynllun blaenorol. Mae'r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn dangos y buddion y mae unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth o'r cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd, nid o ganlyniad i'w wasanaeth mewn rôl uwch yn unig (sef yr hyn y mae'r datganiad hwn yn berthnasol iddi). Mae'r ffigyrau GTCAP a manylion eraill am bensiynau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall y mae'r unigolyn wedi eu trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod yn sgil prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â'r canllawiau a'r fframwaith gan Sefydliad a Chyfadrn yr Actiwariaid.								
Cynnydd gwirioneddol mewn GTCAP								

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn GTCAP a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae'n cymryd i ystyriaeth werth y pensiwn cronedig yn dilyn chwyddiant ynghyd â chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall), ac mae'n defnyddio ffactorau prisiau'r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod. Ym mis Awst 2019, newidiodd y dull a ddefnyddid i gyfrifo'r GTCAP, er mwyn cael gwared ar yr addasiad ar gyfer Lleiafswm Pensiwn Gwarantedig (LIPG). Byddai cyfrifo'r cynnydd gwirioneddol yn y GTCAP, ar gyfer unigolion â hawl i LIPG, yn effeithio ar y gwerthoedd a ddatgelwyd (cynlluniau 1995 a 2008 yn bennaf).

Buddion Pensiwn 2018-2019	Cynnydd gwirionedd mewn pensiwn ar oedran pensiwn	Cynnydd gwirioneddol yn lwmp swm y pensiwn ar oedran pensiwn	Cyfanswm y pensiwn a gronnwyd ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2019	Lwmp swm a gronnwyd ar oedran pensiwn ar 31 Mawrth 2020	Gwerth Trosglwyddo Cyfatebol ar 31 Mawrth 2019	Gwerth Trosglwyd do Cyfatebol ar 31 Mawrth 2018	Cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo sy'n cyfateb i arian parod	Cyfraniad y cyflogwr i bensiwn rhanddeiliaid
Enw a theitl	(bandiau o £2,500)	(bandiau o £2,500)	(bandiau o £5,000)	(bandiau o £5,000)	£000	£000	£000	£000
<i>Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg</i>	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<i>Cyfarwyddwyr Gweithredol</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mrs A J Williams	0-2.5	0-2.5	50-55	160-165	1143	992	121	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mrs A J Williams	2.5-5	0	10-15	0	142	83	30	0
<i>Prif Weithredwr (Nodyn 1)</i>								
Mr S J Webster	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	1484	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol
<i>Cyfarwyddwr Cyllid o 11 Ebrill 2018 (Nodyn 2)</i>								
Mr M Thomas	0-2.5	0-2.5	20-25	60-65	476	385	2	0
<i>Cyfarwyddwr Cyllid Dros Dro tan 10 Ebrill 2018</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mr A Lawrie	30-32.5	2.5-5	40-45	125-130	924	776	125	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr A Lawrie	0-2.5	0	5-10	0	106	67	22	0
<i>Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl</i>								
Mr K Asaad	0-2.5	2.5-5	65-70	200-205	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	0
<i>Cyfarwyddwyr Meddygol (Nodyn 3)</i>								
Mrs L Williams	0	0	40-45	160-165	Ddim yn berthnasol	1,254	Ddim yn berthnasol	0
<i>Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion tan 10 Awst 2018 (Nodyn 4)</i>								
Mrs A Hopkins	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	Ddim yn berthnasol	
<i>Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gofal Cleifion Dros Dro o 3 Medi 2018 (Nodyn 5)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Ms R Treharne	0	0	50-55	150-155	1,095	961	105	0
Cynllun Pensiwn 2015 Ms R Treharne	0-2.5	0	0-5	0	49	14	16	0
<i>Cyfarwyddwr Cynllunio a Pherfformiad</i>								
<i>Dirprwy Brif Weithredwr (Nodyn 6)</i>								
Mrs J M Davies	0-2.5	0-2.5	45-50	135-140	1,058	923	89	0
<i>Cyfarwyddwr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol</i>								
Cynllun Pensiwn 2008 Dr K Nnoaham	0-2.5	0	10-15	0	144	116	24	0
Cynllun Pensiwn 2015 Dr K Nnoaham	0-2.5	0	5-10	0	104	62	22	0
<i>Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd</i>								
<i>Cyfarwyddwyr</i>								
Cynllun Pensiwn 2008 Mr J Palmer	0-2.5	0	0-5	0	17	14	3	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr J Palmer	0-2.5	0	5-10	0	99	62	17	0
<i>Prif Swyddog Gweithredol (Nodyn 7)</i>								
Cynllun Pensiwn 1995 Mr R Williams	0	0	40-45	125-130	945	855	64	0
Cynllun Pensiwn 2015 Mr R Williams	0-2.5	0	0-5	0	38	11	13	0
<i>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd (Nodyn 8)</i>								

(Nodyn 9)								
Cynllun Pensiwn 1995 Miss G Roberts	0-2.5	2.5-5	30-35	90-95	664	527	71	0
Cynllun Pensiwn 2015 Miss G Roberts	0-2.5	0	5-10	0	70	43	9	0
<i>Ysgrifennydd y Bwrdd Dros Dro o 1 Medi 2018.</i>								

Nodiadau:
1. - Trosglwyddodd Mrs A J Williams o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Chwefror 2016.
2 - Dewisodd S Webster beidio â bod yn rhan o drefniadau pensiwn y GIG yn ystod 2018-19.
3. - Mae Mr K Asaad yn hŷn na’r oedran ymddeol arferol i aelodau o Gynllun Pensiwn 1995, ac felly nid yw GTCAP yn berthnasol.
4. - Ymddeolodd Ms L Williams ar 12 Awst 2018, felly nid yw GTCAP yn berthnasol.
5. - Mae Mrs A Hopkins yn aelod o’r Ymddiriedolaeth Arbedion Cyflogaeth Genedlaethol (NEST). Mae’r BIP yn cyfrannu at y cynllun NEST ar gyfer yr aelod hwn. Nid oedd modd i’r BIP gael gafael ar wybodaeth ynghylch buddion pensiwn gan NEST mewn pryd i’w chyhoeddi yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, gan mai dim ond £403 a dalwyd mewn cyfraniadau gan y cyflogwr ar gyfer y cynllun hwn, ni ddisgwylir i’r buddion pensiwn fod yn sylweddol.
6. - Trosglwyddodd Ms R Treharne o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Hydref 2017 7.
7.- Trosglwyddodd Mr J Palmer o Gynllun Pensiwn 2008 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Ebrill 2015.
8. - Trosglwyddodd Mr R Williams o Gynllun Pensiwn 1995 i Gynllun Pensiwn 2015 ar 1 Hydref 2017. 9.- Roedd Mr R Williams yn absennol o’r gwaith rhwng 24 Medi 2018 a 26 Mawrth 2019.
Mae Cynllun Pensiwn y GIG, sy’n agored i bobl aelod o staff yn y GIG, yn gofyn i bob aelod gyfrannu ar raddfa gyda gwahanol haenau, o gyfraniadau sy’n cyfateb i 5% o dâl pensiynadwy hyd at gyfraniadau o 14.5% yn dibynnu ar gyfanswm enillion yr aelod. Mae’r cyflogwr wedyn yn cyfrannu 14.3%. Pennir tâl pensiynadwy gan nifer y blynyddoedd o wasanaeth pensiynadwy, ac mae’n gysylltiedig â lefel enillion/cyflog terfynol yr aelod ar adeg ei ymddeoliad. Mae cyfraniadau gan Gyfarwyddwyr Gweithredol yn gwbl gyson â Chynllun Pensiwn safonol y GIG. Cyfrifir buddion pensiwn ar yr un sail i bob aelod.
Gan nad yw Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl pensiynadwy am eu dyletswyddau ar y Bwrdd, ni fydd unrhyw wybodaeth ynghylch pensiynau i Aelodau Annibynnol.
Gwerthoedd Trosglwyddo Sy’n Cyfateb i Arian Parod
Y Gwerth Trosglwyddo Sy’n Cyfateb i Arian Parod (GTCAP) yw gwerth cyfalaf buddion y cynllun pensiwn yn dilyn asesiad actiwaraid y mae aelod wedi eu cronni ar adeg benodol. Y buddion a brisir yw buddion cronedig yr aelod ynghyd â phensiwn unrhyw briod dibynnol sy’n daladwy o’r cynllun. Mae GTCAP yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun, ac yn dewis trosglwyddo’r buddion cronedig i’w gynllun blaenorol. Mae’r ffigyrau pensiwn a ddangosir yn dangos y buddion y mae unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i’w aelodaeth o’r cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd, nid o ganlyniad i’w wasanaeth mewn rôl uwch yn unig (sef yr hyn y mae’r datganiad hwn yn berthnasol iddi). Mae’r ffigyrau GTCAP a manylion eraill am bensiynau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddion mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall y mae’r unigolyn wedi eu trosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod yn sgil prynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei gost ei hun. Cyfrifir GTCAP yn unol â’r canllawiau a’r fframwaith gan Sefydliad a Chyfadran yr Actiwariaid.
Cynnydd gwirioneddol mewn GTCAP
Mae hwn yn adlewyrchu’r cynnydd mewn GTCAP a ariennir i bob pwrpas gan y cyflogwr. Mae’n cymryd i ystyriaeth werth y pensiwn cronedig yn dilyn chwyddiant ynghyd â chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant arall), ac mae’n defnyddio ffactorau prisio’r farchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod. Ym mis Hydref 2018, cynyddodd y ffactorau a ddefnyddir i gyfrifo GTCAP, sydd wedi effeithio ar y gwerthoedd a ddatgelwyd.

ADRODD AM GYNLLUNIAU TALIADAU ERAILL – PECYNNAU YMADAEL

Mae costau dileu swydd, a chostau eraill yn ymwneud ag ymadael â swyddi, wedi eu talu yn unol â darpariaethau Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd y GIG. Yn yr achosion hynny lle mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i staff ymddeol yn gynnar, talwyd y costau yn sgil hynny gan y sefydliad ac nid gan Gynllun Pensiwn y GIG. Telir costau yn sgil ymddeol oherwydd salwch gan Gynllun Pensiwn y GIG, ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tablau a ddarparwyd. Talwyd costau ymadael o £131,449 yn 2019-2020, sef y flwyddyn y gadawodd y staff ynddi. Mae'r pecynnau ymadael yn cynnwys taliad i'r cyn-Brif Weithredwr, y manylir arno isod.

Gadawodd Allison Williams, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, ei swydd ar 20 Awst 2019. Yn unol â'r cytundeb ar gyfer ei hymadawiad, cynhwysodd y cyflog olaf a dderbyniodd daliad o £8,190 ar gyfer gwyliau blynyddol a gronwyd ond na chawsant eu cymryd, taliad ex-gratia am derfynu cyflogaeth o £75,119, taliad o £45,071 yn unol â'i hawl contractiol i dderbyn tâl yn lle gweithio'r cyfnod rhybudd ynghyd â chyfraniad o £3,600 tuag at ei ffioedd cyfreithiol. Cytunodd y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaeth ar y pecyn ymadael, ac fe'i cymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru lle'r oedd hynny'n angenrheidiol.

GWARIO AR YMGYNGHORWYR

Defnyddir gwasanaethau ymgynghorol i ddarparu cyngor a chymorth i reolwyr yn ymwneud â strategaethau, strwythurau, rheolaeth neu weithrediadau yn y sefydliad wrth iddo gyflawni ei amcanion. Yn ystod 2019/2020, gwariodd BIP CTM £335,000 ar ffioedd ar gyfer ymgynghorwyr allanol, o gymharu â £233,000 yn 2018/19.

SICRWYDD TRETH O RAN STAFF NAD YDYNT AR Y GYFLOGRES

Yn dilyn yr Adolygiad o Drefniadau Treth Penodeion y Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar 23 Mai 2012, rhaid i adrannau gyhoeddi gwybodaeth am eu staff uchel eu tâl a/neu am unigolion uwch nad ydynt ar y gyflogres. Mae'r wybodaeth, i'w gweld yn y tri thabl isod, yn cynnwys pob un achos o weithio oddi ar y gyflogres hyd at 31 Mawrth 2020, lle'r oedd yr unigolyn yn ennill mwy na £245 y diwrnod am fwy na chwe mis ar gyfer yr adran greiddiol, ei hasiantaethau gweithredol a'i chyrff hyd fraich.

Tabl 1: Achosion o weithio oddi ar y gyflogres hyd at 31 March 2020, am fwy na £245 y diwrnod ac am fwy na chwe mis

Nifer yr achosion presennol o weithio oddi ar y gyflogres hyd at 31 Mawrth 2010	17
O'r nifer hwn, y nifer sydd wedi bod:	
am lai nag un flwyddyn ar adeg y cyfnod adrodd.	4
am gyfnod o flwyddyn i ddwy flynedd ar adeg y cyfnod adrodd.	4
am gyfnod o ddwy flynedd i dair blynedd ar adeg y cyfnod adrodd.	5
am gyfnod o dair blynedd i bedair blynedd ar adeg y cyfnod adrodd.	4
am gyfnod o bedair blynedd i bum mlynedd ar adeg y cyfnod adrodd.	0

Tabl 2 Pob achos newydd o weithio oddi ar y gyflogres, neu'r achosion o wneud hynny am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020, am fwy na £245 y diwrnod am fwy na chwe mis

Achosion newydd o weithio oddi ar y gyflogres, neu'r achosion o wneud hynny am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020	3
O'r nifer hwn...	
Y nifer a aseswyd fel y'u daliwyd gan IR35	3
Y nifer a aseswyd nas daliwyd gan IR35	0
Y nifer a gymerwyd ymlaen yn uniongyrchol (trwy Gwmni Gwasanaeth Personol a gontractir mewn adran) ac sydd ar gyflogres yr adran.	0
Nifer yr achosion o gymryd pobl ymlaen a ailaseswyd ar gyfer cysondeb/at ddibenion sicrwydd yn ystod y flwyddyn.	0
Nifer yr achosion o gymryd pobl ymlaen a arweiniodd at newid i'r statws IR35 yn dilyn yr adolygiad o gysondeb.	0

Tabl 3; Pob aelod o'r Bwrdd nad oedd ar y gyflogres, a/neu uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

Nifer yr aelodau o'r Bwrdd nad oeddent ar y gyflogres, a/neu unrhyw uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol nad oeddent ar y gyflogres, yn ystod y flwyddyn ariannol.	0
Nifer yr unigolion y pennwyd eu bod yn "aelodau o'r bwrdd, a/neu yn uwch-swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. Dylai'r ffigwr hwn gynnwys unigolion oedd ar y gyflogres ac unigolion nad oeddent ar y gyflogres.	17

ADRODD YNGHYLCH CYNLLUNIAU TALIADAU ERAILL – PECYNNAU YMADAEL

		2019-20		2019-20		2019-20	2019-20	2018-19
Bandiau cost pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw daliadau arbennig)		Nifer y diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau eraill		Cyfanswm y pecynnau ymadael	Nifer yr ymadawiadau lle mae taliadau arbennig wedi eu talu	Cyfanswm y pecynnau ymadael
		Rhifau cyfan yn unig		Rhifau cyfan yn unig		Rhifau cyfan yn unig	Rhifau cyfan yn unig	Rhifau cyfan yn unig
Llai na £10,000		0		0		0	0	0
£10,000 i £25,000		0		1		1	0	0
£25,000 i £50,000		0		1		1	0	0
£50,000 i £100,000		0		1		1	0	0
£100,000 i £150,000		0		0		0	0	0
£150,000 i £200,000		0		0		0	0	0
mwya na £200,000		0		0		0	0	0
Cyfanswm		0		3		3	0	0

**ADRODD YNGHYLCH CYNLLUNIAU TALIADAU ERAILL – PECYNNAU YMADAEL
(PARHAD)**

		2019-20		2019-20		2019-20		2019-20		2018-19
Bandiau cost pecynnau ymadael (gan gynnwys unrhyw daliadau arbennig)		Cost diswyddiadau gorfodol		Cost ymadawiadau eraill		Cyfanswm cost pecynnau ymadael		Cost unrhyw daliadau arbennig mewn pecynnau ymadael		Cyfanswm cost pecynnau ymadael
		£		£		£		£		£
Llai na £10,000		0		0		0		0		0
£10,000 i £25,000		0		10,000		10,000		0		0
£25,000 i £50,000		0		40,152		40,152		0		0
£50,000 i £100,000		0		81,297		81,297		0		0
£100,000 i £150,000		0		0		0		0		0
£150,000 i £200,000		0		0		0		0		0
mwy na £200,000		0		0		0		0		0
Cyfanswm		0		131,449		131,449		0		0



.....
Sharon Hopkins
Prif Weithredwr (Dros Dro)

Dyddiedig: 29 Mehefin
2020



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

ADRODDIAD ATEBOLRWYDD AC ARCHWILIO CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Lle bydd y Bwrdd Iechyd yn gwneud gweithgarwch nad ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, bydd BIP CTM yn derbyn incwm i dalu ei gostau. Cyhoeddir gwybodaeth bellach am yr incwm a dderbynnir yn ein cyfrifon blyneddol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion ar gyfer dyrannu costau a chodi ffioedd yn ystod y flwyddyn fel y'u nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM.

Cysondeb gwariant

Disgwylir y bydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio mewn modd sy'n rhoi sicrwydd rhesymol y bydd adnoddau cyhoeddus yn cael eu defnyddio i gyflawni'r amcanion arfaethedig. Rhaid i wariant gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys deddfwriaeth yr UE ac awdurdodau dirprwyedig, a rhaid hefyd iddo ddilyn canllawiau Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

Ffioedd a thaliadau

Fel arfer, mae ffioedd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau yn y sector cyhoeddus yn pasio ymlaen y gost lawn o ddarparu'r gwasanaethau hyn. Mae sgôp i godi mwy neu lai na hyn, ar yr amod bod y Gweinidog perthnasol wedi cymeradwyo hynny a bod datgeliad llawn ynghylch faint a godwyd. Caiff sefydliadau yn y sector cyhoeddus ddarparu gwasanaethau masnachol ar delerau masnachol hefyd, mewn modd sy'n cystadlu'n deg â darparwyr yn y sector preifat. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl rheolaethau priodol dros sut y codir ffioedd, pryd y codir ffioedd a faint a godir mewn ffioedd.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ystod o ddatgeliadau ar gysondeb gwariant, ffioedd a thaliadau, cydymffurfiad â'r dyraniad costau a'r gofynion codi ffioedd a bennir yng nghanllaw Trysorlys Ei Mawrhydi, rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol o bell, tueddiadau gwariant hirdymor, a'r dystysgrif a'r adroddiad archwilio.

Rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol

Dyma rwymedigaethau nad ydynt, oherwydd ei bod yn annhebygol y bydd ffi yn cael ei chodi ar y Bwrdd Iechyd, yn cael eu hystyried yn draul nac yn rhwymedigaeth ddigwyddiadol. Nodir isod y rhwymedigaethau digwyddiadol annhebygol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2020:

	2019 - 20 £000	2018 - 19 £000
Gwarantau	-	-
Indemnïadau	275	1,025
Llythyr o Gysur	-	-
Cyfanswm	275	1,025

Incwm Amrywiol	2015-16	2016-17	2017-18	2018-19	2019-20
	£000	£000	£000	£000	£000
	79,386	80,188	82,852	91,573	144,961

Y DYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILIO ANNIBYNNOL ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU I'R SENEDD

Adroddiad ynghylch yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Rwyf yn tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020, o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Ymhlith y datganiadau hyn y mae'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a nodiadau cysylltiedig, ynghyd â chrynodeb o bolisiâu cyfrifyddu sylweddol. Mae'r fframwaith adroddariannol a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r rhain yw'r gyfraith berthnasol a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM a seiliwyd ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Fy marn

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Cwm Taf Morgannwg fel yr oedd ar 31 Mawrth 2020, ac o'i gostau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac maent
- wedi cael eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Sail y farn

Pwysleisio Mater- Rhwymedigaethau Treth Pensiynau Clinigwyr

Tynnaf sylw at Nodyn 21 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, yn ei orchymyn i gyllido costau rhwymedigaethau treth pensiynau clinigwyr y GIG yr aeth cyrff GIG Cymru iddynt ym flwyddyn ariannol 2019-20. Datgelodd y Bwrdd Iechyd rwymedigaeth ddigwyddiadol ar 31 Mawrth 2020, ac nid yw fy marn wedi newid mewn perthynas â'r mater hwn.

Cynheliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol yn y DU. Mae fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hyn wedi eu

disgrifio ymhellach yn yr adran yn fy adroddiad ynghylch cyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol ar y Bwrdd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safonau Moesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi ei chael yn sail ddigonol a phriodol i fy marn.

Casgliadau mewn perthynas â sefyllfa'r sefydliad fel sefydliad hyfyw

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, y mae gofyn imi eu hadrodd i chi yn ôl Safonau Archwilio Rhyngwladol:

- os nad yw'r sail 'sefydliad hyfyw' i gyfrifyddu wrth baratoi datganiadau ariannol yn briodol; neu
- os nad yw'r Prif Weithredwr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd arwyddocaol perthnasol a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Bwrdd Iechyd i barhau i fabwysiadu'r sail 'sefydliad hyfyw' i gyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf, o'r dyddiad yr awdurdodwyd cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol ac fy adroddiad archwilio am y datganiadau hyn. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn berthnasol i'r wybodaeth arall ac, ac eithrio i'r graddau y nodir yn glir fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn datgan unrhyw ffurf ar gasgliad ynghylch sicrwydd mewn perthynas â'r wybodaeth hon.

Mewn perthynas â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn canfod unrhyw anghysondebau arwyddocaol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd, ac i ganfod unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn arwyddocaol o anghywir ar sail y wybodaeth a gefais wrth gynnal yr archwiliad, neu unrhyw wybodaeth sy'n arwyddocaol o anghyson â'r wybodaeth hon. Os byddaf yn dod i wybod am unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau arwyddocaol, byddaf yn ystyried eu goblygiadau i fy adroddiad.

Fy marn ynghylch cysondeb

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r dibenion a arfaethwyd gan y Senedd, ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad taliadau i staff i'w harchwilio wedi cael ei pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed o dan y Ddeddf honno gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, ar sail y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Datganiad Llywodraethiant ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol, ac mae'r Datganiad Llywodraethiant wedi ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru;
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar eu cyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a'r Rhagair, ac mae'r Adroddiad Atebolrwydd wedi ei baratoi yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

Materion yr adroddaf arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r Bwrdd a'i amgylchfyd a gasglwyd wrth gynnal yr archwiliad, ni ddeuthum o hyd i unrhyw gamddatganiadau arwyddocaol yn y Rhagair na'r Adroddiad Atebolrwydd.

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr adroddaf i chi os, yn fy marn i:

- nad yw cofnodion cyfrifyddu priodol wedi eu cadw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r cofnodion cyfrifyddu na'r datganiadau;
- nad yw gwybodaeth a fynnir gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru am daliadau i staff a thrafodion eraill wedi eu datgelu; neu
- os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r eglurhadau angenrheidiol sydd eu hangen ar gyfer fy archwiliad.

Adrodd

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr dros y datganiadau ariannol

Fel yr eglurwyd yn fwy manwl yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am y prosesau rheoli angenrheidiol a ystyrir ganddynt yn briodol fel y gellir paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau, boed hynny oherwydd twyll neu drwy gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r Bwrdd i barhau fel sefydliad hyfyw, datgelu'r materion priodol hynny sy'n ymwneud â statws y sefydliad fel un hyfyw, ac am ddefnyddio'r sail 'sefydliad hyfyw' i gyfrifyddu oni fernir bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r archwiliwr am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nodau yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn cynnwys camddatganiadau arwyddocaol, boed hynny oherwydd twyll neu drwy gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad archwilio sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n dilyn y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob tro yn canfod camddatganiad arwyddocaol pan fo un. Gall camddatganiadau godi yn sgil twyll neu gamgymeriad, ac fe'u hystyrir yn arwyddocaol os gellir, yn unigol neu o'u cyfuno, ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a gymerir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilio.

Cyfrifoldebau dros gysondeb

Y Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am sicrhau cysondeb trafodion ariannol.

Mae gofyn imi dderbyn tystiolaeth ddigonol er mwyn rhoi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r dibenion a arfaethwyd gan y Senedd, a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
2 Gorffennaf 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ